# CAPEL Y TABERNACL CYF

England & Wales · Charity number 1122584

## Details

| | |
|---|---|
| **Status** | Registered |
| **Legal form** | Charitable company |
| **Company number** | 06349041 |
| **Registered** | 2008-02-04 |
| **Register** | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| **Address** | 16 Heol Iscoed<br>Efail Isaf<br>Pontypridd<br>Mid Glamorgan<br>CF38 1BP |
| **Phone** | 07539452130 |
| **Email** | capelytabernacl@gmail.com |
| **Website** | www.tabernacl.org |

## Activities

**Objects:** 3.1 TO ADVANCE THE CHRISTIAN RELIGION IN ACCORDANCE WITH THE BELIEFS OF THE PROTESTANT DISSENTERS CALLED WELSH INDEPENDENTS AS MEMBERS OF THE UNION OF WELSH INDEPENDENTS, AND3.2 FOR THE GENERAL PURPOSES OF SUCH CHARITABLE BODIES OR FOR SUCH OTHER PURPOSES AS SHALL BE EXCLUSIVELY CHARITABLE AS THE TRUSTEES MAY FROM TIME TO TIME DECIDE.

**Activities:** Prif amcan yr elusen hon yw hyrwyddo'r ffydd Gristionogol un unol a chredoau'r Protestaniaid anghydffurfiol fel y'i hadwaenir ac fel aelod o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; hefyd at bwrpasau cyffredinol cyrff elusennol ac at ddibenion elusennol eraill a gaiff ei benderfynu o bryd i'w gilydd gan yr Ymddiriedolwyr.

Downloaded from opencharities.uk/ew/1122584

## Classification

- **How:** Provides Human Resources, Provides Buildings/facilities/open Space, Provides Services, Provides Advocacy/advice/information, Other Charitable Activities
- **What:** General Charitable Purposes, Education/training, The Advancement Of Health Or Saving Of Lives, Disability, The Prevention Or Relief Of Poverty, Overseas Aid/famine Relief, Religious Activities, Arts/culture/heritage/science, Amateur Sport, Environment/conservation/heritage, Economic/community Development/employment, Human Rights/religious Or Racial Harmony/equality Or Diversity, Other Charitable Purposes
- **Who:** Children/young People, Elderly/old People, People With Disabilities, People Of A Particular Ethnic Or Racial Origin, Other Charities Or Voluntary Bodies, The General Public/mankind

## Geography

- **Area of benefit:** RHONDDA CYN ON TAF
- Rhondda Cynon Taff

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2024-12-31 | £98,237 | £69,597 | - | - |
| 2023-12-31 | £59,869 | £73,334 | - | - |
| 2022-12-31 | £69,321 | £78,177 | - | - |
| 2021-12-31 | £55,328 | £48,125 | - | - |
| 2020-12-31 | £47,009 | £52,000 | - | - |

Downloaded from opencharities.uk/ew/1122584

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| Alun Huw Herbert | | 2024-12-01 |
| Alun Wyn Bevan | | 2023-11-26 |
| Caroline Ruth Rees | | 2023-11-26 |
| Gaynor Elizabeth Evans | | 2025-11-30 |
| Jayne Bethan Roberts | | 2024-12-01 |
| Margaret Pritchard Copley | | 2026-01-20 |
| Rhiannon Humphreys | | 2026-01-20 |
| Rhys Llewelyn | | 2024-12-01 |
| Sulwen Annette Lloyd | | 2025-11-30 |

Downloaded from opencharities.uk/ew/1122584

CAPEL Y TABERNACL CYF

England & Wales - Charity number 1122584

# Accounts

CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIAD ARIANNOL

## Y flwyddyn hyd at 31ain Rhagfyr 2024



**Capel y Tabernacl, Cyf.**
Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig:
06349041 (Cymru)
Elusen Gofrestredig Rhif: 1122584

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol | Tudalen 2 - 3 |
| Swyddogion y Tabernacl | Tudalen 4 - 5 |
| Adroddiad yr Ymddiriedolwyr | Tudalen 6 - 7 |
| Adroddiad y Cadeirydd | Tudalen 8 - 9 |
| Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol | Tudalen 10 |
| Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol | Tudalen 11 |
| Mantolen | Tudalen 12 |
| Nodiadau sy'n ffurfio rhan o'r DatganiadauAriannol | Tudalen 13 - 17 |
| Datganiad Manwl o'r Gweithgareddau Ariannol | Tudalen 18 - 19 |


**Enw Cofrestredig y Cwmni:** Capel y Tabernacl, Cyf.

**Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig:** 06349041 (Cymru)

**Elusen Gofrestredig:** 1122584

**Cyfeiriad Cofrestredig:**
16 Heol Iscoed
Efail Isaf
Pontypridd
CF38 1BP

**Ysgrifennydd y Cwmni:** Caroline Ruth Rees

CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

## YMDDIRIEDOLWYR YR ELUSEN A CHYFARWYDDWYR Y CWMNI

| **Enw** | **Etholwyd** |
|---|---|
| Alun Huw Herbert | Rhagfyr 2024 |
| Elwyn Hughes | Tachwedd 2022 |
| Aled Illtud Humphreys | Tachwedd 2022 |
| Siân Jones | Tachwedd 2022 |
| Rhys Llewelyn | Rhagfyr 2024 |
| Non Gibbon Morris | Tachwedd 2022 |
| Bethan Elen Reynolds | Tachwedd 2022 |
| Alun Wyn Bevan *(Cadeirydd)* | Tachwedd 2023 |
| Caroline Ruth Rees | Tachwedd 2023 |
| Jayne Bethan Roberts | Rhagfyr 2024 |
| Gwion Prys Evans* | Tachwedd 2021 |
| Rhian Eyres* | Tachwedd 2021 |
| Helen Middleton* | Tachwedd 2020 |
| Iwan Llwyd Rowlands* | Tachwedd 2020 |

Mae disgwyl i oddeutu traean yr ymddiriedolwyr / cyfarwyddwyr i ymddeol yn eu tro bob blwyddyn. Ymddeolodd y rhai gydag * ar bwys eu henwau ym mis Rhagfyr 2024.

**Cyfreithwyr:** Devonalds, York House, Pontypridd CF37 1JW

**Banc:** Lloyds Bank, Sgwâr y Farchnad, Pontypridd CF37 2TF

**Cyfrifwyr:** Curtis Bowden & Thomas Ltd., Cyfrifwyr Siartredig,
101 Dunraven Street, Tonypandy CF40 1AR

# SWYDDOGION Y TABERNACL

**Cadeirydd**
Alun Wyn Bevan

**Ysgrifennydd**
Caroline Rees

**Trysorydd**
Arwyn Lloyd Jones

**Trefnyddion Oedfaon**
Rhiannon Humphreys
Helen Prosser
Geraint Rees
Heulyn Rees
Lyn West

**Panel Priodasau**
Geraint Rees
Rhiannon Humphreys
*Cofrestru Priodasau:*
Rhys Llewelyn
Helen Middleton
Bethan Guilfoyle
Gwenfil Thomas

**Organyddion a Chyfeilyddion**
Sian Elin Jones gyda chymorth
Bethan Roberts Rhiannon Humphreys ac Elwyn Hughes

**Tîm Ffrydio'r Oedfaon**
Aled Illtud; Eirian Hughes; Emlyn P. Jones;
Gareth Humphreys; Hefin Gruffydd

**Gweithgor Bugeiliol**
Iwan Rowlands; Eirian Hughes; Helen Middleton; Siân Jones;
Eifiona Hewitt; Bethan Guilfoyle; Lowri Roberts; Carys Davies;
Judith Thomas a Gaynor Evans

**Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol**
John Ll. Thomas *(Cadeirydd)*
Ann D. Davies *(Ysgrifennydd)*
Rhian Eyres, Carys Davies, Sylvia Davies, Gill Rees,
Eleri Jones, Geraint Wyn Davies, Beti Treharne,
Margaret Calvert a Rhys Llewelyn

## SWYDDOGION Y TABERNACL – *parhad*

**Yr Ysgol Sul a'r Twmiaid**

*Ysgol Sul:* Manon Huws
*Twmiaid:* Eleri Mai Thomas

**Pwyllgor Arloesi a Buddsoddi**
Caroline Rees *(Cadeirydd)*
Eleri Mai Thomas *(Swyddog Ieuenctid a Chymunedol)*
Heulyn Rees, Lyn West, Llio Ellis a Huw Maredudd Roberts

**Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus**
*Cydlynydd Diogelu*: Caroline Rees
*Gwiriwr DBS:* Wendy Reynolds

**Pwyllgor y Meddiannau**
Mike West *(Cadeirydd)*
*Y Fynwent:* Edwyn Evans
*Rhandiroedd:* Emlyn P. Jones

**Merched y Tabernacl**
Judith Thomas
Gaynor Evans

**Gweithgor Ariannol**
Gwilym Huws *(Cadeirydd)*
Arwyn Lloyd Jones *(Trysorydd)*

**Swyddog Ieuenctid a Chymunedol**
Eleri Mai Thomas

**Rheolwyr Safle**
Mike West
Rhian Eyres

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr yr elusen at ddiben deddfwriaeth cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2024. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu'r "Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau" a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019 wrth baratoi'r adroddiad blynyddol, ac mae'r datganiadau hyn yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol o 1 Ionawr 2019).

### Strwythur, rheoli a threfn lywodraethol

Mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn gwmni elusennol ac yn gwmni cyfyngedig o dan warant fel y'i diffinnir yn Neddf Cwmnïau 2006. Fe'i sefydlwyd yn unol â'r Memorandwm sy'n datgan manylion a phwerau'r cwmni, a chaiff ei reoli'n unol â'r Erthyglau Cymdeithasiad.

Prif ddiben y cwmni yw hybu'r grefydd Gristnogol yn unol â chredoau'r anghydffurfwyr Protestannaidd a elwir yn Annibynwyr Cymraeg, fel aelodau o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; a hefyd at ddibenion cyffredinol y cyfryw gyrff elusennol neu at ddibenion eraill a fydd yn elusennol yn unig fel y penderfynir o bryd i'w gilydd gan yr Ymddiriedolwyr. Y Bwrdd sydd yn gyfrifol am arolygu holl waith a busnes yr elusen, gyda'r aelodau'n gweithredu fel Ymddiriedolwyr.

### Yr Ymddiriedolwyr

Etholir yr Ymddiriedolwyr gan Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Capel y Tabernacl, Cyf. Ni fyddant yn llai na chwech mewn nifer ond (oni bai y pennir fel arall gan benderfyniad cyffredin), ni fyddant yn amodol ar unrhyw uchafswm. Mae gan y Bwrdd hawl i gyfethol Ymddiriedolwyr ychwanegol. Yn dilyn pob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, bydd yr Ymddiriedolwyr yn penodi un o'u plith i fod yn gadeirydd eu cyfarfodydd. Y nifer angenrheidiol i ffurfio cworwm yw 6 person sydd â'r hawl i bleidleisio ar y mater i'w drafod.

### Rheoli

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd bob rhyw chwech wythnos. Mae gwaith yr eglwys yn cael ei drefnu o ddydd i ddydd gan nifer o bwyllgorau a gweithgorau sy'n cwrdd yn rheolaidd.

Bydd pob un o'r pwyllgorau a'r gweithgorau hyn yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn rheolaidd.

Mae'r Erthyglau Cymdeithasiad yn datgan bod pob aelod o'r Elusen yn ymgymryd i gyfrannu at asedau'r elusen swm gofynnol na fydd yn fwy na deg punt os digwydd i'r elusen gael ei dirwyn i ben.

### Cyflogaeth

Mae Capel y Tabernacl Cyf. yn cyflogi un person rhan-amser, sef Swyddog Ieuenctid a Cymunedol, ynghyd â glanhawr.

### Adolygiad Risg

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi adolygu'r risgiau sylweddol hynny lle mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn agored i risg, ac mae systemau wedi eu sefydlu i leihau'r risgiau hynny. Paratowyd adroddiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau'r risgiau, sydd yn cynnwys risgiau megis parhad y capel, materion ariannol, iechyd a diogelwch, amddiffyn plant ac oedolion bregus, data personol yr aelodau, staffio a'r amgylchedd.

### Amcanion a Gweithgareddau

Mae'r elusen yn rhoi sylw dyladwy i arweiniad y Comisiwn Elusennol ar lesâd cyhoeddus. Prif amcan yr elusen yw bod yn eglwys sy'n cynnig cyfle i'r aelodau fod yn dystion i Iesu Grist ym mhentref Efail Isaf, a'r cyffiniau. Golyga hynny ymgymryd â'r holl weithgareddau sy'n arferol i eglwys Gristnogol, ac fe'u rhestrir yn yr Erthyglau Cymdeithasiad. Mae gan y cwmni hefyd hawl i arddel at ddibenion cyffredinol unrhyw gorff elusennol y dymuna'r Ymddiriedolwyr ei gefnogi, neu at ddibenion eraill y bydd yr Ymddiriedolwyr yn eu hystyried yn rhai cyfan gwbl elusennol.

### Llwyddiannau a Pherfformiad

Gweler adroddiad y Cadeirydd. Hefyd ceir manylion pellach yng nghorff yr Adroddiad Blynyddol.

## Adolygiad Ariannol

Adroddir canlyniadau'r elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2024 yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar dudalennau 10 - 19.

Derbyniwyd cyfanswm incwm o £98,237 (2023: £59,869) a gwariwyd £69,597 (2023: £73,334), ac felly yr incwm net am y flwyddyn oedd £28,640 (2023: £1,535). Y prif reswm dros y cynnydd yn incwm yr elusen oedd derbyn rhan o waddol Eglwys Sardis Pontypridd.

Cyfanswm cronfeydd y cwmni ar 31 Rhagfyr 2024 oedd £823,790 (2023: £795,150), o'r hyn roedd £8,573 (2023: £5,964) wedi ei gadw at ddibenion cyfyngedig a £664,877 (2023: £678,286) wedi ei glymu mewn asedau sefydlog a buddsoddi. O ganlyniad roedd gan yr elusen £150,340 (2023: £110,900) o asedau net cyfredol wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Ni roddwyd unrhyw dâl i'r Ymddiriedolwyr.

## Polisi Arian Wrth Gefn

Penderfynodd yr Ymddiriedolwyr roi ystyriaeth fanwl i anghenion y cwmni elusennol am arian wrth gefn, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau yn y ddogfen "Elusennau a chronfeydd wrth gefn" (CC19).

Yn ein barn ni, mae angen cronfa wrth gefn i'r dibenion canlynol:

1. I gynnal gwaith yr elusen a gweithgareddau'r eglwys mewn cyfnodau lle y gallem fod yn wynebu gostyngiad mewn incwm.

2. I wireddu prosiectau mewn cyfnod byr yn ôl y galw.

3. I gynnal a chadw'r adeiladau fel ein bod yn medru wynebu unrhyw waith atgyweirio angenrheidiol heb i'r gost lesteirio ein prif waith fel eglwys.

## Polisi Buddsoddi

Rheolwyd polisi buddsoddi'r cwmni gan yr Erthyglau Cymdeithasiad, o fewn y canllawiau a osodwyd. Rydym yn adolygu'r sefyllfa hon yn gyson.

## Polisi Cronfeydd

Mae'r cwmni'n ffodus bod cyfran helaeth o'r incwm yn dod trwy gyfraniadau aelodau, a'r rheiny ar y cyfan yn weddol gyson trwy'r flwyddyn, gyda nifer helaeth yn talu trwy archeb banc. Derbynnir tua £22,000 y flwyddyn mewn cyfraniadau gan aelodau. Y polisi yw ceisio sicrhau bod tua 3 mis o wariant arferol yn aros yn y cyfrif cyfredol yn gyson, a'r gweddill yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa fuddsoddi, fel y nodwyd uchod.

## Datblygiadau


Teimla'r Ymddiriedolwyr yn hyderus fod dyfodol ariannol Capel y Tabernacl, Cyf. ar seiliau cadarn iawn.

## Archwilydd Annibynnol

Archwilydd Annibynnol y cyfrifon hyn oedd Curtis Bowden & Thomas Ltd. 101 Dunraven Street, Tonypandy CF40 1AR


Paratowyd yr adroddiad hwn ar sail canllawiau *Cyfrifo ac Adrodd i Elusennau: Datganiad o Arferion a Argymhellwyd,* sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon ac yn unol â gofynion Safonau Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (gweithredol o 1 Ionawr 2019).

Cymeradwywyd gan y Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr ar 15 Gorffennaf 2025 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:



Enw: Jayne Bethan Roberts

Ymddiriedolwr



Enw: Non Gibbon Morris

Ymddiriedolwr

# ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Pan gytunais i eistedd ar Fwrdd Capel y Tabernacl, Efail Isaf, ddiwedd 2023 nid fy mwriad o fewn blwyddyn gron oedd Cadeirio'r sefydliad. Ond dyna ddigwyddodd, ac mae hynny'n fraint ac yn anrhydedd. Bu'r cyfnod o flwyddyn dan gadeiryddiaeth Iwan yn gyfle gwych i'm rhoi ar ben ffordd.

Er mai cyfnod helô/gwd-bei yw teyrnasiad Cadeirydd yng Nghapel y Tabernacl, mae ymrwymiad Ysgrifennydd yn hirach o lawer – a siom aruthrol oedd clywed bod Gwilym wedi penderfynu ymddiswyddo ar ddiwedd 2024. Rhaid dweud ein bod ni fel capel wedi elwa'n fawr o'i allu, ei broffesiynoldeb a'i ddoethineb, yn ogystal â'i brofiad helaeth mewn ystod o feysydd. Mae'r Capel yn hynod ddyledus iddo. Ond mae yna rywfaint o newyddion da gan ei fod wedi cytuno i barhau i baratoi *Dolen y Tab* yn wythnosol – yr adnodd sy'n hollbwysig i ni'r aelodau er mwyn cael gwybod am ddigwyddiadau'r capel a'r ardal leol. Parhau wnaeth y newyddion da pan gytunodd Caroline i dderbyn gwahoddiad y Bwrdd i olynu Gwilym fel Ysgrifennydd, a braf dweud ei bod hi eisoes wedi creu argraff arhosol gyda'i hegni. Dymunwn yn dda iddi.

Yn fuan wedi cyhoeddiad Gwilym, rhoddodd Arwyn rybudd y byddai yntau hefyd yn gorffen fel Trysorydd wedi wyth mlynedd o wasanaeth ffyddlon i'r eglwys. Dyma ŵr sy wedi torchi llewys yn dawel a diffwdan, a gwneud ei ran er budd a lles y capel. Ry'n ni'n wir ddyledus iddo. Achos llawenydd yw fod Enfys a Celt Hughes wedi cytuno i lenwi'r esgidiau gwag pan fydd Arwyn yn eu gadael.

Nid capel sy'n agor ei ddrysau ar y Sul yn unig yw'r Tabernacl. Mae yna fywyd i'r lle sy'n deillio, heb unrhyw amheuaeth, o weledigaeth y cyn-weinidog Eirian Rees ynghyd â mewnbwn a chefnogaeth yr aelodau. Gellir dweud â sicrwydd bod y Tabernacl yn gwasanaethu'r gymuned gyfan, gyda'r drysau'n agored i bawb. Yn aml iawn heddi', ry'n ni'n gweld enghreifftiau o rai mudiadau Cristnogol yn denu beirniadaeth, neu hyd yn oed yn tynnu gwawd arnynt eu hunain, oherwydd eu hagweddau cul, gwahanol a di-groeso. Dyna pam dwi'n teimlo, fel Iwan yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2024, yn wirioneddol falch a diolchgar fy mod i'n perthyn i gymuned ac iddi athroniaeth ffydd debyg i'r Tabernacl – man lle mae croeso gwirioneddol yn ganolog, a lle mae'r negeseuon dwysaf a phwysicaf yn rhai o gariad, gobaith a chyfiawnder a'r rheiny'n cael eu gweithredu'n ddyddiol.

Defnyddir y Capel a'r Ganolfan yn rheolaidd gan aelodau'r eglwys a'r gymuned ehangach. Mae pobol yn cael eu croesawu i'n hadeiladau bron bob dydd o'r wythnos – rhwng oedfaon, grwpiau crefft, boreau coffi, corau, gwaith elusennol a'r ardd gymunedol. Diolchwn yn fawr i'r criw sy'n gyfrifol am yr adeiladau, y fynwent, y maes parcio, yr ardd gymunedol a'r rhandiroedd. Maen nhw'n cadw trefn ar bob dim, boed hynny'n drwsio neu'n lanhau, ac mae'r diolch i Mike a Rhian a'u tîm gofalgar am gydlynu'r gwaith.

Un o nodweddion amlyca'r capel yw deilliannau gwaith y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol dan arweiniad John Llew a'i dîm brwdfrydig, nid yn unig drwy'r gwaith wythnosol o gasglu, didoli ac ailgylchu celfi i anffodusion cymdeithas, ond hefyd drwy gynlluniau megis y Talebau Nadolig, yr ymgyrch Wyau Pasg, y gefnogaeth i elusennau lleol gan gynnwys y Banc Bwyd, a'r Apêl Ffynhonnau Byw a weithredwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Mae gwaith y criw bywiog yma'n cael ei

# ADRODDIAD Y CADEIRYDD (PARHAD)

gydnabod ledled Cymru fel patrwm o arfer da, ac fel esiampl o sut y gall cymuned gyfan fyw eu ffydd mewn ffordd ystyrlon ac adeiladol. A ga i ddiolch yn arbennig i chi'r aelodau sy'n ymateb mor bositif i'r gri am gymorth – fel y canodd yr athronydd Groegaidd Socrates, *'One man, one art is best'.*

Fel eglwys sydd wedi ymrwymo i un oedfa Gymraeg yn unig ar y Sul, mae'r ffocws wedi bod ar gyfoethogi ein profiadau wythnosol. Datblygwyd y drefn o gyfarfod yn y prynhawn ar drydydd Sul y mis er mwyn ceisio cynnwys teuluoedd sydd dan bwysau cymdeithasol ar foreau Sul, ond hefyd i roi cyfle i weithgareddau o fath gwahanol. Yn ychwanegol at hyn, datblygwyd trefn o gael brecwast tymhorol a chinio tymhorol er mwyn hwyluso'n hadnabyddiaeth o'n gilydd, a braf yw gweld Neuadd y Pentref yn llawn bob tro y cynhelir yr achlysuron hyn. Gwerthfawrogir pob cyfraniad – i'r oedfaon, i'r Ysgol Sul ac i'r tîm sy'n paratoi'r prydau bwyd safonol.

Eleni eto cafwyd amrywiaeth eang o wasanaethau bendithiol a diddorol, ac mae'n diolch yn fawr i'r canlynol:

- (i) i'r Pwyllgor sydd wrthi'n trefnu, ac i bawb sy'n eu cefnogi.
- (ii) i'r Parchedig Aled Edwards a'r Parchedig Gethin Rhys am eu hymweliadau rheolaidd.
- (iii) i'r organyddion a'r cyfeilyddion am gyd-weithio mor effeithiol.
- (iv) i'r criw gweithgar sy wrthi'n wythnosol yn ffrydio oedfaon.
- (v) i Elwyn am ffurfio a hyfforddi Côr y Tab – cafwyd perfformiadau cofiadwy yn y Tabernacl a'r Eisteddfod leol.
- (vi) i Eleri Mai a'r rhieni ifanc am eu hegni, ac am eu gwaith cyson gyda phlant a ieuenctid y capel.

Un peth sy'n amlwg yng Nghapel y Tabernacl yw parodrwydd cymaint o bobl i gyfrannu, yn aml mewn ffyrdd tawel iawn. Mae yna býls i'r lle, a'r gobaith yw gweld yr holl frwdfrydedd a'r holl egni yn parhau am amser hir i'r dyfodol.

Alun Wyn Bevan
Cadeirydd
Dyddiad: 14 Gorffennaf 2025

## Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr Capel y Tabernacl, Cyf. ('y Cwmni')

Yr wyf yn adrodd i ymddiriedolwyr yr elusen am fy archwiliad o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2024.

## Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad

Fel ymddiriedolwyr elusen y Cwmni (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith cwmnïau), rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ('Deddf 2006').

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archwiliad ariannol o gyfrifon y Cwmni ar gyfer y flwyddyn hon o dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'i fod yn gymwys i gael archwiliad annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon eich elusen fel y'i cwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ('Deddf 2011'). Wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.


.

## Datganiad yr Archwilydd Annibynnol

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i mi gredu:

1. na chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
2. nad yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
3. nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu perthnasol o dan adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol; neu
4. nad yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102).

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon



Stephen John Smith FCCA
The Association of Chartered Certified Accountants

Curtis Bowden & Thomas Limited
Chartered Certified Accountants
101 Dunraven Street
Tonypandy
CF40 1AR

**Datganiad o Weithgareddau Ariannol**
**Am y Flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2024**

| | Nodyn | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | 31.12.24 Cyfanswm Cronfeydd £ | 31.12.23 Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm a gwaddolion o:** | | | | | |
| Rhoddion a Chymynroddion | | 76,466 | - | 76,466 | 42,321 |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | | | | |
| Gweithgareddau Crefyddol | | - | 20,457 | 20,457 | 16,846 |
| Incwm Buddsoddiadau | 2 | 1,314 | - | 1,314 | 702 |
| **Cyfanswm** | | 77,780 | 20,457 | 98,237 | 59,869 |
| **Gwariant ar Gweithgareddau Elusennol** | | | | | |
| Gweithgareddau Crefyddol | | 51,749 | 17,848 | 69,597 | 73,334 |
| Enillion net o fuddsoddiadau | | - | - | - | 15,000 |
| **INCWM NET** | | 26,031 | 2,609 | 28,640 | 1,535 |
| **Cysoni'r Cronfeydd** | | | | | |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | 789,186 | 5,964 | 795,150 | 793,615 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen** | | 815,217 | 8,573 | 823,790 | 795,150 |

## Mantolen
## 31 Rhagfyr 2024

| | Nodyn | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | 31.12.24 Cyfanswm Cronfeydd £ | 31.12.23 Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog** | | | | | |
| Asedau Diriaethol | 7 | 489,877 | - | 489,877 | 503,286 |
| Buddsoddiadau | 8 | 175,000 | - | 175,000 | 175,000 |
| | | 664,877 | - | 664,877 | 678,286 |
| **Asedau Cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr | 9 | 2,398 | - | 2,398 | 2,366 |
| Arian yn y Banc | | 148,992 | 8,573 | 157,565 | 115,548 |
| | | 151,390 | 8,573 | 159,963 | 117,914 |
| **Credydwyr** | | | | | |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | 10 | (1,050) | - | (1,050) | (1,050) |
| **Asedau Net Cyfredol** | | 150,340 | 8,573 | 158,913 | 116,864 |
| **Cyfanswm Asedau Llai Dyledion Cyfredol** | | 815,217 | 8,573 | 823,790 | 795,150 |
| **ASEDAU NET** | | 815,217 | 8,573 | 823,790 | 795,150 |
| **Cronfeydd** | 11 | | | | |
| Cronfeydd Anghyfyngedig | | | | 815,217 | 789,186 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | | | | 8,573 | 5,964 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd** | | | | 823,790 | 795,150 |

Mae gan y cwmni elusennol hawl i beidio â chynnal awdit, dan Adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006, am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Rhagfyr 2024.

Nid yw'r aelodau wedi gofyn i'r cwmni elusennol gynnal awdit o'u cyfrifon ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2024 yn unol ag Adran 476 Deddf Cwmnïau 2006.


Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb dros y canlynol:

(a) sicrhau bod y cwmni elusennol yn cadw cyfrifon sy'n cyd-fynd â gofynion Adran 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ac


(b) yn paratoi datganiadau ariannol sy'n adlewyrchu'n gywir a theg sefyllfa'r cwmni elusennol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, gan gynnwys y gwarged neu'r ddyled yn unol â gofynion Adrannau 394 a 395 ac sydd fel arall yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 o safbwynt datganiadau ariannol sy'n berthnasol i gwmnïau elusennol.

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu paratoi i gydymffurfio â gofynion arbennig Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau elusennol bychan.

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 15 Gorffennaf 2025 a'u llofnodi ar eu rhan gan:




Enw'r Ymddiriedolwr: Jayne Bethan Roberts



Enw Ymddiriedolwr: Non Gibbon Morris



*Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol*

**Nodiadau ar Ddatganiadau Ariannol**
**Am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Rhagfyr 2024**

## 1. Polisiau Cyfrifo

**Sail paratoi'r datganiadau ariannol**
Mae datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sydd yn endid budd cyhoeddus o dan FRS 102, wedi cael eu paratoi yn unol â SORP (FRS 102) *Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice* sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (gweithredol o 1 Ionawr 2019), a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar sail confensiwn hanesyddol. Mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn cwrdd â'r diffiniad o endid budd cyhoeddus dan FRS 102. Caiff yr asedau a'r dyledion eu cydnabod o'r cychwyn cyntaf ar gost neu werth gweithrediad hanesyddol ac eithrio buddsoddiadau wedi eu cynnwys ar sail gwerth y farchnad sydd wedi eu haddasu wrth ail-werthuso rhai asedau.

**Incwm**
Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol unwaith mae gan yr elusen hawl i'r cronfeydd, mae'r incwm yn debygol o gael ei dderbyn, ac mae modd mesur y swm yn hyderus.

**Gwariant**
Caiff ymrwymiadau eu cydnabod fel gwariant cyn gynted ag y bo rheidrwydd cyfreithiol neu ymarferol yn ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw. Mae'n debygol y bydd rhaid trosglwyddo buddiannau economaidd fel setliad a gellir mesur yr ymrwymiad mewn modd dibynadwy. Caiff y gwariant ei gyfrifo ar sail croniadau, ac fe'i dosbarthwyd dan benawdau sy'n corlannu'r holl gostau o fewn y categori. Lle nad oes modd clustnodi costau dan bennawd penodol, maent wedi eu clustnodi o dan weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd a wneir o'r adnoddau.

### Asedau Sefydlog Diriaethol

Cynhyrchir y dibrisiad ar y graddfeydd blynyddol a ganlyn er mwyn amcangyfrif y gwerth sy'n weddill dros oes yr ased.

| | | |
|---|---|---|
| Eiddo Rhyddfraint | - | 2% o'r gost |
| Offer a chyfarpar | - | 25% o'r gost |

### Trethiant

Mae'r elusen yn cael ei heithrio o dalu treth corfforaethol ar ei gweithgarwch elusennol.

### Cyfrifo Cronfeydd

Gellir defnyddio cronfeydd anghyfyngedig yn unol â'r amcanion elusennol gyda sêl bendith yr ymddiriedolwyr. Dim ond at ddibenion penodol o fewn amcanion yr elusen y gellir defnyddio cronfeydd cyfyngedig. Ceir cyfyngiad pan fo'r rhoddwr yn nodi hynny, neu pan fo'r gronfa wedi ei chreu i godi arian at bwrpasau cyfyngedig penodol.

Ceir esboniad pellach am natur a diben pob cronfa yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

## 2. Incwm Buddsoddiadau

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Llog Cyfrif Cadw | 509 | 702 |
| Llog Cyfrif Tymor Sefydlog | 805 | - |
| | 1,314 | 702 |

## 3. Incwm Net/(gwariant)

Nodir Incwm net/(gwariant): ar ôl codi tâl (credydu)

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ffi Archwilio | 1,050 | 1,050 |
| Dibrisiant – asedau'r cwmni | 13,409 | 13,409 |



*Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol*

**Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol - *parhad***
**Am y Flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2024**

**4. Cydnabyddiaeth a Buddiannau'r Ymddiriedolwyr**

Ni roddwyd unrhyw gydnabyddiaeth na buddiannau eraill i'r Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2024 na'r flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2023.

**Costau'r Ymddiriedolwyr**

Ni thalwyd unrhyw gostau i'r Ymddiriedolwyr yn y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2024 na'r flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2023.

**5. Costau Staff**

Ar gyfartaledd misol cyflogwyd y nifer canlynol o staff yn ystod y flwyddyn:

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| Costau Staff | 2 | 2 |

Ni dderbyniodd yr un o'r cyflogeion dâl o fwy na £60,000.

**6. Cymariaethau ar Gyfer y Datganiad o Weithgareddau Ariannol**

| | Cronfeydd anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|
| **Incwm a Chymynroddion o:** | | | |
| Rhoddion a Chymynroddion | 42,321 | - | 42,321 |
| **Gwaith Elusennol** | | | |
| Gweithgareddau Crefyddol | - | 16,846 | 16,846 |
| Incwm Buddsoddi | 702 | - | 702 |
| **Cyfanswm** | 43,023 | 16,846 | 59,869 |
| **Gwariant ar Waith Elusennol** | | | |
| Gweithgareddau Crefyddol | 55,768 | 17,566 | 73,334 |
| Enillion net o fuddsodi | 15,000 | - | 15,000 |
| **INCWM NET/(GWARIANT)** | 2,255 | (720) | 1,535 |
| **Cysoni Cronfeydd** | | | |
| Cyfanswm Cronfeydd a ddygwyd ymlaen | 786,931 | 6,684 | 793,615 |

**6. Cymariaethau ar gyfer y Datganiadau o Weithgareddau Ariannol - *parhad***

| | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Cyfyngedig | Cyfanswm Cronfeydd |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Cyfanswm Cronfeydd a Ddygwyd Ymlaen** | 789,186 | 5,964 | 795,150 |

**7. Asedau Sefydlog Diriaethol**

| | Eiddo Rhyddfraint | Offer a Chyfarpar | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Cost** | £ | £ | £ |
| Ar 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024 | 636,377 | 24,614 | 660,991 |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2024 | 133,091 | 24,614 | 157,705 |
| Tâl am flwyddyn | 13,409 | - | 13,409 |
| Ar 31 Rhagfyr 2024 | 146,500 | 24,614 | 171,114 |
| **Gwerth Net yn y Llyfr** | | | |
| Ar 31 Rhagfyr 2024 | 489,877 | - | 489,877 |
| Ar 31 Rhagfyr 2023 | 503,286 | - | 503,286 |

**8. Asedau Buddsoddi Sefydlog**

| | Buddsoddiadau heb eu Rhestru |
|---|---|
| | £ |
| **Gwerth ar y Farchnad** | |
| Ar 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024 | 175,000 |
| **Gwerth Net yn y Llyfr** | |
| Ar 31 Rhagfyr 2024 | 175,000 |
| Ar 31 Rhagfyr 2023 | 175,000 |

Doedd dim buddsoddiadau y tu allan i'r DU.

**9. Dyledwyr: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn**

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Blaendaliadau | 2,398 | 2,366 |

## 10. Credydwyr: symiau yn ddyledus o fewn y flwyddyn

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Costau Cronedig | 1,050 | 1,050 |

## 11. Symudiadau o Fewn Cronfeydd

| | Ar 1.1.24 | Symudiadau net mewn cronfeydd | Ar 31.12.24 |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 789,186 | 26,031 | 815,217 |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Cronfa Cyfyngedig | 5,964 | 2,609 | 8,573 |
| **Cyfansymiau Cronfeydd** | 795,150 | 28,640 | 823,790 |

Mae'r symudiadau net mewn cronfeydd a gynhwysir uchod fel a ganlyn:

| | Adnoddau Dderbyniwyd | Adnoddau a wariwyd | Symudiadau mewn cronfeydd |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 77,780 | (51,749) | 26,031 |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Cronfa Cyfyngedig | 20,457 | (17,848) | 2,609 |
| **Cyfansymiau cronfeydd** | 98,237 | (69,597) | 28,640 |

**Symudiadau Cymharol Mewn Cronfeydd**

| | Ar 1.1.23 | Symudiadau net mewn Cronfeydd | Ar 31.12.23 |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 786,931 | 2,255 | 789,186 |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Cronfa Cyfyngedig | 6,684 | (720) | 5,964 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 793,615 | 1,535 | 795,150 |

## 11. Symudiadau Mewn Cronfeydd - parhad

Mae'r symudiadau net mewn cronfeydd a gynhwysir yn yr uchod fel a ganlyn:

| | Anoddau Dderbyniwyd | Adnoddau Wariwyd | Elw a Cholledion | Symudiadau mewn Cronfeydd |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 43,023 | (55,768) | 15,000 | 2,255 |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | | |
| Cronfa Gyfyngedig | 16,846 | (17,566) | - | (720) |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 59,869 | (73,334) | 15,000 | 1,535 |

Wrth gyfuno'r flwyddyn gyfredol 12 mis a'r flwyddyn flaenorol 12 mis dyma a geir:

| | Ar 1.1.23 | Symudiadau Net yn y cronfeydd | Ar 31.12.24 |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 786,931 | 28,286 | 815,217 |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Cronfa Gyfyngedig | 6,684 | 1,889 | 8,573 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 793,615 | 30,175 | 823,790 |

Drwy gyfuno symudiadau net cronfeydd y flwyddyn 12 mis gyfredol a'r flwyddyn 12 mis flaenorol uchod ceir hyn

| | Adnoddau Dderbyniwyd | Adnoddau Wariwyd | Enillion a Cholledion | Symudiadau mewn cronfeydd |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 120,803 | (107,517) | 15,000 | 28,286 |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | | |
| Cronfa Gyfyngedig | 37,303 | (35,414) | - | 1,889 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 158,106 | (142,931) | 15,000 | 30,175 |

## 12. Datgeliadau Partïon Perthynol

Nid oedd unrhyw drafodion rhwng partïon yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2024.

**Datganiad Manwl o'r Gweithgareddau Ariannol**
**Am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Rhagfyr 2024**

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **Incwm a Chymynroddion** | | |
| **Cyfraniadau a Chymynroddion** | | |
| Aelodaeth | 23,913 | 24,525 |
| Casgliadau rhydd a rhoddion | 38,130 | 5,004 |
| Rhent Tŷ Capel | 4,453 | 3,498 |
| Hurio'r Ganolfan | 1,802 | 696 |
| Amrywiol | 10 | 80 |
| Ad-daliad Treth Incwm | 7,792 | 8,518 |
| Llenyddiaeth | 366 | - |
| | 76,466 | 42,321 |
| **Incwm Buddsoddiadau** | | |
| Llog y Cyfrif Cadw | 509 | 702 |
| Llog Cyfrif Tymor Penodol | 805 | - |
| | 1,314 | 702 |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | |
| Costau Staff Rhaglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg) | 10,000 | 10,000 |
| Cronfa Elusennau | 3,523 | 3,310 |
| Cymorth Cristnogol | 1,858 | 1,156 |
| Apêl Talebau Nadolig | - | 280 |
| Apêl Banc Bwyd | 1,830 | 2,100 |
| Cymorth Ieuenctid | 916 | - |
| Palesteina | 534 | - |
| *Live Aid* | 936 | - |
| Brecwast Haf | 490 | - |
| Brecwast Gaeaf | 370 | - |
| | 20,457 | 16,846 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd** | 98,237 | 59,869 |
| **Gwariant** | | |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | |
| Costau Staff | 22,695 | 22,730 |
| Yswiriant | 3,551 | 4,186 |
| Gwres, Golau a Dŵr | 8,489 | 9,968 |
| Pregethwyr | 2,294 | 2,090 |
| Undeb yr Annibynwyr | 857 | 837 |
| Llenyddiaeth | 728 | 483 |
| Gweinyddol | 3,600 | 1,353 |
| Ysgol Sul | 143 | 277 |
| Y Fynwent | 967 | 870 |
| Costau Cynnal a Chadw | 3,966 | 5,790 |
| *Dygwyd Ymlaen* | *47,290* | *48,584* |



*Nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r datganiadau ariannol*

**Datganiad Manwl o'r Gweithgareddau Ariannol - parhad**
**Am y Flwyddyn yn Diweddu Rhagfyr 2024**

| | 31.12.24 | 31.12.23 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **Gweithgareddau Elusennol - parhad** | | |
| *Dygwyd Ymlaen* | *47,290* | *48,584* |
| Rhoddion Ychwanegol | - | 2,725 |
| Dibrisiant | 13,409 | 13,409 |
| Cronfa Elusennau | 1,800 | 3,310 |
| Cymorth Cristnogol | 1,858 | 1,156 |
| Apêl Talebau Nadolig | - | 1,000 |
| Apêl Banc Bwyd | 1,830 | 2,100 |
| Cymorth Ieuenctid | 200 | - |
| AMOS | 540 | - |
| *Live Aid* | 1,250 | - |
| UNHCR | 370 | - |
| | 68,547 | 72,284 |
| **Costau Cymorth** | | |
| **Costau Llywodraethu** | | |
| Ffi Archwilwyr | 1,050 | 1,050 |
| Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd | 69,597 | 73,334 |
| **Incwm Net/(gwariant) cyn enillion a gwariant** | 28,640 | (13,465) |
| **Enillion a Gwariant Real Cydnabyddedig** | | |
| Enillion/(colledion) ar asedau buddsoddi sefydlog | - | 15,000 |
| **Incwm Net** | 28,640 | 1,535 |



*Nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r datganiadau ariannol*

CAPEL Y TABERNACL CYF


England & Wales - Charity number 1122584

# Accounts

CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIAD ARIANNOL

Y flwyddyn hyd at 31ain Rhagfyr 2023



**Capel y Tabernacl, Cyf.**
Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig:
06349041 (Cymru)
Elusen Gofrestredig Rhif: 1122584

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol | Tudalen 2 - 3 |
| Swyddogion y Tabernacl | Tudalen 4 - 5 |
| Adroddiad yr Ymddiriedolwyr | Tudalen 6 - 7 |
| Adroddiad y Cadeirydd | Tudalen 8 - 9 |
| Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol | Tudalen 10 |
| Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol | Tudalen 11 |
| Mantolen | Tudalen 12 |
| Nodiadau sy'n ffurfio rhan o'r Datganiadau Ariannol | Tudalen 13 - 19 |
| Datganiad Manwl o'r Gweithgareddau Ariannol | Tudalen 20 |


| | |
|---|---|
| **Enw cofrestredig y cwmni:** | Capel y Tabernacl, Cyf. |
| **Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig:** | 06349041 (Cymru) |
| **Elusen Gofrestredig:** | 1122584 |
| **Cyfeiriad Cofrestredig:** | 9 Gerddi'r Sofran,<br>Ffordd Cefn yr Hendy,<br>Meisgyn, Pont-y-clun<br>CF72 8SZ |
| **Ysgrifennydd y Cwmni:** | Gwilym Huws |

CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

## YMDDIRIEDOLWYR YR ELUSEN A CHYFARWYDDWYR Y CWMNI

| Enw | Etholwyd |
|---|---|
| Gwion Prys Evans | Tachwedd 2021 |
| Rhian Eyres | Tachwedd 2021 |
| Hefin Gwyn Gruffydd* | Tachwedd 2020 |
| Bethan Haulwen Guilfoyle* | Tachwedd 2020 |
| Helen Middleton | Tachwedd 2020 |
| Iwan Llwyd Rowlands (Cadeirydd) | Tachwedd 2020 |
| Elwyn Hughes | Tachwedd 2022 |
| Aled Illtud Humphreys | Tachwedd 2022 |
| Sian Jones | Tachwedd 2022 |
| Non Gibbon Morris | Tachwedd 2022 |
| Bethan Elen Reynolds | Tachwedd 2022 |
| Alun Wyn Bevan | Tachwedd 2023 |
| Caroline Ruth Rees | Tachwedd 2023 |

Mae disgwyl i draean yr ymddiriedolwyr / cyfarwyddwyr ymddeol yn eu tro bob blwyddyn. Ymddeolodd y rhai gyda * ar bwys eu henwau ym mis Tachwedd 2023.

**Gwefan:** **www.tabernacl.org**

**Cyfreithwyr:** Devonalds, York House, Pontypridd CF37 1JW

**Banc:** Lloyds Bank, Sgwâr y Farchnad, Pontypridd CF37 2TF

**Cyfrifwyr:** Huw Aled Accountants Ltd., Cyfrifwyr Siartredig,
60 Ashbourn Way, Llanishen, Caerdydd, CF14 5EY

# SWYDDOGION Y TABERNACL

**Cadeirydd**
Iwan Llwyd Rowlands

**Ysgrifennydd**
Gwilym Huws

**Trysorydd**
Arwyn Lloyd Jones

**Trefnyddion Oedfaon, Cyhoeddiadau a Phriodasau**
Rhiannon Humphreys
Helen Prosser
Geraint Rees
Heulyn Rees
Lyn West

**Panel Priodasau**
Geraint Rees (Cadeirydd)
*Cofrestru Priodasau:*
Rhys Llewelyn
Helen Middleton
Bethan Guilfoyle
Gwenfil Thomas

**Organyddion a Chyfeilyddion**
Sian Elin Jones gyda chymorth
Bethan Roberts, Rhiannon Humphreys ac Elwyn Hughes

**Tîm Ffrydio'r Oedfaon**
Aled Illtud; Eirian Hughes; Emlyn Davies;
Emlyn P. Jones; Gareth Humphreys; Hefin Gruffydd

**Gweithgor Bugeiliol**
Iwan Rowlands; Eirian Hughes; Helen Middleton; Siân Jones;
Eifiona Hewitt; Bethan Guilfoyle; Lowri Roberts; Carys Davies;
Judith Thomas a Gaynor Evans

**Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol**
John Ll. Thomas *(Cadeirydd)*
Ann D. Davies *(Ysgrifennydd)*
*Cymorth Cristnogol:* John Ll. Thomas

## SWYDDOGION Y TABERNACL – *parhad*

**Yr Ysgol Sul a'r Twmiaid**
*Ysgol Sul:* Caroline Rees a
Manon Humphreys Huws
*Twmiaid:* Eleri Mai Thomas

**Pwyllgor Arloesi a Buddsoddi**
Caroline Rees (Cadeirydd)

**Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus**
*Gwiriwr DBS:* Wendy Reynolds

**Pwyllgor y Meddiannau**
Mike West *(Cadeirydd)*
*Y Fynwent:* Edwyn Evans
*Rhandiroedd:* Emlyn P. Jones

**Merched y Tabernacl**
Judith Thomas
Gaynor Evans

**Gweithgor Ariannol**
Gwilym Huws *(Cadeirydd)*
Arwyn Lloyd Jones *(Trysorydd)*

**Swyddog Ieuenctid a Chymunedol**
Eleri Mai Thomas

**Rheolwyr Safle**
Mike West
Rhian Eyres

# ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr yr elusen at ddiben deddfwriaeth cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2023. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu'r "Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau" a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019 wrth baratoi'r adroddiad blynyddol, ac mae'r datganiadau hyn yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol o 1 Ionawr 2019).

## Strwythur, rheoli a threfn lywodraethol

Mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn gwmni elusennol ac yn gwmni cyfyngedig o dan warant fel y'i diffinnir yn Neddf Cwmnïau 2006. Fe'i sefydlwyd yn unol â'r Memorandwm sy'n datgan manylion a phwerau'r cwmni, a chaiff ei reoli'n unol â'r Erthyglau Cymdeithasiad.

Prif ddiben y cwmni yw hybu'r grefydd Gristnogol yn unol â chredoau'r anghydffurfwyr Protestannaidd a elwir yn Annibynwyr Cymraeg, fel aelodau o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; a hefyd at ddibenion cyffredinol y cyfryw gyrff elusennol neu at ddibenion eraill a fydd yn elusennol yn unig fel y penderfynir o bryd i'w gilydd gan yr Ymddiriedolwyr. Y Bwrdd sydd yn gyfrifol am arolygu holl waith a busnes yr elusen, gyda'r aelodau'n gweithredu fel Ymddiriedolwyr.

## Yr Ymddiriedolwyr

Etholir yr Ymddiriedolwyr gan Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Capel y Tabernacl, Cyf. Ni fyddant yn llai na chwech mewn nifer ond (oni bai y pennir fel arall gan benderfyniad cyffredin), ni fyddant yn amodol ar unrhyw uchafswm. Mae gan y Bwrdd hawl i gyfethol Ymddiriedolwyr ychwanegol. Yn dilyn pob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, bydd yr Ymddiriedolwyr yn penodi un o'u plith i fod yn gadeirydd eu cyfarfodydd. Y nifer angenrheidiol i ffurfio cworwm yw 6 person sydd â'r hawl i bleidleisio ar y mater i'w drafod.

## Rheoli

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn fisol. Mae gwaith yr eglwys yn cael ei drefnu o ddydd i ddydd gan nifer o bwyllgorau a gweithgorau sy'n cwrdd yn rheolaidd.

Bydd pob un o'r pwyllgorau a'r gweithgorau hyn yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn rheolaidd.

Mae'r Erthyglau Cymdeithasiad yn datgan bod pob aelod o'r Elusen yn ymgymryd i gyfrannu at asedau'r elusen swm gofynnol na fydd yn fwy na deg punt os digwydd i'r elusen gael ei dirwyn i ben.

## Cyflogaeth

Mae Capel y Tabernacl Cyf. yn cyflogi un person rhan-amser sef, Swyddog Ieuenctid a Cymunedol, ynghyd â glanhawr.

## Adolygiad Risg

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi adolygu'r risgiau sylweddol hynny lle mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn agored i risg, ac mae systemau wedi eu sefydlu i leihau'r risgiau hynny. Paratowyd adroddiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau'r risgiau, sydd yn cynnwys risgiau megis parhad y capel, materion ariannol, iechyd a diogelwch, amddiffyn plant ac oedolion bregus, data personol yr aelodau, staffio a'r amgylchedd.

## Amcanion a Gweithgareddau

Mae'r elusen yn rhoi sylw dyladwy i arweiniad y Comisiwn Elusennol ar lesâd cyhoeddus. Prif amcan yr elusen yw bod yn eglwys sy'n cynnig cyfle i'r aelodau fod yn dystion i Iesu Grist ym mhentref Efail Isaf, ac yn yr ardal o gwmpas. Golyga hynny ymgymryd â'r holl weithgareddau sy'n arferol i eglwys Gristnogol, ac fe'u rhestrir yn yr Erthyglau Cymdeithasiad. Mae gan y cwmni hefyd hawl i arddel at ddibenion cyffredinol unrhyw gorff elusennol y dymuna'r Ymddiriedolwyr ei gefnogi, neu at ddibenion eraill y bydd yr Ymddiriedolwyr yn eu hystyried yn rhai cyfan gwbl elusennol.

## Llwyddiannau a Pherfformiad

Gweler adroddiad y Cadeirydd. Hefyd ceir manylion pellach yng nghorff yr Adroddiad Blynyddol.

## Adolygiad Ariannol

Adroddir canlyniadau'r elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2023 yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar dudalennau 11–19.

Derbyniwyd cyfanswm incwm o £59,869 (2022: £69,321) a gwariwyd £73,334 (2022: £78,177), ac felly y gwariant net am y flwyddyn oedd £13,465 (2022: gwariant o £8,856). Y prif reswm dros y cynnydd yng ngwariant net yr elusen oedd lleihad yn incwm yr elusen, yn benodol, lleihad mewn casgliadau rhydd a rhoddion ac o incwm o weithgareddau elusennol.

Cyfanswm cronfeydd y cwmni ar 31 Rhagfyr 2023 oedd £795,150 (2022: £793,615), o'r hyn roedd £5,964 (2022: £6,684) wedi ei gadw at ddibenion cyfyngedig a £678,286 (2022: £676,695) wedi ei glymu mewn asedau sefydlog a buddsoddi. O ganlyniad roedd gan yr elusen £110,900 (2022: £110,236) o asedau net cyfredol wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Ni roddwyd unrhyw dâl i'r Ymddiriedolwyr.

## Polisi Arian Wrth Gefn

Penderfynodd yr Ymddiriedolwyr roi ystyriaeth fanwl i anghenion y cwmni elusennol am arian wrth gefn, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau yn y ddogfen "Elusennau a chronfeydd wrth gefn" (CC19).

Yn ein barn ni, mae angen cronfa wrth gefn i'r dibenion canlynol:

1. I gynnal gwaith yr elusen a gweithgareddau'r eglwys mewn cyfnodau lle y gallem fod yn wynebu gostyngiad mewn incwm.

2. I wireddu prosiectau mewn cyfnod byr yn ôl y galw.

3. I gynnal a chadw'r adeiladau fel ein bod yn medru wynebu unrhyw waith atgyweirio angenrheidiol heb i'r gost lesteirio ein prif waith fel eglwys.

## Polisi Buddsoddi

Rheolwyd polisi buddsoddi'r cwmni gan yr Erthyglau Cymdeithasiad, o fewn y canllawiau a osodwyd. Rydym yn adolygu'r sefyllfa hon yn gyson.

## Polisi Cronfeydd

Mae'r cwmni'n ffodus bod cyfran helaeth o'r incwm yn dod trwy gyfraniadau aelodau, a'r rheiny ar y cyfan yn weddol gyson trwy'r flwyddyn, gyda nifer helaeth yn talu trwy archeb banc. Derbynnir tua £22,000 y flwyddyn mewn cyfraniadau gan aelodau. Y polisi yw ceisio sicrhau bod tua 3 mis o wariant arferol yn aros yn y cyfrif cyfredol yn gyson, a'r gweddill yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa fuddsoddi, fel y nodwyd uchod.

## Datblygiadau


Teimla'r Ymddiriedolwyr yn hyderus fod dyfodol ariannol Capel y Tabernacl, Cyf. ar seiliau cadarn iawn.

## Archwilydd Annibynnol

Archwilydd Annibynnol y cyfrifon hyn oedd Huw Aled Accountants Ltd., 60 Ashbourn Way, Llanishen, Caerdydd, CF14 5EY.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar sail canllawiau *Cyfrifo ac Adrodd i Elusennau: Datganiad o Arferion a Argymhellwyd,* sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon ac yn unol â gofynion Safonau Adroddiadau Ariannol y Deymas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (gweithredol o 1 Ionawr 2019).

Cymeradwywyd gan y Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr ar 9 Gorffennaf 2024 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:



Enw:Bethan Elen Reynolds
Ymddiriedolwr

Enw: Siân Jones
Ymddiriedolwr

# ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Annwyl Gyd-aelodau

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch am y fraint o gael fy enwebu'n gadeirydd y Bwrdd am eleni eto. Fel y gallwch ddychmygu, bu'n flwyddyn brysur arall yma yn y Tabernacl ac unwaith eto rydym yn ddiolchgar i'r holl bobl sy'n gweithio'n dawel yn y cefndir yn gwneud eu rhan yn ddiffwdan er mwyn cynnal yr achos mewn ffordd fywiog a modern, a cheisio diwallu anghenion ein haelodau.

Fel Bwrdd, yr hyn sydd wedi cymryd cryn dipyn o'n hamser yw'r anghydfod ynghylch y ffordd dramwyo rhwng Tŷ Capel a'r cymdogion. Rwy'n falch o ddweud fy mod yn dawel hyderus bellach bod y mater yn dirwyn i ben mewn ffordd sy'n ein bodloni. I gyrraedd y pwynt yma rydym wedi cymryd cyngor cyfreithiol, ac fel cadeirydd rwy'n hynod ddiolchgar i Helen Middleton am ei gwaith ymchwil manwl yn olrhain hanes y ffordd dramwyo, ac yn ddiweddar i Caroline Rees sydd wedi dangos gwerth adnabyddiaeth o bobl y pentref wrth i ni drafod y mater gyda'r cymdogion. Er taw'r ddwy yma sydd wedi gwneud y cyfraniadau pwysicaf, mae nifer o'r aelodau eraill hefyd wedi cyfrannu ac rwy'n ddiolchgar i bawb am eu mewnbwn.

Un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu eglwysi ar hyd a lled Cymru yw denu plant a phobl ifanc i'r Ysgol Sul a'r Twmiaid ac i fywyd ehangach y capel. Nid ydym ni yn Efail Isaf yn eithriad i'r her yma, felly er nad yw'r niferoedd yn fawr rydym yn ffodus bod eu cyfraniad i fywyd y capel yn un sylweddol. Roedd y gwasanaeth Nadolig eleni gyda'r gorau i mi ei gofio. Hoffwn dalu diolch diffuant i Eleri Mai am eu hyfforddi ar gyfer y digwyddiad hwn, yn ogystal â digwyddiadau eraill yn ystod y flwyddyn. Er mwyn ceisio cadw'r ifanc yn rhan o fywyd y capel, am y tro cyntaf eleni rydym wedi bod yn treialu cynnal gwasanaethau yn y pnawn. Ymhlith y digwyddiadau a gynhaliwyd eisoes roedd drama am Mari Jones a'i Beibl, a pherfformiad gan Dafydd Iwan. Hoffwn ddiolch i'r pwyllgor gweinidogaethu am y syniad, ac am eu gwaith trefnu.

Fodd bynnag, nid dim ond yn y prynhawn rydym wedi bod yn arbrofi. Cafwyd perfformiad gan Lleuwen Steffan ar Emynau Coll y Werin un bore Sul, fel rhan o gyfres o berfformiadau ganddi ledled Cymru. Roedd yn braf gweld y capel yn llawn y bore hwnnw, ac yn eu plith roedd nifer o wynebau anghyfarwydd. Yn ystod y flwyddyn hefyd cynhaliwyd y bore agored cyntaf (i mi ei gofio) yn y capel. Mae digwyddiadau fel hyn yn rhan o'n hymdrech fel eglwys i ddenu rhagor o bobl i mewn i'r adeilad, gan obeithio dangos iddynt rai o'n gwerthoedd a'n gweithredoedd.

Mewn byd lle mae rhai mudiadau Cristnogol yn tynnu gwawd arnynt eu hunain, rwy'n ymfalchïo fy mod yn perthyn i sefydliad sy'n groesawgar ac yn gweithredu ar negeseuon pwysicaf yr Efengyl. Nid oes unrhyw fan lle mae hyn yn fwy amlwg nag yng ngwaith John Llew a'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol. Maent yn parhau i fynd o nerth i nerth – nid yn unig trwy'r gwaith wythnosol o gasglu a didoli celfi ac offer tŷ i rai sy'n symud i'w cartref eu hunain am y tro cyntaf, ond hefyd y talebau Nadolig, yr ymgyrch wyau Pasg, casgliad Wythnos Cymorth Cristnogol, y casgliad i elusennau lleol ac Apêl y Banc Bwyd, ac yn ddiweddar i Apêl Ffynhonnau Byw yr Annibynwyr. Mae gwaith y gweithgor bellach yn cael ei gydnabod fel esiampl o arfer dda gan eglwysi eraill, ac yn enghraifft wych o aelodau'n rhoi eu crefydd ar waith.

Mewn un gwasanaeth eleni, clywyd sut y gallai capeli ac eglwysi arwain y ffordd ar faterion amgylcheddol. Er taw dim ond megis dechrau yr ydym ar y gwaith yma yn y Tabernacl, mae'r datblygiadau yn yr ardd gymunedol yn fan cychwyn da. Mae'n amlwg bod y gair am yr ardd wedi ymledu, oherwydd yn ddiweddar daeth criw cynhyrchu *Dechrau Canu Dechrau Canmol* draw i ffilmio'r gweithgareddau hyn i'w darlledu yn un o raglenni'r gyfres yn yr hydref. Rwy'n edrych ymlaen at weld sut y gallwn ni fel capel barhau i weithio ar yr agenda amgylcheddol yma.

Nid ar chwarae bach y mae rhoi rhaglen wythnosol o oedfaon at ei gilydd, ac yn ystod y flwyddyn cawsom fendith o amrywiaeth eang o themâu. Diolch i'r criw am drefnu'r arlwy eto eleni, ac mae ein dyled yn fawr hefyd i'r aelodau sy'n paratoi myfyrdod neu lywyddu oedfa. Diolch i'r Parchedigion Aled Edwards a Gethin Rhys hwythau am ddod atom yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Hoffwn hefyd ddiolch i Gwilym am ei waith diwyd yn paratoi *Dolen y Tab* yn wythnosol eleni eto.

Un agwedd o fywyd yr eglwys rydym wedi bod yn parhau i weithio arni eleni yw adolygiad o'r trefniadau gofal bugeiliol, a daeth criw bach at ei gilydd i ystyried y ffordd orau o ailgydio yn y trefniadau hyn. Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r aelodau, rydym wedi mynd ati i greu grŵp o wirfoddolwyr. Yn araf deg rydym yn ffeindio ein traed o ran y gefnogaeth y gallwn ei chynnig i'n cyd-aelodau. Mae croeso bob amser i aelodau newydd ar y pwyllgor yma, a byddem yn croesawu gwirfoddolwyr o blith aelodau iau y gynulleidfa.

# ADRODDIAD Y CADEIRYDD (Parhad)

Un o bwyllgorau prysuraf y Tabernacl yw Pwyllgor y Meddiannau, sydd â rhestr helaeth o gyfrifoldebau i ofalu am raen a diogelwch yr adeiladau, y fynwent, y maes parcio, yr ardd gymunedol a'r rhandiroedd. Maent yn cwrdd yn wythnosol drwy'r flwyddyn i gadw golwg dros y cyfan, gan gyflawni llawer o waith tacluso a thrwsio, a threfnu gyda gweithwyr cymwys i ofalu bod pethau megis y goleuadau argyfwng a'r larymau yn gweithio fel y dylent. Diolch i Mike a Rhian am arwain ar y gwaith hwn. Mae'n dipyn o syndod i ddysgu mewn cyfarfod o'r Bwrdd am yr holl bethau bach sydd angen sylw na fyddwn i erioed wedi meddwl amdanynt!

Dros y blynyddoedd, mae'r eglwys wedi cofleidio'r cyfryngau newydd fel ffordd effeithiol o gyfathrebu gyda'r aelodau. Y cyfrwng mwyaf poblogaidd erbyn hyn yw'r dudalen Facebook, gyda chanran helaeth o'n haelodau'n troi ati'n rheolaidd. Bellach, mae ffrydio oedfaon hefyd yn rhan o ddarpariaeth y capel. Rwy'n hynod o ddiolchgar nid yn unig i'r tîm sy'n gweithio yn Ystafell y Diaconiaid ar y Sul, ond hefyd i'r rhai sydd wedi sicrhau bod y system bellach yn gweithio mewn modd cwbl ddibynadwy. Gydag oedran cyfartalog y gynulleidfa'n cynyddu, mae hwn yn ddull holl bwysig i sicrhau bod y rhai sy'n methu mynychu'r cwrdd yn cael cyfle i gadw mewn cyswllt â bywyd y capel.

Yn ystod y flwyddyn gwelwyd sawl wyneb newydd yn y gynulleidfa, ac yn eu plith rai a arferai fynychu'r capel ar Heol Sardis, Pontypridd. Rwy'n siŵr eich bod i gyd wedi derbyn croeso cynnes ac yn teimlo'n gyfforddus yn ein plith. I'r perwyl arall, trist yw nodi marwolaeth dau o'n haelodau yn ystod y flwyddyn, sef Shelagh Griffiths a Jenkyn Griffiths. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'u teuluoedd a'u ffrindiau yn eu hiraeth.

Bob blwyddyn daw tymor rhai aelodau'r Bwrdd i ben, ac eleni ffarweliwyd â dau, sef Hefin Gruffydd a Bethan Guilfoyle. Diolch iddynt am eu gwasanaeth dros y blynyddoedd, ac am eu cyfraniadau i'r trafodaethau yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Yn yr un modd, rydym yn croesawu Alun Wyn Bevan a Caroline Rees fel aelodau newydd, ac mae'r Bwrdd wedi elwa eisoes o'u cyfraniadau i'r trafodaethau. Hoffwn hefyd ddiolch i Helen Middleton am gytuno i barhau'n aelod am flwyddyn ychwanegol er mwyn gweithio ar ddatrysiad i anghydfod y ffordd dramwyo. Fel cadeirydd, mawr yw fy niolch i'r Bwrdd am eu cefnogaeth a'u doethineb dros y flwyddyn – heb anghofio Gwilym am ei waith diwyd fel ysgrifennydd ac Arwyn am ei ofal manwl dros y cyfrifon.

Hoffwn ddiolch unwaith eto i Aled Wyn Thomas o gwmni Huw Aled Accountants am ei waith trylwyr yn paratoi a chyflwyno archwiliad ariannol annibynnol i'r Ymddiriedolwyr i gwrdd â gofynion statudol Tŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau. Dyma'r bumed flwyddyn iddo gyflawni'r gwaith hwn ar ein rhan, ond yn anffodus mae'n rhaid i'w gyfnod wrth y gwaith ddod i ben gyda'r adroddiad hwn, a gyda thristwch rydym wedi dechrau ar y broses o sicrhau cyfrifydd newydd erbyn y flwyddyn nesaf.

Felly dyma ni ar drothwy'r Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir o fewn tafliad carreg i'r Tabernacl. Mae'n dda gweld bod yr aelodau wedi chwarae rhan flaenllaw yn ymdrechion pentref Efail Isaf, a'r ardaloedd cyfagos, i gynnal yr apêl ariannol leol. Wrth gloi, un peth sy'n amlwg yng ngwaith y capel yw parodrwydd pobl i wneud eu rhan – nid yn unig ym mywyd y capel ei hun, ond hefyd wrth geisio gwella bywyd y gymuned yn lleol ac yn ehangach. Mae'n hawdd estyn llaw a ffocysu ar y rhai agosaf atom, ond gallwn ymfalchïo ein bod yn rhan o eglwys sydd bob amser yn estyn allan ac yn chwilio am gyfleoedd i helpu pobl sydd mewn angen. A thra bod y galw mawr am gymorth yn lleol ac yn ehangach yn parhau, rwy'n hyderus y bydd Capel y Tabernacl, Efail Isaf, yno yn cyfrannu mewn ffordd y byddai'r Efengyl yn awyddus i ni ei wneud.



Iwan Llwyd Rowlands
Cadeirydd
Dyddiad: 9 Gorffennaf 2024

## ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CAPEL Y TABERNACL, CYF.

**Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr Capel y Tabernacl, Cyf. ('y Cwmni')**

Yr wyf yn adrodd i ymddiriedolwyr yr elusen am fy archwiliad o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2023.

**Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr elusen y Cwmni (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith cwmnïau), rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ("Deddf 2006").

Ar ôl bodloni fy hun nad yw'n ofynnol i gynnal archwiliad ariannol o gyfrifon y Cwmni ar gyfer y flwyddyn hon o dan Ran 16 o Ddeddf 2006 a'i fod yn gymwys i gael archwiliad annibynnol, adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon eich elusen fel y'i cwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ("Deddf 2011"). Wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011.

**Datganiad yr Archwilydd Annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i mi gredu:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 386 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu perthnasol o dan adran 396 o Ddeddf Cwmnïau 2006 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol; neu
- nid yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102).

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Aled Wyn Thomas

Aled Wyn Thomas, ACA
Huw Aled Accountants Ltd
60 Ashbourn Way
Llanishen
Caerdydd
CF14 5EY

Dyddiad: 9 Gorffennaf 2024

**DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL**
**(YN CYNNWYS CYFRIF O INCWM A GWARIANT)**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2023**

| | Nodiadau | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | 2023 Cyfanswm Cronfeydd £ | 2022 Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **INCWM A GWADDOLION O:** Rhoddion a Chymynroddion | 3 | 42,321 | - | 42,321 | 45,800 |
| **Gweithgareddau Elusennol** Gweithgareddau crefyddol | 5 | - | 16,846 | 16,846 | 23,480 |
| Incwm o fuddsoddiadau | 4 | 702 | - | 702 | 41 |
| **Cyfanswm** | | 43,023 | 16,846 | 59,869 | 69,321 |
| **GWARIANT AR** | | | | | |
| **Gweithgareddau Elusennol** Gweithgareddau Crefyddol | 6 | 55,768 | 17,566 | 73,334 | 78,177 |
| **(GWARIANT)/INCWM GWEITHREDU NET** | | (12,745) | (720) | (13,465) | (8,856) |
| Enillion heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi | 13 | 15,000 | - | 15,000 | 15,000 |
| **INCWM/(GWARIANT) NET** | | 2,255 | (720) | 1,535 | 6,144 |
| **CYSONI'R CRONFEYDD** | 11 | | | | |
| **Cysoni'r cronfeydd a ddygwyd ymlaen** | | 771,215 | 22,400 | 793,615 | 787,471 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN** | | 773,470 | 21,680 | 795,150 | 793,615 |

*Mae'r nodiadau yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol*

**MANTOLEN**
**AR 31 RHAGFYR 2023**

| | Nodiadau | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Cyfyngedig | 2023 Cyfanswm Cronfeydd | 2022 Cyfanswm Cronfeydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | £ | £ | £ | £ |
| Asedau Diriaethol | **12** | 503,286 | - | 503,286 | 516,695 |
| Asedau Buddsoddi | **13** | 175,000 | - | 175,000 | 160,000 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Dyledwyr | **14** | 2,366 | - | 2,366 | 2,986 |
| Arian yn y banc | | 109,584 | 5,964 | 115,548 | 114,984 |
| | | 111,950 | 5,964 | 117,914 | 117,970 |
| **CREDYDWYR** | | | | | |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | **15** | (1,050) | - | (1,050) | (1,050) |
| **ASEDAU NET CYFREDOL** | | 110,900 | 5,964 | 116,864 | 116,920 |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI DYLEDION CYFREDOL** | | 789,186 | 5,964 | 795,150 | 793,615 |
| **ASEDAU NET** | | 789,186 | 5,964 | 795,150 | 793,615 |
| **CRONFEYDD** | **16** | | | | |
| Cronfeydd Anghyfyngedig | | | | 789,186 | 786,931 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | | | | 5,964 | 6,684 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | | | | 795,150 | 793,615 |

Mae gan y cwmni elusennol hawl i beidio â chynnal awdit, dan Adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006, am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Rhagfyr 2023.

Nid yw'r aelodau wedi gofyn i'r cwmni elusennol gynnal awdit o'u cyfrifon ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2023 yn unol ag Adran 476 Deddf Cwmnïau 2006.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb dros y canlynol:

(a) sicrhau bod y cwmni elusennol yn cadw cyfrifon sy'n cyd-fynd â gofynion Adran 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ac

(b) yn paratoi datganiadau ariannol sy'n adlewyrchu'n gywir a theg sefyllfa'r cwmni elusennol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, gan gynnwys y gwarged neu'r ddyled yn unol â gofynion Adrannau 394 a 395 ac sydd fel arall yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 o safbwynt datganiadau ariannol sy'n berthnasol i gwmnïau elusennol.

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu paratoi i gydymffurfio â gofynion arbennig Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau elusennol bychan.

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 9 Gorffennaf 2024 a'u llofnodi ar eu rhan gan:

Enw: Bethan Elen Reynolds
Ymddiriedolwr

Enw: Siân Jones
Ymddiriedolwr

*Mae'r nodiadau yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol*

**NODIADAU AR DDATGANIADAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2023**

## 1. GWYBODAETH STATUDOL

Mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn gwmni cyfyngedig dan warant wedi ei ymgorffori yng Nghymru o fewn y Deyrnas Gyfunol. Y Swyddfa Gofrestredig yw 9 Gerddi'r Sofran, Meisgyn, Pontyclun, Cymru, CF72 8SZ.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu cyflwyno mewn Sterling (£), sef arian cyfred y cwmni, yn grwn i'r bunt agosaf.

Prif ddiben a natur yr elusen yw hybu gweithgarwch crefyddol.

Caiff y prif bolisïau cyfrifo a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn eu nodi isod. Cafodd y polisïau eu gweithredu'n gyson dros yr holl flynyddoedd a gyflwynir, oni nodir yn wahanol.

## 2. POLISÏAU CYFRIFO

**Sail paratoi'r datganiadau ariannol**
Mae datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sydd yn endid budd cyhoeddus o dan FRS 102, wedi cael eu paratoi yn unol â SORP (FRS 102) *Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice* sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (gweithredol o 1 Ionawr 2019), a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar sail confensiwn hanesyddol.

Mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn cwrdd â'r diffiniad o endid budd cyhoeddus dan FRS 102. Caiff yr asedau a'r dyledion eu cydnabod o'r cychwyn cyntaf ar gost neu werth gweithrediad hanesyddol oni nodir yn wahanol yn y nodyn / nodiadau cyfrifo perthnasol.

**Incwm**
Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol unwaith mae gan yr elusen hawl i'r cronfeydd, mae'r incwm yn debygol o gael ei dderbyn, ac mae modd mesur y swm yn hyderus.

**Incwm cyfraniadau a chymynroddion**
Mae incwm cyfraniadau a chymynroddion yn cynnwys cyfraniadau, rhoddion a grantiau sy'n sicrhau cyllid craidd neu sydd o natur gyffredinol a gydnabyddir lle bo hawl, a thebygolrwydd o'i dderbyn, a lle gellir mesur y swm gyda hyder digonol. Caiff incwm ei gadw'n ôl yn unig pan fydd y rhoddwr yn nodi bod rhaid ei ddefnyddio mewn cyfnod cyfrifo gwahanol, neu lle bo'r rhoddwr wedi gosod amodau y mae'n rhaid i'r elusen gwrdd â hwy cyn sicrhau hawl diamod ar y swm.

**Incwm o weithgareddau elusennol**
Mae'r incwm o weithgareddau elusennol yn cynnwys incwm a dderbyniwyd dan gytundeb neu lle bo'r hawl yn amodol ar berfformiad dan amodau penodol. Caiff yr incwm hwn ei gydnabod gan bod y gwasanaethau perthynol yn cael eu darparu, ac y mae yna hawl, a thebygolrwydd o dderbynneb, a gellir mesur y swm gyda dibynadwyedd digonol. Caiff yr incwm ei ohirio lle bo'r arian yn cael ei dderbyn cyn cyflawni'r gwasanaeth neu'r digwyddiad mae'r arian yn berthnasol iddo.

**Incwm buddsoddiadau**
Caiff incwm o fuddsoddiadau ei gydnabod ar sail ei dderbyn.

Nid yw'n bolisi gan yr elusen i ddangos incwm net o wariant.

**Gwariant**
Caiff ymrwymiadau eu cydnabod fel gwariant cyn gynted ag y bo rheidrwydd cyfreithiol neu ymarferol yn ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw. Mae'n debygol y bydd rhaid trosglwyddo buddiannau economaidd fel setliad a gellir mesur yr ymrwymiad mewn modd dibynadwy. Caiff y gwariant ei gyfrifo ar sail croniadau, ac fe'i dosbarthwyd dan benawdau sy'n corlannu'r holl gostau o fewn y categori. Lle nad oes modd clustnodi costau dan bennawd penodol, maent wedi ei glustnodi o dan weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd a wneir o'r adnoddau.

Mae costau sy'n ymwneud â chodi arian yn cynnwys costau ymgyrchu, hysbysebu a marchnata, a defnyddiau postio uniongyrchol.

Mae gwariant ar weithgarwch elusennol yn cynnwys y costau hynny a delir gan yr elusen wrth gyflawni ei gweithgareddau a'i gwasanaethau er lles ei derbynwyr Mae'n cynnwys nid yn unig y costau y gellir eu clustnodi'n uniongyrchol, ond hefyd y gweithgareddau a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol er mwyn eu cefnogi.

## 2. POLISÏAU CYFRIFO

### Gwariant – parhad

Costau Cynorthwyol yw'r costau hynny nad ydynt, er yn hanfodol i'r elusen gyflawni ei hamcanion, yn creu na chyflawni gweithgarwch elusennol. Mae'r rhain yn cynnwys costau llywodraethiant, sef y costau hynny i gwrdd â gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen, gan gynnwys ffioedd cyfrifo a chostau'n gysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen.

**Asedau Sefydlog diriaethol**
Caiff asedau sefydlog eu cyfalafu ar gost.

Amcangyfrifir y dibrisiad er mwyn lleihau cost yr ased, namyn yr amcangyfrif o werth sy'n weddill, dros oes yr ased fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Eiddo rhyddfraint | - dros 40 mlynedd |
| Offer a chyfarpar | - 25% o'r gost |
| Offer cyfrifiadurol | - 50% o'r gost |

**Asedau Buddsoddi**
Mae asedau buddsoddi yn cael eu cyfalafu ar gost ac yn cael eu hailbrisio i werth teg yr ased ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae unrhyw enillion neu colledion o'r ailbrisio blynyddol yn cael eu cynnwys o dan y pennawd 'Enillion/(colledion) heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi" yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

Nid yw'r asedau buddsoddi yn cael eu dibrisio.

**Trethiant**
Mae'r elusen yn cael ei heithrio o dalu treth gorfforaethol ar ei gweithgarwch elusennol.

**Cyfrifo Cronfeydd**
Gellir defnyddio cronfeydd anghyfyngedig yn unol â'r amcanion elusennol gyda sêl bendith yr ymddiriedolwyr. Dim ond at ddibenion penodol o fewn amcanion yr elusen y gellir defnyddio cronfeydd cyfyngedig. Ceir cyfyngiad pan fo'r rhoddwr yn nodi hynny, neu pan fo'r gronfa wedi ei chreu i godi arian at bwrpasau cyfyngedig penodol.

Ceir esboniad pellach am natur a diben pob cronfa yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

**Offerynnau Ariannol**

Dim ond asedau ac ymrwymiadau ariannol o'r math sy'n gymwys ar gyfer offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu derbyn yn y lle cyntaf ar sail y gwerth ariannol, ac yna eu mesur ar sail eu gwerth setliad.

Caiff benthyciadau rhatach eu derbyn a'u mesur yn y lle cyntaf ar sail eu gwerth ariannol, gyda'r symiau gaiff eu cario drosodd yn cael eu haddasu yn y blynyddoedd canlynol i adlewyrchu taliadau a wnaed ac unrhyw log sy'n deillio ohonynt.

**Dyledwyr**

Cydnabyddir dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill yn ôl y swm y cytunwyd arno ar ôl cynnwys unrhyw ddisgownt masnachol. Caiff blaendaliadau eu prisio ar y swm net o unrhyw ddisgownt sy'n ddyledus a dalwyd ymlaen llaw.

**Credydwyr**

Cydnabyddir credydwyr lle mae gan yr elusen ymrwymiad cyfredol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n debygol o arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti, a bod y swm i gwrdd â'r ymrwymiad yn un y gellir ei fesur neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer, caiff credydwyr eu cydnabod wrth iddynt setlo'r swm ar ôl caniatáu unrhyw ddisgownt masnachol sy'n ddyledus.

**NODIADAU AR DDATGANIADAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2023 – PARHAD**

## 3. RHODDION A CHYMYNRODDION

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Aelodaeth | 24,525 | 22,673 |
| Casgliadau Rhydd a Rhoddion | 5,004 | 10,041 |
| Rhent Tŷ Capel | 3,498 | 4,767 |
| Hurio'r Ganolfan | 696 | 1,155 |
| Amrywiol | 80 | - |
| Ad-daliad Treth Incwm | 8,518 | 7,164 |
| | 42,321 | 45,800 |

## 4. INCWM BUDDSODDIADAU

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Llog cyfrif cadw | 702 | 41 |

## 5. INCWM O WEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| | | 2023 | 2022 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| Rhaglen Arloesi | Gweithgarwch Crefyddol | 10,000 | 10,000 |
| Cronfa Elusennol | Gweithgarwch Crefyddol | 3,310 | 3,861 |
| Cymorth Cristnogol | Gweithgarwch Crefyddol | 1,156 | 1,708 |
| Apêl Talebau Nadolig | Gweithgarwch Crefyddol | 280 | 1,250 |
| Apêl Banc Bwyd | Gweithgarwch Crefyddol | 2,100 | 2,470 |
| Apêl Wcrain | Gweithgarwch Crefyddol | - | 4,191 |
| | | 16,846 | 23,480 |

## 6. COSTAU GWEITHGAREDDAU CREFYDDOL

| | Costau Uniongyrchol (gweler nodyn 8) | Costau Cymorth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Gweithgareddau Crefyddol | 72,284 | 1,050 | 73,334 |

## 7. COSTAU UNIONGYRCHOL GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Costau Staff (anghyfyngedig) | 12,730 | 12,148 |
| Costau Staff (cyfyngedig, Rhaglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr) | 10,000 | 10,000 |
| Yswiriant | 4,186 | 3,937 |
| Gwres, Golau a Dŵr | 9,968 | 10,405 |
| Pregethwyr | 2,090 | 1,900 |
| Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | 837 | 840 |
| Llenyddiaeth | 483 | 535 |
| Gweinyddol | 1,353 | 1,507 |
| Y Ganolfan | - | - |
| Yr Ysgol Sul | 277 | - |
| Y Fynwent | 870 | 1,383 |
| Amrywiol | - | 552 |
| Cronfa Elusennau | 3,310 | 4,245 |
| Cymorth Cristnogol | 1,156 | 2,020 |
| Costau Cynnal a Chadw | 5,790 | 6,886 |
| Talebau Nadolig | 1,000 | - |
| Apêl Banc Bwyd | 2,100 | 2,740 |
| Apêl Wcrain | - | 4,620 |
| Rhoddion ychwanegol | 2,725 | - |
| Dibrisiant | 13,409 | 13,409 |
| | 72,284 | 77,127 |

**NODIADAU AR DDATGANIADAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2023 – PARHAD**

## 8. INCWM NET/(GWARIANT)

Nodir incwm net/(gwariant) ar ôl codi tâl /(credydu):

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ffi archwilio | 1,050 | 1,050 |
| Dibrisiant – asedau'r cwmni | 13,409 | 13,409 |

## 9. CYDNABYDDIAETH A BUDDIANNAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Ni roddwyd unrhyw gydnabyddiaeth na buddiannau eraill i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2023 na'r flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022.

**Costau'r Ymddiriedolwyr**
Ad-dalwyd cyfanswm o £dim (2022: £dim) i'r Ymddiriedolwr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2023 am gostau a dalwyd gan yr Ymddiriedolwr ar ran y Capel. Ni thalwyd unrhyw dreuliau i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2023 na'r flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022.

## 10. COSTAU STAFF

Ar gyfartaledd misol, cyflogwyd y nifer canlynol o staff yn ystod y flwyddyn:

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | 2 | 2 |

Ni dderbyniodd yr un o'r cyflogeion dâl o fwy na £60,000.

## 11. CYMARIAETHAU AR GYFER Y DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL

| | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd cyfyngedig | Cyfanswm cronfeydd |
|---|---|---|---|
| **INCWM A CHYMYNRODDION O:** | £ | £ | £ |
| Rhoddion a Chymynroddion | 45,800 | - | 45,800 |
| **Gwaith Elusennol** | | | |
| Gweithgarwch Crefyddol | - | 23,480 | 23,480 |
| Incwm Buddsoddi | 41 | - | 41 |
| **Cyfanswm** | 45,841 | 23,480 | 69,321 |
| **GWARIANT AR:** | | | |
| **Gweithgarwch Elusennol** | | | |
| Gweithgarwch Crefyddol | 64,552 | 13,625 | 78,177 |
| **Cyfanswm** | 64,552 | 13,625 | 78,177 |
| **INCWM NET/(GWARIANT) GWEITHREDU** | (18,711) | 9,855 | (8,856) |
| Enillion heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi | 15,000 | - | 15,000 |
| **INCWM/(GWARIANT) NET** | (3,711) | 9,855 | 6,144 |
| **CYSONI CRONFEYDD** | | | |
| Cyfanswm a gariwyd ymlaen | 774,926 | 12,545 | 787,471 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN** | 771,215 | 22,400 | 793,615 |

**12. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL**

| | Eiddo Rhyddfraint | Cyfarpar ac Offer | Cyfansym-iau |
|---|---|---|---|
| **COST** | £ | £ | £ |
| Ar 1 Ionawr 2022 a 31 Rhagfyr 2022 | 636,377 | 24,614 | 660,991 |
| **Ar 1 Ionawr 2023 a 31 Rhagfyr 2023** | **636,377** | **24,614** | **660,991** |
| **DIBRISIANT** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2022 | 106,273 | 24,614 | 130,887 |
| Tâl am y flwyddyn | 13,409 | - | 13,409 |
| **Ar 1 Ionawr 2023** | **119,682** | **24,614** | **144,296** |
| Tâl am y flwyddyn | 13,409 | - | 13,409 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2023** | **133,091** | **24,614** | **157,705** |
| **GWERTH NET YN Y LLYFR** | | | |
| **Ar 31 Rhagfyr 2023** | **503,286** | - | **503,286** |
| Ar 31 Rhagfyr 2022 | 516,695 | - | 516,695 |

**13. ASEDAU BUDDSODDI**

| | **Tŷ Capel** |
|---|---|
| | £ |
| Ar 1 Ionawr 2023 | 160,000 |
| Enillion heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi | 15,000 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2023** | **175,000** |

**14. DYLEDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN UN BLWYDDYN**

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Blaendaliadau | 2,366 | 2,986 |

**15. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS O FEWN UN BLWYDDYN**

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ffi archwilio | 1,050 | 1,050 |
| | 1,050 | 1,050 |

**NODIADAU AR DDATGANIADAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2023 – PARHAD**

## 16. SYMUDIADAU O FEWN CRONFEYDD

| | Ar 1/1/23<br>£ | Symudiadau net mewn cronfeydd<br>£ | Ar 31/12/23<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 729,618 | (12,745) | 716,873 |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Cronfa Lesotho | 214 | - | 214 |
| Rhaglen Arloesi | - | - | - |
| Cronfa Elusennol | - | - | - |
| Cymorth Cristnogol | - | - | - |
| Apêl Llifogydd | 2,095 | - | 2,095 |
| Apêl Banc Bwyd | - | - | - |
| Apêl Talebau Nadolig | 3,835 | (720) | 3,115 |
| Apêl Diffibriliwr | 540 | - | 540 |
| | 6,684 | (720) | 5,964 |
| Cronfa Ailbrisio | 57,313 | 15,000 | 72,313 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 793,615 | 1,535 | 795,150 |

Mae'r symudiadau net mewn cronfeydd, a gynhwysir uchod fel a ganlyn:

| | Adnoddau a dderbyniwyd<br>£ | Adnoddau a wariwyd<br>£ | Symudiadau mewn cronfeydd<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 43,023 | (55,768) | (12,745) |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Rhaglen Arloesi | 10,000 | (10,000) | - |
| Cronfa Elusennol | 3,310 | (3,310) | - |
| Cymorth Cristnogol | 1,156 | (1,156) | - |
| Apêl Talebau Nadolig | 280 | (1,000) | (720) |
| Apêl Banc Bwyd | 2,100 | (2,100) | - |
| | 16,846 | (17,566) | (720) |
| Cronfa Ailbrisio | 15,000 | - | 15,000 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 74,869 | (73,334) | 1,535 |

| **Symudiadau cymharol mewn cronfeydd** | Ar 1/1/22<br>£ | Symudiadau net mewn cronfeydd<br>£ | Ar 31/12/22<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 732,613 | (2,995) | 729,618 |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Cronfa Lesotho | 214 | - | 214 |
| Rhaglen Arloesi | 7,066 | (7,066) | - |
| Cronfa Elusennol | - | - | - |
| Cymorth Cristnogol | 20 | (20) | - |
| Apêl Llifogydd | 2,095 | - | 2,095 |
| Apêl Banc Bwyd | 25 | (25) | - |
| Apêl Talebau Nadolig | 2,585 | 1,250 | 3,835 |
| Apêl Diffibriliwr | 540 | - | 540 |
| | 12,545 | (5,861) | 6,684 |
| Cronfa Ailbrisio | 42,313 | 15,000 | 57,313 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 787,471 | 6,144 | 793,615 |

NODIADAU AR DDATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2023 – PARHAD

**16. SYMUDIADAU O FEWN CRONFEYDD – parhad**

Mae'r symudiadau net mewn cronfeydd, a gynhwysir yn yr uchod fel a ganlyn:

| | Adnoddau a dderbyniwyd £ | Adnoddau a wariwyd £ | Symudiadau mewn cronfeydd £ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 45,841 | (48,836) | (2,995) |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Rhaglen Arloesi | 10,000 | (17,066) | (7,066) |
| Cronfa Elusennol | 3,861 | (3,861) | - |
| Cymorth Cristnogol | 1,708 | (1,728) | (20) |
| Apêl Talebau Nadolig | 1,250 | - | 1,250 |
| Apêl Banc Bwyd | 2,470 | (2,495) | (25) |
| Apêl Wcrain | 4,191 | (4,191) | - |
| | 23,480 | (29,341) | (5,861) |
| Cronfa Ailbrisio | 15,000 | - | 15,000 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 84,321 | (78,177) | 6,144 |

**17. DAGELIADAU PARTÏON PERTHYNOL**

Cyfanswm y cyfraniadau a wnaed i'r elusen gan bartïon perthynol yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2023 oedd £4,326 (2022: £3,814).

**18. OFFERYNNAU ARIANNOL**

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Asedau ariannol ar sail cost amorteiddiad | 115,548 | 114,984 |
| Treuliau ariannol ar sail cost amorteiddiad | 1,050 | 1,050 |

*Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol*

**DATGANIAD MANWL O'R GWEITHGAREDDAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2023**

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| **INCWM A CHYMYNRODDION** | £ | £ |
| **Cyfraniadau a Chymynroddion** | | |
| Aelodaeth | 24,525 | 22,673 |
| Casgliadau rhydd a rhoddion | 5,004 | 10,041 |
| Rhent Tŷ Capel | 3,498 | 4,767 |
| Hurio'r Ganolfan | 696 | 1,155 |
| Amrywiol | 80 | - |
| Ad-daliad Treth Incwm | 8,518 | 7,164 |
| | 42,321 | 45,800 |
| **Incwm Buddsoddiadau** | | |
| Llog y Cyfrif Cadw | 702 | 41 |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | |
| Rhaglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | 10,000 | 10,000 |
| Cronfa Elusennau | 3,310 | 3,861 |
| Cymorth Cristnogol | 1,156 | 1,708 |
| Apêl Talebau Nadolig | 280 | 1,250 |
| Apêl Banc Bwyd | 2,100 | 2,470 |
| Apêl Wcrain | - | 4,191 |
| | 16,846 | 23,480 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd** | 59,869 | 69,321 |
| **GWARIANT** | | |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | |
| Cyflogau (anghyfyngedig) | 12,730 | 12,148 |
| Cyflogau (cyfyngedig, Rhaglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg) | 10,000 | 10,000 |
| Yswiriant | 4,186 | 3,937 |
| Gwres, golau a dŵr | 9,968 | 10,405 |
| Pregethwyr | 2,090 | 1,900 |
| Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | 837 | 840 |
| Llenyddiaeth | 483 | 535 |
| Gweinyddol | 1,353 | 1,507 |
| Y Ganolfan | - | - |
| Yr Ysgol Sul | 277 | - |
| Y Fynwent | 870 | 1,383 |
| Amrywiol | - | 552 |
| Cronfa Elusennau | 3,310 | 4,245 |
| Cymorth Cristnogol | 1,156 | 2,020 |
| Costau Cynnal a Chadw | 5,790 | 6,886 |
| Rhoddion ychwanegol | 2,725 | - |
| Talebau Nadolig | 1,000 | - |
| Apêl Wcrain | - | 4,620 |
| Apêl Banc Bwyd | 2,100 | 2,740 |
| Dibrisiant | 13,409 | 13,409 |
| | 72,284 | 77,127 |
| **Costau Cymorth (Costau Llywodraethu)** | | |
| Ffi Archwilwyr | 1,050 | 1,050 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | 73,334 | 78,177 |
| Enillion heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi | 15,000 | 15,000 |
| **Incwm net** | 1,535 | 6,144 |

**CAPEL Y TABERNACL CYF**

England & Wales - Charity number 1122584

# Accounts

CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIAD ARIANNOL

## Y flwyddyn hyd at 31ain Rhagfyr 2022



**Capel y Tabernacl, Cyf.**
Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig:
06349041 (Cymru)
Elusen Gofrestredig Rhif: 1122584

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol | Tudalen 2–3 |
| Swyddogion y Tabernacl | Tudalen 4–5 |
| Adroddiad yr Ymddiriedolwyr | Tudalen 6–7 |
| Adroddiad y Cadeirydd | Tudalen 8–9 |
| Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol | Tudalen 10 |
| Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol | Tudalen 11 |
| Mantolen | Tudalen 12 |
| Nodiadau sy'n ffurfio rhan o'r Datganiadau Ariannol | Tudalen 13–19 |
| Datganiad Manwl o'r Gweithgareddau Ariannol | Tudalen 20 |


| | |
|---|---|
| **Enw cofrestredig y cwmni:** | Capel y Tabernacl, Cyf. |
| **Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig:** | 06349041 (Cymru) |
| **Elusen Gofrestredig:** | 1122584 |
| **Cyfeiriad Cofrestredig:** | 9 Gerddi'r Sofran,<br>Ffordd Cefn yr Hendy,<br>Meisgyn, Pont-y-clun<br>CF72 8SZ |
| **Ysgrifennydd y Cwmni:** | Gwilym Huws |

## YMDDIRIEDOLWYR YR ELUSEN A CHYFARWYDDWYR Y CWMNI

| **Enw** | **Etholwyd** |
|---|---|
| Geraint Wyn Davies* | Tachwedd 2019 |
| Edwyn Evans* | Tachwedd 2018 |
| Gwion Prys Evans | Tachwedd 2021 |
| Rhian Eyres | Tachwedd 2021 |
| Hefin Gwyn Gruffydd | Tachwedd 2020 |
| Bethan Haulwen Guilfoyle | Tachwedd 2020 |
| Sarah Eleri Jones* | Tachwedd 2019 |
| Helen Middleton | Tachwedd 2020 |
| Iwan Llwyd Rowlands | Tachwedd 2020 *(Cadeirydd)* |
| Gwenfil Edwina Thomas* | Tachwedd 2019 |
| Nia Mair Williams* | Tachwedd 2019 |
| Elwyn Hughes | Tachwedd 2022 |
| Aled Illtud Humphreys | Tachwedd 2022 |
| Sian Jones | Tachwedd 2022 |
| Non Gibbon Morris | Tachwedd 2022 |
| Bethan Elen Reynolds | Tachwedd 2022 |

Mae disgwyl i draean yr ymddiriedolwyr / cyfarwyddwyr ymddeol yn eu tro bob blwyddyn. Ymddeolodd y rhai gyda * ar bwys eu henwau ym mis Tachwedd 2022.

**Gwefan:** **www.tabernacl.org**

**Cyfreithwyr:** Devonalds, York House, Pontypridd CF37 1JW

**Banc:** Lloyds Bank, Sgwâr y Farchnad, Pontypridd CF37 2TF

**Cyfrifwyr:** Huw Aled Accountants Ltd., Cyfrifwyr Siartredig,
60 Ashbourn Way, Llanishen, Caerdydd, CF14 5EY

# SWYDDOGION Y TABERNACL

**Cadeirydd**
Iwan Llwyd Rowlands

**Ysgrifennydd**
Gwilym Huws

**Trysorydd**
Arwyn Lloyd Jones

**Y Gweithgor Gweinidogaethu**
Parchedig D. Eirian Rees *(Cadeirydd)*

**Trefnyddion Oedfaon, Cyhoeddiadau a Phriodasau**
Geraint Rees
Rhiannon Humphreys
Helen Prosser
Heulyn Rees
Lyn West

**Panel Priodasau**
Geraint Rees *(Cadeirydd)*
Rhiannon Humphreys
*Cofrestru Priodasau:*
Rhys Llewelyn a
Helen Middleton

**Organyddion a Chyfeilyddion**
Sian Elin Jones gyda chymorth
Bethan Roberts, Elwyn Hughes, Rhiannon Humphreys ac Eleri Huws

**Merched y Tabernacl**
Judith Thomas
Gaynor Evans

## SWYDDOGION Y TABERNACL – *parhad*

**Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol**
John Ll. Thomas *(Cadeirydd)*
Ann D. Davies *(Ysgrifennydd)*
*Cymorth Cristnogol:* John Ll. Thomas

**Yr Ysgol Sul a'r Twmiaid**
*Ysgol Sul:* Caroline Rees a
Manon Humphreys Huws
*Y Twmiaid:* Eleri Mai Thomas

**Pwyllgor Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus**
Gwion Evans *(Cadeirydd)*
*Gwiriwr DBS:* Wendy Reynolds

**Pwyllgor Arloesi a Buddsoddi**
Hefin Gwyn Gruffydd *(Cadeirydd)*

**Pwyllgor y Meddiannau**
Mike West *(Cadeirydd)*
*Y Fynwent:* Edwyn Evans
*Rhandiroedd:* Emlyn P. Jones

**Gweithgor Ariannol**
Gwilym Huws *(Cadeirydd)*
Arwyn Lloyd Jones *(Trysorydd)*

**Swyddog Ieuenctid a Chymunedol**
Eleri Mai Thomas

**Rheolwyr Safle**
Mike West a Rhian Eyres

# ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr yr elusen at ddiben deddfwriaeth cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu'r "Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau" a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015 wrth baratoi'r adroddiad blynyddol, ac mae'r datganiadau hyn yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol o 1 Ionawr 2015).

## Strwythur, rheoli a threfn lywodraethol

Mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn gwmni elusennol ac yn gwmni cyfyngedig o dan warant fel y'i diffinnir yn Neddf Cwmnïau 2006. Fe'i sefydlwyd yn unol â'r Memorandwm sy'n datgan manylion a phwerau'r cwmni, a chaiff ei reoli'n unol â'r Erthyglau Cymdeithasiad.

Prif ddiben y cwmni yw hybu'r grefydd Gristnogol yn unol â chredoau'r anghydffurfwyr Protestannaidd a elwir yn Annibynwyr Cymraeg, fel aelodau o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; a hefyd at ddibenion cyffredinol y cyfryw gyrff elusennol neu at ddibenion eraill a fydd yn elusennol yn unig fel y penderfynir o bryd i'w gilydd gan yr Ymddiriedolwyr. Y Bwrdd sydd yn gyfrifol am arolygu holl waith a busnes yr elusen, gyda'r aelodau'n gweithredu fel Ymddiriedolwyr.

## Yr Ymddiriedolwyr

Etholir yr Ymddiriedolwyr gan Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Capel y Tabernacl, Cyf. Ni fyddant yn llai na chwech mewn nifer ond (oni bai y pennir fel arall gan benderfyniad cyffredin), ni fyddant yn amodol ar unrhyw uchafswm. Mae gan y Bwrdd hawl i gyfethol Ymddiriedolwyr ychwanegol. Yn dilyn pob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, bydd yr Ymddiriedolwyr yn penodi un o'u plith i fod yn gadeirydd eu cyfarfodydd. Y nifer angenrheidiol i ffurfio cworwm yw 6 person sydd â'r hawl i bleidleisio ar y mater i'w drafod.

## Rheoli

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn fisol. Mae gwaith yr eglwys yn cael ei drefnu o ddydd i ddydd gan nifer o bwyllgorau a gweithgorau sy'n cwrdd yn rheolaidd.

Bydd pob un o'r pwyllgorau a'r gweithgorau hyn yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn rheolaidd.

Mae'r Erthyglau Cymdeithasiad yn datgan bod pob aelod o'r Elusen yn ymgymryd i gyfrannu at asedau'r elusen swm gofynnol na fydd yn fwy na deg punt os digwydd i'r elusen gael ei dirwyn i ben.

## Cyflogaeth

Mae Capel y Tabernacl Cyf. yn cyflogi un person rhan-amser, sef Swyddog Ieuenctid a Chymunedol, ynghyd â glanhäwr.

## Adolygiad Risg

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi adolygu'r risgiau sylweddol hynny lle mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn agored i risg, ac mae systemau wedi eu sefydlu i leihau'r risgiau hynny. Paratowyd adroddiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau'r risgiau, sydd yn cynnwys risgiau megis parhad y capel, materion ariannol, iechyd a diogelwch, amddiffyn plant ac oedolion bregus, data personol yr aelodau, staffio a'r amgylchedd.

## Amcanion a Gweithgareddau

Mae'r elusen yn rhoi sylw dyladwy i arweiniad y Comisiwn Elusennol ar lesâd cyhoeddus. Prif amcan yr elusen yw bod yn eglwys sy'n cynnig cyfle i'r aelodau fod yn dystion i Iesu Grist ym mhentref Efail Isaf, ac yn yr ardal o gwmpas. Golyga hynny ymgymryd â'r holl weithgareddau sy'n arferol i eglwys Gristnogol, ac fe'u rhestrir yn yr Erthyglau Cymdeithasiad. Mae gan y cwmni hefyd hawl i arddel at ddibenion cyffredinol unrhyw gorff elusennol y dymuna'r Ymddiriedolwyr ei gefnogi, neu at ddibenion eraill y bydd yr Ymddiriedolwyr yn eu hystyried yn rhai cyfan gwbl elusennol.

## Llwyddiannau a Pherfformiad

Gweler adroddiad y Cadeirydd. Hefyd ceir manylion pellach yng nghorff yr Adroddiad Blynyddol.

## Adolygiad Ariannol

Adroddir canlyniadau'r elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022 yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar dudalennau 11–19.

Derbyniwyd cyfanswm incwm o £69,321 (2021: £55,328) a gwariwyd £78,177 (2021: £48,125), ac felly y *gwariant net* am y flwyddyn oedd £8,856 (2021: incwm o £7,203). Y prif reswm dros y cynnydd yng ngwariant yr elusen oedd y cyflogau a dalwyd i'r Swyddog Ieuenctid o dan Rhaglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, cynnydd yng nghostau gwres, golau a dŵr a chynnydd yng nghostau cynnal a chadw yr adeiladau.

Cyfanswm cronfeydd y cwmni ar 31 Rhagfyr 2022 oedd £793,615, o'r hyn roedd £6,684 wedi ei gadw at ddibenion cyfyngedig a £676,695 wedi ei glymu mewn asedau sefydlog a buddsoddi. O ganlyniad roedd gan yr elusen £110,236 o asedau net cyfredol wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn (2021: £99,822). Ni roddwyd unrhyw dâl i'r Ymddiriedolwyr.

## Polisi Arian Wrth Gefn

Penderfynodd yr Ymddiriedolwyr roi ystyriaeth fanwl i anghenion y cwmni elusennol am arian wrth gefn, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau yn y ddogfen "Elusennau a chronfeydd wrth gefn" (CC19).

Yn ein barn ni, mae angen cronfa wrth gefn i'r dibenion canlynol:

1. I gynnal gwaith yr elusen a gweithgareddau'r eglwys mewn cyfnodau lle y gallem fod yn wynebu gostyngiad mewn incwm.

2. I wireddu prosiectau mewn cyfnod byr yn ôl y galw.

3. I gynnal a chadw'r adeiladau fel ein bod yn medru wynebu unrhyw waith atgyweirio angenrheidiol heb i'r gost lesteirio ein prif waith fel eglwys.

## Polisi Buddsoddi

Rheolwyd polisi buddsoddi'r cwmni gan yr Erthyglau Cymdeithasiad, o fewn y canllawiau a osodwyd. Rydym yn adolygu'r sefyllfa hon yn gyson.

## Polisi Cronfeydd

Mae'r cwmni'n ffodus bod cyfran helaeth o'r incwm yn dod trwy gyfraniadau aelodau, a'r rheiny ar y cyfan yn weddol gyson trwy'r flwyddyn, gyda nifer helaeth yn talu trwy archeb banc. Derbynnir tua £22,000 y flwyddyn mewn cyfraniadau gan aelodau. Y polisi yw ceisio sicrhau bod tua 3 mis o wariant arferol yn aros yn y cyfrif cyfredol yn gyson, a'r gweddill yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa fuddsoddi, fel y nodwyd uchod.

## Datblygiadau

Teimla'r Ymddiriedolwyr yn hyderus fod dyfodol ariannol Capel y Tabernacl, Cyf. ar seiliau cadarn iawn.

## Archwilydd Annibynnol

Archwilydd Annibynnol y cyfrifon hyn oedd Huw Aled Accountants Ltd., 60 Ashbourn Way, Llanishen, Caerdydd, CF14 5EY.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar sail canllawiau *Cyfrifo ac Adrodd i Elusennau: Datganiad o Arferion a Argymhellwyd,* sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon ac yn unol â gofynion Safonau Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (gweithredol o 1 Ionawr 2015).

Cymeradwywyd gan y Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr ar 18 Gorffennaf 2023 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:

| | |
|---|---|
| Enw: Rhian Eyres | Enw: Bethan Elen Reynolds |
| Ymddiriedolwr | Ymddiriedolwr |

# ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Annwyl Gyd-aelodau

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch am y fraint o gael fy enwebu'n gadeirydd y Bwrdd am eleni. Er fy mod yn aelod o'r Tabernacl ers sawl blwyddyn bellach, dim ond drwy fod yn aelod o'r Bwrdd rwyf wedi sylweddoli faint o waith sy'n cael ei wneud ar hyd y flwyddyn i gynnal yr achos yma yn Efail Isaf. Mawr yw ein diolch fel eglwys i'r holl bobl sy'n gweithio'n dawel yn y cefndir gan chwarae eu rhan yn ddiffwdan. Er bod effaith COVID yn parhau i gael ei deimlo mewn mannau – ac fel athro rwy'n rhagweld y bydd ei gysgod yn parhau am flynyddoedd eto – o ran ein gwaith yma yn y Tabernacl bellach mae COVID yn teimlo fel rhan o hanes. Ar wahân i ddechrau'r oedfaon am 11 y bore yn hytrach na 10.45, mae llawer o'n gweithdrefnau nawr yn ymdebygu i'r blynyddoedd cyn COVID – gyda gogwydd mwy cyfoes, wrth gwrs, wrth i ni geisio ymateb i newidiadau yn ein haelodaeth ac o fewn y gymdeithas.

Mawr yw ein diolch am gyfraniad Edwyn fel Cadeirydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf; yn ei adroddiad y llynedd soniodd am rai o'r bendithion a gychwynnwyd yn ystod y pandemig, megis y boreau coffi ar ddydd Mawrth ac ymgyrch y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol ar foreau Iau a Sadwrn. Mae'r ddau beth bellach yn elfennau sefydlog o weithgareddau'r Tabernacl ac yn mynd o nerth i nerth. Mae cyfraniad y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol, dan arweiniad John Llew, wedi parhau yr un mor egnïol ag erioed yn ystod y flwyddyn – nid yn unig trwy'r gwaith wythnosol o gasglu a didoli celfi ac offer cegin i rai sy'n symud i'w cartref eu hunain am y tro cyntaf, ond hefyd y talebau Nadolig, yr ymgyrch wyau Pasg, casgliad Wythnos Cymorth Cristnogol, y casgliad i elusennau lleol, Apêl y Banciau Bwyd, ac Apêl Wcrain. Mae gwaith y Gweithgor bellach yn cael ei gydnabod fel esiampl o arfer da gan eglwysi eraill ac yn enghraifft wych o aelodau'r Tabernacl yn rhoi eu crefydd ar waith.

Un o'r heriau mwyaf i wynebu eglwysi hyd a lled Cymru yn y cyfnod ôl-bandemig oedd denu plant a phobl ifanc yn ôl i'r Ysgol Sul. Braf felly yw adrodd bod Ysgol Sul y Tabernacl wedi cryfhau ymhellach dros y flwyddyn, ac mae'n hyfryd gweld y plant yn mynychu'r oedfaon ar y Sul ac yn cyfrannu atynt unwaith yn rhagor. I lawer, gan gynnwys fi, eu perfformiad Nadoligaidd yw uchafbwynt y flwyddyn. Mae ein diolch i'r rhieni a'r rhai sy'n gofalu am yr Ysgol Sul. Diolch hefyd i Eleri Mai am y profiadau niferus mae'r Twmiaid a'r Twmiaid Bach yn eu derbyn, a chyflwynir gwerthoedd yr Efengyl i'r bobl ifanc mewn gwisg gwbl gyfoes. Ac wrth gwrs rhaid llongyfarch y Twmiaid ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddar wrth greu fideo. Ni fyddai'r gwaith gyda'r bobl ifanc yn bosib oni bai am gefnogaeth ariannol Undeb yr Annibynwyr a'i Raglen Arloesi a Buddsoddi. Mae'n dda deall bod Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn ystyried ein defnydd o'r arian fel esiampl o arfer da. Llongyfarchiadau i Eleri Mai am ei chyfraniad ardderchog unwaith yn rhagor eleni i waith yr eglwys.

Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd 12 o aelodau newydd i'r eglwys. Maent i gyd eisoes yn wynebau cyfarwydd i ni yn y capel, ond mae'n hyfryd eu croesawu fel aelodau llawn. Rwy'n siŵr y byddwch yn gysurus yn ein plith ac yn derbyn bendith o fod yn rhan o gymuned yr eglwys. Tristwch, ar y llaw arall, yw cofnodi marwolaeth dwy o'n haelodau anwylaf yn ystod y flwyddyn, sef Mrs Margaret Penny Jones a Mrs Sheila Jones. Estynnwn ein cydymdeimlad didwyll gyda'u teuluoedd yn eu hiraeth.

Nid ar chwarae bach y mae trefnu rhaglen wythnosol o oedfaon, ac yn ystod y flwyddyn rydym wedi derbyn bendith o'r amrywiaeth eang o themâu. Bellach mae gennym dîm newydd yn gyfrifol am lenwi'r Suliau, sef Rhiannon Humphreys, Lyn West, Helen Prosser, Heulyn a Geraint Rees – diolch iddynt am eu gwaith a hefyd i'r aelodau sydd wedi bod yn barod i gyfrannu i'r oedfaon drwy lywyddu, cyflwyno myfyrdod a chyfeilio. Yn yr un modd, diolchwn i'r Parchedigion Aled Edwards a Gethin Rhys hwythau am barhau i gyfrannu'n rheolaidd unwaith eto eleni. Bellach hefyd mae derbyn *Dolen y Tab* yn rhan annatod o wythnos llawer o'n haelodau, a hoffwn ddiolch i Gwilym am ei waith diwyd yn ei baratoi'n wythnosol.

Un agwedd o fywyd yr eglwys rydym wedi bod yn ei drafod eleni yw'r adolygiad o'r trefniadau gofal bugeiliol. Ffurfiwyd criw bychan gan y Bwrdd er mwyn ystyried y ffordd orau i ailgydio yn y trefniadau hyn. Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r aelodau rydym wedi sefydlu Gweithgor, ac o fis Medi ymlaen byddwn yn mynd ati i gwrdd er mwyn clustnodi'r dyletswyddau a byddwn yn adrodd yn ôl i'r gynulleidfa yn yr hydref. Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r Gweithgor hwn, a byddem yn estyn croeso arbennig i unrhyw wirfoddolwyr o blith aelodau iau y gynulleidfa.

# ADRODDIAD Y CADEIRYDD – *parhad*

Un o bwyllgorau prysuraf y Tabernacl yw Pwyllgor y Meddiannau, sydd â rhestr helaeth o gyfrifoldebau i ofalu am gyflwr a diogelwch yr adeiladau, y fynwent, y maes parcio, yr ardd gymunedol a'r rhandiroedd. Maent yn cwrdd yn wythnosol drwy'r flwyddyn i gadw golwg dros y cyfan, gan gyflawni gwaith tacluso a thrwsio, ynghyd â threfnu gyda gweithwyr cymwys i ofalu bod pethau megis y goleuadau argyfwng a'r larymau diogelwch yn gweithio fel y dylent. Croesawyd un aelod ychwanegol i'r Pwyllgor eleni, sef Rhian Eyres, sydd bellach yn cydweithio gyda Mike West fel un o ddau Reolwr Safle. Wrth i mi lunio'r adroddiad hwn, braf oedd clywed bod gwaith ardderchog Pwyllgor y Meddiannau wedi cael cydnabyddiaeth haeddiannol iawn wrth iddynt dderbyn Gwobr Gymunedol y Faner Werdd am greu llecyn gwyrdd sydd o fendith mawr i'r gymuned yn Efail Isaf a'r cyffiniau.

Dros y blynyddoedd mae'r eglwys wedi cofleidio'r cyfryngau newydd fel ffordd effeithiol o gyfathrebu gyda'r aelodau. Y cyfrwng mwyaf poblogaidd erbyn hyn yw'r dudalen Facebook, gyda chanran helaeth o'n haelodau'n troi ati'n rheolaidd. Yn sgil y datblygiad hwn penderfynwyd yn ystod y flwyddyn i beidio â diweddaru cynnwys gwefan y Tabernacl gan nad oedd unrhyw un wedi dangos parodrwydd i olygu'r cynnwys yn rheolaidd. Emlyn Davies fu'n ysgwyddo'r gwaith hwn am dros ugain mlynedd, ac mae'n briodol ein bod yn diolch yn ddiffuant iddo am ei holl waith. Serch hynny, mae'r wefan yn parhau'n adnodd gwerthfawr oherwydd y cynnwys hanesyddol a geir ynddi.

Un o'r datblygiadau mwyaf cyffrous eleni oedd sefydlu gwasanaeth ffrydio'r oedfaon yn fyw ar dudalen Facebook yr eglwys. Bu'n rhaid dangos cryn amynedd i oresgyn sawl her wrth geisio priodi'r hen system a'r newydd, ond erbyn hyn mae'r cyfan yn gweithio'n ardderchog. Rydym yn hynod o ddiolchgar nid yn unig i'r tîm sy'n brysur yn rheoli'r cyfan o Ystafell y Diaconiaid ar foreau Sul, ond hefyd i'r rhai a gynigiodd eu harbenigedd a'u hamser yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y system bellach yn ddibynadwy fel bod y rhai sy'n methu mynychu'r cwrdd yn derbyn bendith o'i ddilyn yn rhithiol. Rydym yn ddiolchgar i Ymddiriedolaeth Pantyfedwen ac i Gyfundeb Dwyrain Morgannwg am eu cefnogaeth ariannol i'r datblygiad.

Bob blwyddyn mae tymor rhai o aelodau'r Bwrdd yn dod i ben, ac eleni ffarweliwyd â phum aelod, sef Edwyn Evans, Geraint Wyn Davies, Eleri Jones, Gwenfil Thomas a Nia Williams. Diolch i'r pump am eu gwasanaeth – a diolch arbennig i Edwyn am fod yn Gadeirydd hynod effeithiol dros ddwy flynedd. Yn yr un modd, rydym yn croesawu pump o aelodau newydd, sef Siân Jones, Non Morris, Bethan Reynolds, Aled Humphreys ac Elwyn Hughes. Mae'r Bwrdd eisoes wedi elwa o'u cyfraniadau i drafodaethau ar nifer o faterion yn ein cyfarfodydd. Fel Cadeirydd, hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Bwrdd am eu cefnogaeth a'u doethineb yn ystod y flwyddyn – heb anghofio am gyfraniadau Arwyn, ein Trysorydd, sy'n gofalu mor gydwybodol am holl agweddau ariannol yr achos, a Gwilym fel yr Ysgrifennydd. Yn yr un modd mae gennym le unwaith yn rhagor i ddiolch i Aled Wyn Thomas o gwmni Huw Aled Accountants Cyf., Llanishen, Caerdydd am ei waith manwl wrth baratoi'r adroddiad ariannol.

Wrth gloi, un peth sy'n gwbl amlwg yng ngwaith yr eglwys yw parodrwydd y gynulleidfa i wneud eu rhan. 'Mewn undod mae nerth.' Yn ddieithriad mae pobl sy'n ymweld, neu yn newydd i'r capel, yn synnu o weld pa mor dda mae pawb yn cydweithio er mwyn sicrhau ei fod yn fan croesawgar ac yn dangos y gwerthoedd Cristnogol gorau o fewn ein cymdeithas leol a thu hwnt. Mewn oes lle mae rhai pobl yn camddefnyddio crefydd, rwy'n falch o fod yn aelod o eglwys lle mae helpu pobl eraill yn gonglfaen i'n ffydd.



Iwan Llwyd Rowlands
Cadeirydd
Dyddiad: 18 Gorffennaf 2023

## ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CAPEL Y TABERNACL, CYF.

**Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr Capel y Tabernacl, Cyf. ('y Cwmni')**

Yr wyf yn adrodd i ymddiriedolwyr yr elusen am fy archwiliad o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022.

**Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr y Cwmni (a hefyd y cyfarwyddwyr at ddibenion deddfwriaeth cwmnïau) chi'n sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ('Deddf 2006').

Wedi bodloni fy hun nad oes angen i gyfrifon y Cwmni dderbyn awdit o dan Rhan 16 Deddf 2006, a'i bod yn gymwys ar gyfer archwiliad annibynnol, gallaf adrodd ar sail fy archwiliad o gyfrifon yr elusen o dan Adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ('Deddf 2011'). Wrth gynnal fy archwiliad rwyf wedi dilyn Cyfarwyddiadau y Comisiwn Elusennau o dan Adran 145(5) (b) o Ddeddf 2011).

**Datganiad yr Archwilydd Annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad, a gallaf gadarnhau nad oes unrhyw fater wedi dod i'm sylw mewn cysylltiad â'm harchwiliad sy'n peri i mi gredu:

1. nad yw'r cofnodion cyllido wedi eu cadw mewn perthynas â'r Cwmni yn unol â gofynion Adran 386 Deddf 2006; *neu*
2. nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hyn;
   *neu*
3. nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion Adran 396 Deddf 2006 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn cyflwyno darlun cywir a theg nad yw'n rhan o'r materion gaiff eu hystyried fel rhan o archwiliad annibynnol;
   *neu*
4. nad yw'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â methodoleg ac egwyddorion y Datganiad o Ymarfer a Argymhellwyd (*Statement of Recommended Practice*) a ddefnyddir i gyfrifo ac adrodd gan elusennau sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon yn ôl gofynion Safon Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Nid oes gennyf unrhyw gonsýrn ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion mewn cysylltiad â'r archwiliad y dylid tynnu sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn dod i ddealltwriaeth lawn o'r cyfrifon.

Aled Wyn Thomas

Aled Wyn Thomas, ACA
Huw Aled Accountants Ltd
60 Ashbourn Way
Llanishen
Caerdydd
CF14 5EY

Dyddiad: 18 Gorffennaf 2023

**DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL
(YN CYNNWYS CYFRIF O INCWM A GWARIANT)
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2022**

| | Nodiadau | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | 2022 Cyfanswm Cronfeydd £ | 2021 Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **INCWM A GWADDOLION O:** | | | | | |
| Rhoddion a Chymynroddion | **4** | 45,800 | - | 45,800 | 36,326 |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | | | | |
| Gweithgareddau crefyddol | **6** | - | 23,480 | 23,480 | 18,995 |
| Incwm o fuddsoddiadau | **5** | 41 | - | 41 | 7 |
| **Cyfanswm** | | 45,841 | 23,480 | 69,321 | 55,328 |
| **GWARIANT AR** | | | | | |
| **Gweithgareddau Elusennol** | **7** | | | | |
| Gweithgareddau Crefyddol | | 64,552 | 13,625 | 78,177 | 48,125 |
| **(GWARIANT)/INCWM GWEITHREDU NET** | | (18,711) | 9,855 | (8,856) | 7,203 |
| Enillion heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi | **14** | 15,000 | - | 15,000 | 10,000 |
| **INCWM/(GWARIANT) NET** | | (3,711) | 9,855 | 6,144 | 17,203 |
| **CYSONI'R CRONFEYDD** | **12** | | | | |
| **Cysoni'r cronfeydd a ddygwyd ymlaen** | | 774,926 | 12,545 | 787,471 | 770,268 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN** | | 771,215 | 22,400 | 793,615 | 787,471 |

*Mae'r nodiadau yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol*

**MANTOLEN**
**AR 31 RHAGFYR 2022**

| | Nodiadau | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Cyfyngedig | 2022 Cyfanswm Cronfeydd | 2021 Cyfanswm Cronfeydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | £ | £ | £ | £ |
| Asedau Diriaethol | **13** | 516,695 | - | 516,695 | 530,104 |
| Asedau Buddsoddi | **14** | 160,000 | - | 160,000 | 145,000 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Dyledwyr | **15** | 2,986 | - | 2,986 | 2,609 |
| Arian yn y banc | | 108,300 | 6,684 | 114,984 | 110,808 |
| | | 111,286 | 6,684 | 117,970 | 113,417 |
| **CREDYDWYR** | | | | | |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | **16** | (1,050) | - | (1,050) | (1,050) |
| **ASEDAU NET CYFREDOL** | | 110,236 | 6,684 | 116,920 | 112,367 |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI DYLEDION CYFREDOL** | | 786,931 | 6,684 | 793,615 | 787,471 |
| **ASEDAU NET** | | 786,931 | 6,684 | 793,615 | 787,471 |
| **CRONFEYDD** | **18** | | | | |
| Cronfeydd Anghyfyngedig | | | | 786,931 | 774,926 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | | | | 6,684 | 12,545 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | | | | 793,615 | 787,471 |

Mae gan y cwmni elusennol hawl i beidio â chynnal awdit, dan Adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006, am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Rhagfyr 2022.

Nid yw'r aelodau wedi gofyn i'r cwmni elusennol gynnal awdit o'u cyfrifon ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022 yn unol ag Adran 476 Deddf Cwmnïau 2006.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb dros y canlynol:

(a) sicrhau bod y cwmni elusennol yn cadw cyfrifon sy'n cyd-fynd â gofynion Adran 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ac

(b) yn paratoi datganiadau ariannol sy'n adlewyrchu'n gywir a theg sefyllfa'r cwmni elusennol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, gan gynnwys y gwarged neu'r ddyled yn unol â gofynion Adrannau 394 a 395 ac sydd fel arall yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 o safbwynt datganiadau ariannol sy'n berthnasol i gwmnïau elusennol.

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu paratoi i gydymffurfio â gofynion arbennig Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau elusennol bychan.

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 18 Gorffennaf 2023 a'u llofnodi ar eu rhan gan:

MREyres.

Enw: Rhian Eyres
Ymddiriedolwr

BE Reynolds

Enw: Bethan Elen Reynolds
Ymddiriedolwr

*Mae'r nodiadau yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol*

## NODIADAU AR DDATGANIADAU ARIANNOL
## AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2022

### 1. GWYBODAETH STATUDOL

Mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn gwmni cyfyngedig dan warant wedi ei ymgorffori yng Nghymru o fewn y Deyrnas Gyfunol. Y Swyddfa Gofrestredig yw 9 Gerddi'r Sofran, Meisgyn, Pontyclun, Cymru, CF72 8SZ.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu cyflwyno mewn Sterling (£), sef arian cyfred y cwmni, yn grwn i'r bunt agosaf.

Prif ddiben a natur yr elusen yw hybu gweithgarwch crefyddol.

Caiff y prif bolisïau cyfrifo a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn eu nodi isod. Cafodd y polisïau eu gweithredu'n gyson dros yr holl flynyddoedd a gyflwynir, oni nodir yn wahanol.

### 2. POLISÏAU CYFRIFO

**Sail paratoi'r datganiadau ariannol**
Mae datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sydd yn endid budd cyhoeddus o dan FRS 102, wedi cael eu paratoi yn unol â SORP (FRS 102) *Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice* sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (gweithredol o 1 Ionawr 2019), a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar sail confensiwn hanesyddol.

Mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn cwrdd â'r diffiniad o endid budd cyhoeddus dan FRS 102. Caiff yr asedau a'r dyledion eu cydnabod o'r cychwyn cyntaf ar gost neu werth gweithrediad hanesyddol oni nodir yn wahanol yn y nodyn / nodiadau cyfrifo perthnasol.

**Incwm**
Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol unwaith mae gan yr elusen hawl i'r cronfeydd, mae'r incwm yn debygol o gael ei dderbyn, ac mae modd mesur y swm yn hyderus.

**Incwm cyfraniadau a chymynroddion**
Mae incwm cyfraniadau a chymynroddion yn cynnwys cyfraniadau, rhoddion a grantiau sy'n sicrhau cyllid craidd neu sydd o natur gyffredinol a gydnabyddir lle bo hawl, a thebygolrwydd o'i dderbyn, a lle gellir mesur y swm gyda hyder digonol. Caiff incwm ei gadw'n ôl yn unig pan fydd y rhoddwr yn nodi bod rhaid ei ddefnyddio mewn cyfnod cyfrifo gwahanol, neu lle bo'r rhoddwr wedi gosod amodau y mae'n rhaid i'r elusen gwrdd â hwy cyn sicrhau hawl diamod ar y swm.

**Incwm o weithgareddau elusennol**
Mae'r incwm o weithgareddau elusennol yn cynnwys incwm a dderbyniwyd dan gytundeb neu lle bo'r hawl yn amodol ar berfformiad dan amodau penodol. Caiff yr incwm hwn ei gydnabod gan bod y gwasanaethau perthynol yn cael eu darparu, ac y mae yna hawl, a thebygolrwydd o dderbynneb, a gellir mesur y swm gyda dibynadwyedd digonol. Caiff yr incwm ei ohirio lle bo'r arian yn cael ei dderbyn cyn cyflawni'r gwasanaeth neu'r digwyddiad mae'r arian yn berthnasol iddo.

**Incwm buddsoddiadau**
Caiff incwm o fuddsoddiadau ei gydnabod ar sail ei dderbyn.

Nid yw'n bolisi gan yr elusen i ddangos incwm net o wariant.

**Gwariant**
Caiff ymrwymiadau eu cydnabod fel gwariant cyn gynted ag y bo rheidrwydd cyfreithiol neu ymarferol yn ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw. Mae'n debygol y bydd rhaid trosglwyddo buddiannau economaidd fel setliad a gellir mesur yr ymrwymiad mewn modd dibynadwy. Caiff y gwariant ei gyfrifo ar sail croniadau, ac fe'i dosbarthwyd dan benawdau sy'n corlannu'r holl gostau o fewn y categori. Lle nad oes modd clustnodi costau dan bennawd penodol, maent wedi ei glustnodi o dan weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd a wneir o'r adnoddau.

Mae costau sy'n ymwneud â chodi arian yn cynnwys costau ymgyrchu, hysbysebu a marchnata, a defnyddiau postio uniongyrchol.

Mae gwariant ar weithgarwch elusennol yn cynnwys y costau hynny a delir gan yr elusen wrth gyflawni ei gweithgareddau a'i gwasanaethau er lles ei derbynwyr. Mae'n cynnwys nid yn unig y costau y gellir eu clustnodi'n uniongyrchol, ond hefyd y gweithgareddau a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol er mwyn eu cefnogi.

## 2. POLISÏAU CYFRIFO

### Gwariant – parhad

Costau Cynorthwyol yw'r costau hynny nad ydynt, er yn hanfodol i'r elusen gyflawni ei hamcanion, yn creu na chyflawni gweithgarwch elusennol. Mae'r rhain yn cynnwys costau llywodraethiant, sef y costau hynny i gwrdd â gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen, gan gynnwys ffioedd cyfrifo a chostau'n gysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen.

**Asedau Sefydlog diriaethol**
Caiff asedau sefydlog eu cyfalafu ar gost.

Amcangyfrifir y dibrisiad er mwyn lleihau cost yr ased, namyn yr amcangyfrif o werth sy'n weddill, dros oes yr ased fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Eiddo rhyddfraint | - dros 40 mlynedd |
| Offer a chyfarpar | - 25% o'r gost |
| Offer cyfrifiadurol | - 50% o'r gost |

**Asedau Buddsoddi**
Mae asedau buddsoddi yn cael eu cyfalafu ar gost ac yn cael eu hailbrisio i werth teg yr ased ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae unrhyw enillion neu colledion o'r ailbrisio blynyddol yn cael eu cynnwys o dan y pennawd 'Enillion/(colledion) heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi" yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

Nid yw'r asedau buddsoddi yn cael eu dibrisio.

**Trethiant**
Mae'r elusen yn cael ei heithrio o dalu treth gorfforaethol ar ei gweithgarwch elusennol.

**Cyfrifo Cronfeydd**
Gellir defnyddio cronfeydd anghyfyngedig yn unol â'r amcanion elusennol gyda sêl bendith yr ymddiriedolwyr. Dim ond at ddibenion penodol o fewn amcanion yr elusen y gellir defnyddio cronfeydd cyfyngedig. Ceir cyfyngiad pan fo'r rhoddwr yn nodi hynny, neu pan fo'r gronfa wedi ei chreu i godi arian at bwrpasau cyfyngedig penodol.

Ceir esboniad pellach am natur a diben pob cronfa yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

**Offerynnau Ariannol**

Dim ond asedau ac ymrwymiadau ariannol o'r math sy'n gymwys ar gyfer offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu derbyn yn y lle cyntaf ar sail y gwerth ariannol, ac yna eu mesur ar sail eu gwerth setliad.

Caiff benthyciadau rhatach eu derbyn a'u mesur yn y lle cyntaf ar sail eu gwerth ariannol, gyda'r symiau gaiff eu cario drosodd yn cael eu haddasu yn y blynyddoedd canlynol i adlewyrchu taliadau a wnaed ac unrhyw log sy'n deillio ohonynt.

**Dyledwyr**

Cydnabyddir dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill yn ôl y swm y cytunwyd arno ar ôl cynnwys unrhyw ddisgownt masnachol. Caiff blaendaliadau eu prisio ar y swm net o unrhyw ddisgownt sy'n ddyledus a dalwyd ymlaen llaw.

**Credydwyr**

Cydnabyddir credydwyr lle mae gan yr elusen ymrwymiad cyfredol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n debygol o arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti, a bod y swm i gwrdd â'r ymrwymiad yn un y gellir ei fesur neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer, caiff credydwyr eu cydnabod wrth iddynt setlo'r swm ar ôl caniatáu unrhyw ddisgownt masnachol sy'n ddyledus.

## 4. RHODDION A CHYMYNRODDION

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Aelodaeth | 22,673 | 22,269 |
| Casgliadau Rhydd a Rhoddion | 10,041 | 2,272 |
| Rhent Tŷ Capel | 4,767 | 3,813 |
| Hurio'r Ganolfan | 1,155 | - |
| Amrywiol | - | - |
| Ad-daliad Treth Incwm | 7,164 | 7,972 |
| | 45,800 | 36,326 |

## 5. INCWM BUDDSODDIADAU

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Llog cyfrif cadw | 41 | 7 |

## 6. INCWM O WEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| | | 2022 | 2021 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| Rhaglen Arloesi | Gweithgarwch Crefyddol | 10,000 | 10,000 |
| Cronfa Elusennol | Gweithgarwch Crefyddol | 3,861 | 3,430 |
| Cymorth Cristnogol | Gweithgarwch Crefyddol | 1,708 | 1,165 |
| Apêl Talebau Nadolig | Gweithgarwch Crefyddol | 1,250 | 1,390 |
| Apêl Banc Bwyd | Gweithgarwch Crefyddol | 2,470 | 3,010 |
| Apêl Wcrain | Gweithgarwch Crefyddol | 4,191 | - |
| | | 23,480 | 18,995 |

## 7. COSTAU GWEITHGAREDDAU CREFYDDOL

| | Costau Uniongyrchol (gweler nodyn 8) | Costau Cymorth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Gweithgareddau Crefyddol | 77,127 | 1,050 | 78,177 |

## 8. COSTAU UNIONGYRCHOL GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Costau Staff (anghyfyngedig) | 1,390 | 2,306 |
| Costau Staff (cyfyngedig, Rhaglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr) | 20,758 | 2,934 |
| Yswiriant | 3,937 | 3,681 |
| Gwres, Golau a Dŵr | 10,405 | 8,197 |
| Pregethwyr | 1,900 | 1,620 |
| Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | 840 | 800 |
| Llenyddiaeth | 535 | 322 |
| Gweinyddol | 1,507 | 1,656 |
| Y Ganolfan | - | - |
| Y Fynwent | 1,383 | 967 |
| Amrywiol | 552 | 117 |
| Cronfa Elusennau | 4,245 | 3,430 |
| Cymorth Cristnogol | 2,020 | 1,145 |
| Costau Cynnal a Chadw | 6,886 | 1,546 |
| Rhoddion ychwanegol | - | 980 |
| Apêl Banc Bwyd | 2,740 | 3,965 |
| Apêl Wcrain | 4,620 | - |
| Dibrisiant | 13,409 | 13,409 |
| | 77,127 | 47,075 |

**NODIADAU AR DDATGANIADAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2022 – PARHAD**

**9. INCWM NET/(GWARIANT)**

Nodir incwm net/(gwariant) ar ôl codi tâl /(credydu):

| | 2022<br>£ | 2021<br>£ |
|---|---|---|
| Ffi archwilio | 1,050 | 1,050 |
| Dibrisiant – asedau'r cwmni | 13,409 | 13,409 |

**10. CYDNABYDDIAETH A BUDDIANNAU'R YMDDIRIEDOLWYR**

Ni roddwyd unrhyw gydnabyddiaeth na buddiannau eraill i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022 na'r flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2021.

**Costau'r Ymddiriedolwyr**
Ad-dalwyd cyfanswm o £dim (2021: £dim) i'r Ymddiriedolwr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022 am gostau a dalwyd gan yr Ymddiriedolwr ar ran y Capel. Ni thalwyd unrhyw dreuliau i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022 na'r flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2021.

**11. COSTAU STAFF**
Ar gyfartaledd misol, cyflogwyd y nifer canlynol o staff yn ystod y flwyddyn:

| 2022 | 2021 |
|---|---|
| 2 | 2 |

Ni dderbyniodd yr un o'r cyflogeion dâl o fwy na £60,000.

**12. CYMARIAETHAU AR GYFER Y DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL**

| | Cronfeydd anghyfyngedig<br>£ | Cronfeydd cyfyngedig<br>£ | Cyfanswm cronfeydd<br>£ |
|---|---|---|---|
| **INCWM A CHYMYNRODDION O:** | | | |
| Rhoddion a Chymynroddion | 36,326 | - | 36,326 |
| **Gwaith Elusennol** | | | |
| Gweithgarwch Crefyddol | - | 18,995 | 18,995 |
| Incwm Buddsoddi | 7 | - | 7 |
| **Cyfanswm** | 36,333 | 18,995 | 55,328 |
| **GWARIANT AR:** | | | |
| **Gweithgarwch Elusennol** | | | |
| Gweithgarwch Crefyddol | 36,651 | 11,474 | 48,125 |
| **Cyfanswm** | 36,651 | 11,474 | 48,125 |
| **INCWM NET/(GWARIANT) GWEITHREDU** | (318) | 7,521 | 7,203 |
| Enillion heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi | 10,000 | - | 10,000 |
| **INCWM/(GWARIANT) NET** | 9,682 | 7,521 | 17,203 |
| **CYSONI CRONFEYDD** | | | |
| Cyfanswm a gariwyd ymlaen | 765,244 | 5,024 | 770,268 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN** | 774,926 | 12,545 | 787,471 |

*Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol*

## 13. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

| | Eiddo Rhyddfraint | Cyfarpar ac Offer | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|
| **COST** | £ | £ | £ |
| Ar 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2021 | 636,377 | 24,614 | 660,991 |
| **Ar 1 Ionawr 2022 a 31 Rhagfyr 2022** | **636,377** | **24,614** | **660,991** |
| **DIBRISIANT** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2021 | 92,864 | 24,614 | 117,478 |
| Tâl am y flwyddyn | 13,409 | - | 13,409 |
| **Ar 1 Ionawr 2022** | **106,273** | **24,614** | **130,887** |
| Tâl am y flwyddyn | 13,409 | - | 13,409 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2022** | **119,682** | **24,614** | **144,296** |
| **GWERTH NET YN Y LLYFR** | | | |
| **Ar 31 Rhagfyr 2022** | **516,695** | **-** | **516,695** |
| Ar 31 Rhagfyr 2021 | 530,104 | - | 530,104 |

## 14. ASEDAU BUDDSODDI

| | **Tŷ Capel** |
|---|---|
| | £ |
| Ar 1 Ionawr 2022 | 145,000 |
| Enillion heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi | 15,000 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2022** | **160,000** |

## 15. DYLEDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN UN BLWYDDYN

| | 2022 £ | 2021 £ |
|---|---|---|
| Blaendaliadau | 2,986 | 2,609 |

## 16. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS O FEWN UN BLWYDDYN

| | 2022 £ | 2021 £ |
|---|---|---|
| Ffi archwilio | 1,050 | 1,050 |
| | 1,050 | 1,050 |

## 18. SYMUDIADAU O FEWN CRONFEYDD

| | Ar 1/1/22 | Symudiadau net mewn cronfeydd | Ar 31/12/22 |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 732,613 | (2,995) | 729,618 |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Cronfa Lesotho | 214 | - | 214 |
| Rhaglen Arloesi | 7,066 | (7,066) | - |
| Cronfa Elusennol | - | - | - |
| Cymorth Cristnogol | 20 | (20) | - |
| Apêl Llifogydd | 2,095 | - | 2,095 |
| Apêl Banc Bwyd | 25 | (25) | - |
| Apêl Talebau Nadolig | 2,585 | 1,250 | 3,835 |
| Apêl Diffibriliwr | 540 | - | 540 |
| Apêl Wcrain | - | - | - |
| | 12,545 | (5,861) | 6,684 |
| Cronfa Ailbrisio | 42,313 | 15,000 | 57,313 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 787,471 | 6,144 | 793,615 |

Mae'r symudiadau net mewn cronfeydd, a gynhwysir uchod fel a ganlyn:

| | Adnoddau a dderbyniwyd £ | Adnoddau a wariwyd £ | Symudiadau mewn cronfeydd £ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 45,841 | (48,836) | (2,995) |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Rhaglen Arloesi | 10,000 | (17,066) | (7,066) |
| Cronfa Elusennol | 3,861 | (3,861) | - |
| Cymorth Cristnogol | 1,708 | (1,728) | (20) |
| Apêl Talebau Nadolig | 1,250 | - | 1,250 |
| Apêl Banc Bwyd | 2,470 | (2,495) | (25) |
| Apêl Wcrain | 4,191 | (4,191) | - |
| | 23,480 | (29,341) | (5,861) |
| Cronfa Ailbrisio | 15,000 | - | 15,000 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 84,321 | (78,177) | 6,144 |

| **Symudiadau cymharol mewn cronfeydd** | Ar 1/1/21 | Symudiadau net mewn cronfeydd | Ar 31/12/21 |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 732,931 | (318) | 732,613 |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Cronfa Lesotho | 214 | - | 214 |
| Rhaglen Arloesi | - | 7,066 | 7,066 |
| Cronfa Elusennol | - | - | - |
| Cymorth Cristnogol | - | 20 | 20 |
| Apêl Llifogydd | 2,095 | - | 2,095 |
| Apêl Banc Bwyd | 980 | (955) | 25 |
| Apêl Talebau Nadolig | 1,195 | 1,390 | 2,585 |
| Apêl Diffibriliwr | 540 | - | 540 |
| | 5,024 | 7,521 | 12,545 |
| Cronfa Ailbrisio | 32,313 | 10,000 | 42,313 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 770,268 | 17,203 | 787,471 |

**NODIADAU AR DDATGANIADAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2022 – PARHAD**

**18. SYMUDIADAU O FEWN CRONFEYDD – parhad**

Mae'r symudiadau net mewn cronfeydd, a gynhwysir yn yr uchod fel a ganlyn:

| | Adnoddau a dderbyniwyd £ | Adnoddau a wariwyd £ | Symudiadau mewn cronfeydd £ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 36,333 | (36,651) | (318) |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Rhaglen Arloesi | 10,000 | (2,934) | 7,066 |
| Cronfa Elusennol | 3,430 | (3,430) | - |
| Cymorth Cristnogol | 1,165 | (1,145) | 20 |
| Apêl Talebau Nadolig | 1,390 | - | 1,390 |
| Apêl Banc Bwyd | 3,010 | (3,965) | (955) |
| | 18,995 | (11,474) | 7,521 |
| Cronfa Ailbrisio | 10,000 | - | 10,000 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 65,328 | (48,125) | 17,203 |

**19. DATGELIADAU PARTÏON PERTHYNOL**

Cyfanswm y cyfraniadau a wnaed i'r elusen gan bartïon perthynol yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022 oedd £3,814 (2021: £3,454).

**20. OFFERYNNAU ARIANNOL**

| | **2022** | **2021** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Asedau ariannol ar sail cost amorteiddiad | 114,983 | 110,808 |
| Treuliau ariannol ar sail cost amorteiddiad | 1,050 | 1,050 |

**DATGANIAD MANWL O'R GWEITHGAREDDAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2022**

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| **INCWM A CHYMYNRODDION** | £ | £ |
| **Cyfraniadau a Chymynroddion** | | |
| Aelodaeth | 22,673 | 22,269 |
| Casgliadau rhydd a rhoddion | 10,041 | 2,272 |
| Rhent Tŷ Capel | 4,767 | 3,813 |
| Llogi'r Ganolfan | 1,155 | - |
| Amrywiol | - | - |
| Ad-daliad Treth Incwm | 7,164 | 7,972 |
| | 45,800 | 36,326 |
| **Incwm Buddsoddiadau** | | |
| Llog y Cyfrif Cadw | 41 | 7 |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | |
| Rhaglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | 10,000 | 10,000 |
| Cronfa Elusennau | 3,861 | 3,430 |
| Cymorth Cristnogol | 1,708 | 1,165 |
| Apêl Banc Bwyd | 2,470 | 3,010 |
| Apêl Wcrain | 4,191 | - |
| Apêl Talebau Nadolig | 1,250 | 1,390 |
| | 23,480 | 18,995 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd** | 69,321 | 55,328 |
| **GWARIANT** | | |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | |
| Cyflogau (anghyfyngedig) | 1,390 | 2,306 |
| Cyflogau (cyfyngedig, Rhaglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg) | 20,758 | 2,934 |
| Yswiriant | 3,937 | 3,681 |
| Gwres, golau a dŵr | 10,405 | 8,197 |
| Pregethwyr | 1,900 | 1,620 |
| Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | 840 | 800 |
| Llenyddiaeth | 535 | 322 |
| Gweinyddol | 1,507 | 1,656 |
| Y Ganolfan | - | - |
| Y Fynwent | 1,383 | 967 |
| Amrywiol | 552 | 117 |
| Cronfa Elusennau | 4,245 | 3,430 |
| Cymorth Cristnogol | 2,020 | 1,145 |
| Costau Cynnal a Chadw | 6,886 | 1,546 |
| Rhoddion ychwanegol | - | 980 |
| Apêl Wcrain | 4,620 | - |
| Apêl Banc Bwyd | 2,740 | 3,965 |
| Dibrisiant | 13,409 | 13,409 |
| | 77,127 | 47,075 |
| **Costau Cymorth (Costau Llywodraethu)** | | |
| Ffi Archwilwyr | 1,050 | 1,050 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | 78,177 | 48,125 |
| Enillion heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi | 15,000 | 10,000 |
| **Incwm net** | 6,144 | 17,203 |

*Nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r datganiad ariannol statudol*

CAPEL Y TABERNACL CYF


England & Wales - Charity number 1122584

# Accounts

CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIAD ARIANNOL

## Y flwyddyn hyd at 31ain Rhagfyr 2021




**Capel y Tabernacl, Cyf.**
Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig:
06349041 (Cymru)
Elusen Gofrestredig Rhif: 1122584

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol | Tudalen 2–3 |
| Swyddogion y Tabernacl | Tudalen 4–5 |
| Adroddiad yr Ymddiriedolwyr | Tudalen 6–7 |
| Adroddiad y Cadeirydd | Tudalen 8–9 |
| Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol | Tudalen 10 |
| Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol | Tudalen 11 |
| Mantolen | Tudalen 12 |
| Nodiadau sy'n ffurfio rhan o'r Datganiadau Ariannol | Tudalen 13–19 |
| Datganiad Manwl o'r Gweithgareddau Ariannol | Tudalen 20 |


| | |
|---|---|
| **Enw cofrestredig y cwmni:** | Capel y Tabernacl, Cyf. |
| **Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig:** | 06349041 (Cymru) |
| **Elusen Gofrestredig:** | 1122584 |
| **Cyfeiriad Cofrestredig:** | 9 Gerddi'r Sofran,<br>Ffordd Cefn yr Hendy,<br>Meisgyn, Pont-y-clun<br>CF72 8SZ |
| **Ysgrifennydd y Cwmni:** | Gwilym Huws |

## YMDDIRIEDOLWYR YR ELUSEN
## A CHYFARWYDDWYR Y CWMNI

| **Enw** | **Etholwyd** |
|---|---|
| Geraint Wyn Davies | Tachwedd 2019 |
| Edwyn Evans | Tachwedd 2018 *(Cadeirydd)* |
| Gwion Prys Evans | Tachwedd 2021 |
| Rhian Eyres | Tachwedd 2021 |
| Hefin Gwyn Gruffydd | Tachwedd 2020 |
| Bethan Haulwen Guilfoyle | Tachwedd 2020 |
| Sarah Eleri Jones | Tachwedd 2019 |
| Bethan Angharad Lloyd Herbert* | Tachwedd 2018 |
| Helen Middleton | Tachwedd 2020 |
| Iwan Llwyd Rowlands | Tachwedd 2020 |
| Gwenfil Edwina Thomas | Tachwedd 2019 |
| David Michael West* | Tachwedd 2018 |
| Nia Mair Williams | Tachwedd 2019 |

Mae disgwyl i draean yr ymddiriedolwyr / cyfarwyddwyr ymddeol yn eu tro bob blwyddyn. Ymddeolodd y rhai gyda * ar bwys eu henwau ym mis Tachwedd 2021.

**Gwefan:** **www.tabernacl.org**

**Cyfreithwyr:** Devonalds, York House, Pontypridd CF37 1JW

**Banc:** Lloyds Bank, Sgwâr y Farchnad, Pontypridd CF37 2TF

**Cyfrifwyr:** Huw Aled Accountants Ltd., Cyfrifwyr Siartredig,
60 Ashbourn Way, Llanishen, Caerdydd, CF14 5EY

# SWYDDOGION Y TABERNACL

**Cadeirydd**
Edwyn Evans

**Ysgrifennydd**
Gwilym Huws

**Trysorydd**
Arwyn Lloyd Jones

**Y Gweithgor Gweinidogaethu**
Parchedig D. Eirian Rees *(Cadeirydd)*

**Trefnyddion Oedfaon, Cyhoeddiadau a Phriodasau**
Rhiannon Humphreys
Helen Prosser
Heulyn Rees
Lyn West

**Panel Priodasau**
Geraint Rees (Cadeirydd)
*Cofrestru Priodasau:*
Rhys Llewelyn a
Helen Middleton

**Organyddion a Chyfeilyddion**
Sian Elin Jones gyda chymorth
Bethan Roberts, Rhiannon Humphreys ac Eleri Huws

**Golygydd y Wefan**
Emlyn Davies

**Gweithgor Cysylltwyr Ardal**
Geraint Wyn Davies *(Cadeirydd)*
Lowri Roberts *(Ysgrifennydd)*

**Merched y Tabernacl**
Judith Thomas
Gaynor Evans

## SWYDDOGION Y TABERNACL – *parhad*

**Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol**
John Ll. Thomas *(Cadeirydd)*
Ann D. Davies *(Ysgrifennydd)*
*Cymorth Cristnogol:* John Ll. Thomas
*Cronfa Lesotho:* Nia Williams

**Yr Ysgol Sul a'r Twmiaid**
*Ysgol Sul:* Caroline Rees a
Manon Humphreys Huws
*Twmiaid:* Eleri Mai Thomas

**Pwyllgor Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus**
Gwion Evans *(Cadeirydd)*
*Gwirwyr DBS:* Wendy Reynolds a Gwerfyl Morse

**Pwyllgor Arloesi a Buddsoddi**
Hefin Gwyn Gruffydd (Cadeirydd)

**Pwyllgor y Meddiannau**
Mike West *(Cadeirydd)*
*Y Fynwent:* Edwyn Evans
*Rhandiroedd:* Emlyn P. Jones

**Gweithgor Ariannol**
Gwilym Huws *(Cadeirydd)*
Arwyn Lloyd Jones *(Trysorydd)*

**Swyddog Ieuenctid a Chymunedol**
Eleri Mai Thomas

**Rheolwr Safle**
Mike West

# ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr yr elusen at ddiben deddfwriaeth cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2021. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu'r "Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau" a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015 wrth baratoi'r adroddiad blynyddol, ac mae'r datganiadau hyn yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol o 1 Ionawr 2015).

## Strwythur, rheoli a threfn lywodraethol

Mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn gwmni elusennol ac yn gwmni cyfyngedig o dan warant fel y'i diffinnir yn Neddf Cwmnïau 2006. Fe'i sefydlwyd yn unol â'r Memorandwm sy'n datgan manylion a phwerau'r cwmni, a chaiff ei reoli'n unol â'r Erthyglau Cymdeithasiad.

Prif ddiben y cwmni yw hybu'r grefydd Gristnogol yn unol â chredoau'r anghydffurfwyr Protestannaidd a elwir yn Annibynwyr Cymraeg, fel aelodau o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; a hefyd at ddibenion cyffredinol y cyfryw gyrff elusennol neu at ddibenion eraill a fydd yn elusennol yn unig fel y penderfynir o bryd i'w gilydd gan yr Ymddiriedolwyr. Y Bwrdd sydd yn gyfrifol am arolygu holl waith a busnes yr elusen, gyda'r aelodau'n gweithredu fel Ymddiriedolwyr.

## Yr Ymddiriedolwyr

Etholir yr Ymddiriedolwyr gan Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Capel y Tabernacl, Cyf. Ni fyddant yn llai na chwech mewn nifer ond (oni bai y pennir fel arall gan benderfyniad cyffredin), ni fyddant yn amodol ar unrhyw uchafswm. Mae gan y Bwrdd hawl i gyfethol Ymddiriedolwyr ychwanegol. Yn dilyn pob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, bydd yr Ymddiriedolwyr yn penodi un o'u plith i fod yn gadeirydd eu cyfarfodydd. Y nifer angenrheidiol i ffurfio cworwm yw 6 person sydd â'r hawl i bleidleisio ar y mater i'w drafod.

## Rheoli

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn fisol. Mae gwaith yr eglwys yn cael ei drefnu o ddydd i ddydd gan nifer o bwyllgorau a gweithgorau sy'n cwrdd yn rheolaidd.

Bydd pob un o'r pwyllgorau a'r gweithgorau hyn yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn rheolaidd.

Mae'r Erthyglau Cymdeithasiad yn datgan bod pob aelod o'r Elusen yn ymgymryd i gyfrannu at asedau'r elusen swm gofynnol na fydd yn fwy na deg punt os digwydd i'r elusen gael ei dirwyn i ben.

## Cyflogaeth

Mae Capel y Tabernacl Cyf. yn cyflogi un person rhan-amser sef, Swyddog Ieuenctid a Cymunedol, ynghyd â glanhawr.

## Adolygiad Risg

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi adolygu'r risgiau sylweddol hynny lle mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn agored i risg, ac mae systemau wedi eu sefydlu i leihau'r risgiau hynny. Paratowyd adroddiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau'r risgiau, sydd yn cynnwys risgiau megis parhad y capel, materion ariannol, iechyd a diogelwch, amddiffyn plant ac oedolion bregus, data personol yr aelodau, staffio a'r amgylchedd.

## Amcanion a Gweithgareddau

Mae'r elusen yn rhoi sylw dyladwy i arweiniad y Comisiwn Elusennol ar lesâd cyhoeddus. Prif amcan yr elusen yw bod yn eglwys sy'n cynnig cyfle i'r aelodau fod yn dystion i Iesu Grist ym mhentref Efail Isaf, ac yn yr ardal o gwmpas. Golyga hynny ymgymryd â'r holl weithgareddau sy'n arferol i eglwys Gristnogol, ac fe'u rhestrir yn yr Erthyglau Cymdeithasiad. Mae gan y cwmni hefyd hawl i arddel at ddibenion cyffredinol unrhyw gorff elusennol y dymuna'r Ymddiriedolwyr ei gefnogi, neu at ddibenion eraill y bydd yr Ymddiriedolwyr yn eu hystyried yn rhai cyfan gwbl elusennol.

## Llwyddiannau a Pherfformiad

Gweler adroddiad y Cadeirydd. Hefyd ceir manylion pellach yng nghorff yr Adroddiad Blynyddol.

## Adolygiad Ariannol

Adroddir canlyniadau'r elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2021 yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar dudalennau 11–19.

Derbyniwyd cyfanswm incwm o £55,328 (2020: £47,009) a gwariwyd £48,125 (2020: £52,000), ac felly yr incwm net am y flwyddyn oedd £7,203 (2020: gwariant net £4,991). Y prif reswm dros y cynnydd yn incwm yr elusen oedd derbyn nawdd o £10,000 gan Undeb yr Annibynwyr ym mis Medi 2021 fel cyfraniad tuag at dalu cyflog y Swyddog Ieuenctid a Chymunedol am gyfnod o 12 mis, sef hyd at ddiwedd Awst 2022.

Cyfanswm cronfeydd y cwmni ar 31 Rhagfyr 2021 oedd £787,471, o'r hyn roedd £12,545 wedi ei gadw at ddibenion cyfyngedig a £675,104 wedi ei glymu mewn asedau sefydlog. O ganlyniad roedd gan yr elusen £99,822 wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn (2020: £86,731). Ni roddwyd unrhyw dâl i'r Ymddiriedolwyr.

## Polisi Arian Wrth Gefn

Penderfynodd yr Ymddiriedolwyr roi ystyriaeth fanwl i anghenion y cwmni elusennol am arian wrth gefn, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau yn y ddogfen "Elusennau a chronfeydd wrth gefn" (CC19).

Yn ein barn ni, mae angen cronfa wrth gefn i'r dibenion canlynol:

1. I gynnal gwaith yr elusen a gweithgareddau'r eglwys mewn cyfnodau lle y gallem fod yn wynebu gostyngiad mewn incwm.

2. I wireddu prosiectau mewn cyfnod byr yn ôl y galw.

3. I gynnal a chadw'r adeiladau fel ein bod yn medru wynebu unrhyw waith atgyweirio angenrheidiol heb i'r gost lesteirio ein prif waith fel eglwys.

## Polisi Buddsoddi

Rheolwyd polisi buddsoddi'r cwmni gan yr Erthyglau Cymdeithasiad, o fewn y canllawiau a osodwyd. Rydym yn adolygu'r sefyllfa hon yn gyson.

## Polisi Cronfeydd

Mae'r cwmni'n ffodus bod cyfran helaeth o'r incwm yn dod trwy gyfraniadau aelodau, a'r rheiny ar y cyfan yn weddol gyson trwy'r flwyddyn, gyda nifer helaeth yn talu trwy archeb banc. Derbynnir tua £22,000 y flwyddyn mewn cyfraniadau gan aelodau. Y polisi yw ceisio sicrhau bod tua 3 mis o wariant arferol yn aros yn y cyfrif cyfredol yn gyson, a'r gweddill yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa fuddsoddi, fel y nodwyd uchod.

## Datblygiadau

Teimla'r Ymddiriedolwyr yn hyderus fod dyfodol ariannol Capel y Tabernacl, Cyf. ar seiliau cadarn iawn.

## Archwilydd Annibynnol

Archwilydd Annibynnol y cyfrifon hyn oedd Huw Aled Accountants Ltd., 60 Ashbourn Way, Llanishen, Caerdydd, CF14 5EY.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar sail canllawiau *Cyfrifo ac Adrodd i Elusennau: Datganiad o Arferion a Argymhellwyd,* sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon ac yn unol â gofynion Safonau Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (gweithredol o 1 Ionawr 2015).

Cymeradwywyd gan y Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr ar 13 Medi 2022 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:

Bethan Guilfoyle

**Enw: Bethan Guilfoyle**
**Ymddiriedolwr**

Helen Middleton

**Enw: Helen Middleton**
**Ymddiriedolwr**

# ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Annwyl Gyd-aelodau

Braint ac anrhydedd i mi yw cael eich cyfarch unwaith eto wrth gyflwyno'r adroddiad blynyddol i'ch sylw. Braf yw cael dweud ar y cychwyn ein bod wedi goroesi'r aflwydd Cofid-19 sydd wedi llethu llawer o boblogaeth y byd tros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf. Rhaid diolch am wyddonwyr, arbenigwyr ym meysydd iechyd a diogelwch y cyhoedd, a'r gofalwyr iechyd o bob gradd am eu gwaith diflino i wneud y byd mor saff ag sy'n bosib. Nid oes amheuaeth y byddai pethau'n dra gwahanol arnom oni bai am y brechiadau sy'n ein harbed rhag y salwch gwaethaf.

Yn sgil y cyfyngiadau a chyfreithiau gwladol, nid oedd modd i ni ymgynnull i gyd-addoli yn y Tabernacl yn ôl ein harfer am ddeunaw mis rhwng Mawrth 2020 a dechrau Medi 2021. Er hynny, gyda'r defnydd o dechnoleg, a dycnwch rhai o'n haelodau, roedd modd lledaenu'r neges Gristnogol i bawb oedd yn barod i wrando trwy gyfrwng y gwefannau cymdeithasol. Gyda lliniaru ychydig ar y cyfyngiadau, bu modd cychwyn cyd-addoli trwy gadw at gyfyngiadau arbennig. Erbyn hyn mae'r holl gyfyngiadau wedi eu codi, ond fe barhawyd i ledaenu'r gwasanaethau bore Sul yn llwyddiannus dros y gwefannau cymdeithasol. Mae'n rhaid diolch i'r unigolion hynny fu'n weithgar yn sicrhau parhad y gwasanaethau trwy gyfnod mor anodd.

Yn ystod y clo mawr, bu raid rhoi gwaharddiad am gyfnod hir ar weithgareddau'r Ysgol Sul. Her fawr, felly, oedd ailddechrau'r sefydliad pwysig hwn pan godwyd y gwaharddiadau. Yn anffodus, anodd oedd denu'r plant hŷn yn ôl, ond mae'n braf medru adrodd bod cnewyllyn da o blant iau yn mynychu'r Ysgol Sul yn rheolaidd ac mae lle gennym i ddiolch i'w rhieni am hynny. Mae pethau'n edrych yn obeithiol tuag at y dyfodol.

Er y trafferthion oedd yn codi yn sgil Cofid, bu'n gyfnod prysur a bendithiol ym mywyd yr eglwys. Penodwyd Eleri Mai yn Swyddog Ieuenctid a Chymunedol dan nawdd Rhaglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Ers iddi ddechrau yn ei swydd ganol mis Medi, mae'r penodiad wedi dwyn ffrwyth ar ei ganfed. Ailsefydlwyd y Twmiaid, ac o fewn ychydig iawn o amser bu'n rhaid ychwanegu'r Twmiaid Bach i blant 9–11 oed, ac yn fuan wedyn esgorwyd ar Babi Twm. Mae'r apwyntiad wedi bod yn llwyddiant aruthrol ac yn hwb i waith yr Eglwys, gan ddangos ein bod ni'n barod i ymddiried a buddsoddi yn ein pobl ifanc. Ond, er gwaethaf nawdd yr Undeb, rhaid cofio bod cyflogi unrhyw berson yn golygu costau i ninnau hefyd, ac fe hoffwn i bob un ohonom ystyried hynny pan yn cysidro ein cyfraniad ariannol i'r eglwys.

Her ariannol arall na allwn mo'i hosgoi yw'r cynnydd sylweddol ym mhris nwy a thrydan y byddwn fel eglwys yn ei wynebu yn ystod y blynyddoedd nesaf. Dros y misoedd diwethaf mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi dod yn ymwybodol iawn o'r heriau y bydd raid ymgodymu â nhw gyda'r codiadau hyn, ac yn derbyn y bydd angen mabwysiadu mesurau i gadw rheolaeth ar y defnydd o danwydd yn y Capel a'r Ganolfan.

Mae'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol wedi bod yn hynod brysur drwy gydol y flwyddyn. Ar adegau, roedd y capel yn edrych yn debycach i warws na man addoliad wrth i lwythi o gelfi tŷ a danteithion gael eu cyflwyno ar gyfer aelodau anghenus o'n cymdeithas. Mae gennym le i ddiolch am haelioni pobl yr ardal, a hefyd yr unigolion hynny sy'n gweithio'n ddiwyd i ddethol a didoli'r gwahanol roddion ar gyfer eu dosbarthu.

Yn ystod y misoedd diwethaf daeth cwmwl rhyfel tros Wcráin, ac mae effaith y rhyfel yn ymestyn i Gymru mewn mwy nag un cyfeiriad. Gwelwyd chwyddiant mewn costau byw, ond hefyd haelioni mawr wrth i'r eglwys a'r gymuned yn lleol gyfrannu dros £4,000 ers dechrau'r rhyfel ym mis Chwefror eleni i leddfu ychydig ar boen y ffoaduriaid oedd yn dianc am eu bywyd o'r wlad honno. Roedd hyn ar ben haelioni rhyfeddol aelodau a chyfeillion yr eglwys a lwyddodd i godi cyfanswm o £8,959 tuag at yr elusennau hynny oedd yn derbyn ein cefnogaeth yn ystod 2021.

# ADRODDIAD Y CADEIRYDD (parhad)

Bu'r criw bore Iau yn parhau'n weithgar, ac erbyn hyn mae ôl graen ar randiroedd y capel a'r fynwent. Datblygwyd Cwtsh Meddylgarwch rhwng y capel a'r ganolfan, ac mae hwn wedi dod yn lle hyfryd i unigolion a theuluoedd ddod i fyfyrio a chymdeithasu. Erbyn hyn, mae'r fynwent a'r rhandiroedd wedi dod yn adnoddau pwysig o fewn y gymuned, a hyfryd yw gweld yr ymateb cadarnhaol i'r gwaith o wella'r safleoedd. Dros gyfnod y Nadolig roedd tua 50 o dorchau blodau wedi eu gosod yn y fynwent gan gyfeillion er cof am anwyliaid, gan ddangos yn eglur pa mor bwysig yw cadw'r safle'n ddiogel a dymunol.

Un o sgil-effeithiau'r pandemig oedd estyn croeso i aelodau'r Tabernacl a thrigolion y gymuned leol i gymdeithasu yn y Ganolfan pan nad oedd modd cwrdd i addoli yn y capel oherwydd y cyfyngiadau. Bellach, mae'r boreau coffi hyn ar ddydd Mawrth wedi dod yn ran annatod o raglen wythnosol y capel i rai sy'n chwilio am gwmnïaeth. Yn sgil y rhain fe drefnwyd nifer o weithgareddau dyngarol, megis codi arian i gynnal Nyrsys Dementia a thuag at Wythnos Cymorth Cristnogol. Bellach, cynhelir rhyw weithgarwch neu'i gilydd ar safle'r Tabernacl ar o leiaf chwe diwrnod bob wythnos.

Trist yw cofnodi i ni golli un o anwyliaid yr eglwys yn ystod y flwyddyn. Roedd Carol (Williams) yn berson hoffus dros ben ac mae chwithdod mawr ar ei hôl. Mae ein cydymdeimlad â Penri a'r teulu'n ddidwyll iawn yn eu profedigaeth.

Er mai edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf yw prif bwrpas yr adroddiad yma, efallai y gwnewch faddau i mi sôn ychydig am y dyfodol. Rydym eisoes wedi sicrhau nawdd ariannol i ddatblygu systemau technegol y capel fel bod modd darlledu ein gwasanaethau'n fyw dros y rhwydweithiau cymdeithasol. Byddwn felly yn medru taenu neges Iesu Grist i bedwar ban byd, ac mae hynny'n ddatblygiad i'w glodfori.

I derfynu, hoffwn ddiolch i'r unigolion hynny sy'n gweithio mor ddiwyd, naill ai'n unigol neu mewn grwpiau, i sicrhau parhad yr eglwys yn ymarferol ac yn ysbrydol. Nid wyf am enwi'r unigolion hynny oherwydd fe fyddai'r rhestr yn un faith, gyda'r peryg i mi anghofio rhywun. Yn syml, felly, derbyniwch fy niolch am yr holl waith sy'n cael ei gyflawni er lles yr Eglwys yn enw Iesu Grist.

Diolch eto i Aled Wyn Thomas, Huw Aled Accountants, am ei waith trylwyr wrth baratoi'r adroddiad ariannol hwn i'ch sylw.



**Edwyn Evans, Cadeirydd**
**13 Medi 2022**

## ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CAPEL Y TABERNACL, CYF.

**Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr Capel y Tabernacl, Cyf. ('y Cwmni')**

Yr wyf yn adrodd i ymddiriedolwyr yr elusen am fy archwiliad o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2021.

**Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr y Cwmni (a hefyd y cyfarwyddwyr at ddibenion deddfwriaeth cwmnïau) chi'n sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ('Deddf 2006').


Wedi bodloni fy hun nad oes angen i gyfrifon y Cwmni dderbyn awdit o dan Rhan 16 Deddf 2006, a'i bod yn gymwys ar gyfer archwiliad annibynnol, gallaf adrodd ar sail fy archwiliad o gyfrifon yr elusen o dan Adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ('Deddf 2011'). Wrth gynnal fy archwiliad rwyf wedi dilyn Cyfarwyddiadau y Comisiwn Elusennau o dan Adran 145(5) (b) o Ddeddf 2011).

**Datganiad yr Archwilydd Annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad, a gallaf gadarnhau nad oes unrhyw fater wedi dod i'm sylw mewn cysylltiad â'm harchwiliad sy'n peri i mi gredu:

1. nad yw'r cofnodion cyllido wedi eu cadw mewn perthynas â'r Cwmni yn unol â gofynion Adran 386 Deddf 2006; *neu*
2. nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hyn; *neu*
3. nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion Adran 396 Deddf 2006 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn cyflwyno darlun cywir a theg nad yw'n rhan o'r materion gaiff eu hystyried fel rhan o archwiliad annibynnol; *neu*
4. nad yw'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â methodoleg ac egwyddorion y Datganiad o Ymarfer a Argymhellwyd (*Statement of Recommended Practice*) a ddefnyddir i gyfrifo ac adrodd gan elusennau sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon yn ôl gofynion Safon Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Nid oes gennyf unrhyw gonsýrn ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion mewn cysylltiad â'r archwiliad y dylid tynnu sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn dod i ddealltwriaeth llawn o'r cyfrifon.



Aled Wyn Thomas, ACA
Huw Aled Accountants Ltd
60 Ashbourn Way
Llanishen
Caerdydd
CF14 5EY

Dyddiad: 13 Medi 2022

## DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL
## (YN CYNNWYS CYFRIF O INCWM A GWARIANT)
## AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2021

| | Nodiadau | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Cyfyngedig | 2021 Cyfanswm Cronfeydd | 2020 Cyfanswm Cronfeydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ |
| **INCWM A GWADDOLION O:** | | | | | |
| Rhoddion a Chymynroddion | **4** | 36,326 | - | 36,326 | 33,886 |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | | | | |
| Gweithgareddau crefyddol | **6** | - | 18,995 | 18,995 | 13,102 |
| Incwm o fuddsoddiadau | **5** | 7 | - | 7 | 21 |
| **Cyfanswm** | | 36,333 | 18,995 | 55,328 | 47,009 |
| **GWARIANT AR** | | | | | |
| **Gweithgareddau Elusennol** | **7** | | | | |
| Gweithgareddau Crefyddol | | 36,651 | 11,474 | 48,125 | 52,000 |
| **(GWARIANT)/INCWM GWEITHREDU NET** | | (318) | 7,521 | 7,203 | (4,991) |
| Enillion heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi | **14** | 10,000 | - | 10,000 | 10,000 |
| **INCWM/(GWARIANT) NET** | | 9,682 | 7,521 | 17,203 | 5,009 |
| **CYSONI'R CRONFEYDD** | **12** | | | | |
| **Cysoni'r cronfeydd a gariwyd ymlaen** | | 765,244 | 5,024 | 770,268 | 765,259 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN** | | 774,926 | 12,545 | 787,471 | 770,268 |

*Mae'r nodiadau yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol*

**MANTOLEN**
**AR 31 RHAGFYR 2021**

| | Nodiadau | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Cyfyngedig | 2021 Cyfanswm Cronfeydd | 2020 Cyfanswm Cronfeydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | £ | £ | £ | £ |
| Asedau Diriaethol | **13** | 530,104 | - | 530,104 | 543,513 |
| Asedau Buddsoddi | **14** | 145,000 | - | 145,000 | 135,000 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Dyledwyr | **15** | 2,609 | - | 2,609 | 2,494 |
| Arian yn y banc | | 98,263 | 12,545 | 110,808 | 90,311 |
| | | 100,872 | 12,545 | 113,417 | 92,805 |
| **CREDYDWYR** | | | | | |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | **16** | (1,050) | - | (1,050) | (1,050) |
| **ASEDAU NET CYFREDOL** | | 99,822 | 12,545 | 112,367 | 91,755 |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI DYLEDION CYFREDOL** | | 774,926 | 12,545 | 787,471 | 770,268 |
| **ASEDAU NET** | | 774,926 | 12,545 | 787,471 | 770,268 |
| **CRONFEYDD** | **18** | | | | |
| Cronfeydd Anghyfyngedig | | | | 774,926 | 765,244 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | | | | 12,545 | 5,024 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | | | | 787,471 | 770,268 |

Mae gan y cwmni elusennol hawl i beidio â chynnal awdit, dan Adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006, am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Rhagfyr 2021.

Nid yw'r aelodau wedi gofyn i'r cwmni elusennol gynnal awdit o'u cyfrifon ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2021 yn unol ag Adran 476 Deddf Cwmnïau 2006.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb dros y canlynol:

(a) sicrhau bod y cwmni elusennol yn cadw cyfrifon sy'n cyd-fynd â gofynion Adran 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ac

(b) yn paratoi datganiadau ariannol sy'n adlewyrchu'n gywir a theg sefyllfa'r cwmni elusennol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, gan gynnwys y gwarged neu'r ddyled yn unol â gofynion Adrannau 394 a 395 ac sydd fel arall yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 o safbwynt datganiadau ariannol sy'n berthnasol i gwmnïau elusennol.

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu paratoi i gydymffurfio â gofynion arbennig Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau elusennol bychan.

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 13 Medi 2022 a'u llofnodi ar eu rhan gan:

Bethan Guilfoyle | Helen Middleton

Enw:Bethan Guilfoyle
Ymddiriedolwr

Enw: Helen Middleton
Ymddiriedolwr

*Mae'r nodiadau yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol*

**NODIADAU AR DDATGANIADAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2021**

## 1. GWYBODAETH STATUDOL

Mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn gwmni cyfyngedig dan warant wedi ei ymgorffori yng Nghymru o fewn y Deyrnas Gyfunol. Y Swyddfa Gofrestredig yw 9 Gerddi'r Sofran, Meisgyn, Pontyclun, Cymru, CF72 8SZ.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu cyflwyno mewn Sterling (£), sef arian cyfred y cwmni, yn grwn i'r bunt agosaf.

Prif ddiben a natur yr elusen yw hybu gweithgarwch crefyddol.

Caiff y prif bolisïau cyfrifo a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn eu nodi isod. Cafodd y polisïau eu gweithredu'n gyson dros yr holl flynyddoedd a gyflwynir, oni nodir yn wahanol.

## 2. POLISÏAU CYFRIFO

**Sail paratoi'r datganiadau ariannol**
Mae datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sydd yn endid budd cyhoeddus o dan FRS 102, wedi cael eu paratoi yn unol â SORP (FRS 102) *Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice* sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (gweithredol o 1 Ionawr 2019), a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar sail confensiwn hanesyddol.

Mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn cwrdd â'r diffiniad o endid budd cyhoeddus dan FRS 102. Caiff yr asedau a'r dyledion eu cydnabod o'r cychwyn cyntaf ar gost neu werth gweithrediad hanesyddol oni nodir yn wahanol yn y nodyn / nodiadau cyfrifo perthnasol.

**Incwm**
Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol unwaith mae gan yr elusen hawl i'r cronfeydd, mae'r incwm yn debygol o gael ei dderbyn, ac mae modd mesur y swm yn hyderus.

**Incwm cyfraniadau a chymynroddion**
Mae incwm cyfraniadau a chymynroddion yn cynnwys cyfraniadau, rhoddion a grantiau sy'n sicrhau cyllid craidd neu sydd o natur gyffredinol a gydnabyddir lle bo hawl, a thebygolrwydd o'i dderbyn, a lle gellir mesur y swm gyda hyder digonol. Caiff incwm ei gadw'n ôl yn unig pan fydd y rhoddwr yn nodi bod rhaid ei ddefnyddio mewn cyfnod cyfrifo gwahanol, neu lle bo'r rhoddwr wedi gosod amodau y mae'n rhaid i'r elusen gwrdd â hwy cyn sicrhau hawl diamod ar y swm.

**Incwm o weithgareddau elusennol**
Mae'r incwm o weithgareddau elusennol yn cynnwys incwm a dderbyniwyd dan gytundeb neu lle bo'r hawl yn amodol ar berfformiad dan amodau penodol. Caiff yr incwm hwn ei gydnabod gan bod y gwasanaethau perthynol yn cael eu darparu, ac y mae yna hawl, a thebygolrwydd o dderbynneb, a gellir mesur y swm gyda dibynadwyedd digonol. Caiff yr incwm ei ohirio lle bo'r arian yn cael ei dderbyn cyn cyflawni'r gwasanaeth neu'r digwyddiad mae'r arian yn berthnasol iddo.

**Incwm buddsoddiadau**
Caiff incwm o fuddsoddiadau ei gydnabod ar sail ei dderbyn.

Nid yw'n bolisi gan yr elusen i ddangos incwm net o wariant.

**Gwariant**
Caiff ymrwymiadau eu cydnabod fel gwariant cyn gynted ag y bo rheidrwydd cyfreithiol neu ymarferol yn ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw. Mae'n debygol y bydd rhaid trosglwyddo buddiannau economaidd fel setliad a gellir mesur yr ymrwymiad mewn modd dibynadwy. Caiff y gwariant ei gyfrifo ar sail croniadau, ac fe'i dosbarthwyd dan benawdau sy'n corlannu'r holl gostau o fewn y categori. Lle nad oes modd clustnodi costau dan bennawd penodol, maent wedi ei glustnodi o dan weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd a wneir o'r adnoddau.

Mae costau sy'n ymwneud â chodi arian yn cynnwys costau ymgyrchu, hysbysebu a marchnata, a defnyddiau postio uniongyrchol.

Mae gwariant ar weithgarwch elusennol yn cynnwys y costau hynny a delir gan yr elusen wrth gyflawni ei gweithgareddau a'i gwasanaethau er lles ei derbynwyr. Mae'n cynnwys nid yn unig y costau y gellir eu clustnodi'n uniongyrchol, ond hefyd y gweithgareddau a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol er mwyn eu cefnogi.

## 2. POLISÏAU CYFRIFO

### Gwariant – parhad

Costau Cynorthwyol yw'r costau hynny nad ydynt, er yn hanfodol i'r elusen gyflawni ei hamcanion, yn creu na chyflawni gweithgarwch elusennol. Mae'r rhain yn cynnwys costau llywodraethiant, sef y costau hynny i gwrdd â gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen, gan gynnwys ffioedd cyfrifo a chostau'n gysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen.

**Asedau Sefydlog diriaethol**
Caiff asedau sefydlog eu cyfalafu ar gost.

Amcangyfrifir y dibrisiad er mwyn lleihau cost yr ased, namyn yr amcangyfrif o werth sy'n weddill, dros oes yr ased fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Eiddo rhyddfraint | - dros 40 mlynedd |
| Offer a chyfarpar | - 25% o'r gost |
| Offer cyfrifiadurol | - 50% o'r gost |

**Asedau Buddsoddi**
Mae asedau buddsoddi yn cael eu cyfalafu ar gost ac yn cael eu hailbrisio i werth teg yr ased ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae unrhyw enillion neu colledion o'r ailbrisio blynyddol yn cael eu cynnwys o dan y pennawd 'Enillion/(colledion) heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi" yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

Nid yw'r asedau buddsoddi yn cael eu dibrisio.

**Trethiant**
Mae'r elusen yn cael ei heithrio o dalu treth gorfforaethol ar ei gweithgarwch elusennol.

**Cyfrifo Cronfeydd**
Gellir defnyddio cronfeydd anghyfyngedig yn unol â'r amcanion elusennol gyda sêl bendith yr ymddiriedolwyr. Dim ond at ddibenion penodol o fewn amcanion yr elusen y gellir defnyddio cronfeydd cyfyngedig. Ceir cyfyngiad pan fo'r rhoddwr yn nodi hynny, neu pan fo'r gronfa wedi ei chreu i godi arian at bwrpasau cyfyngedig penodol.

Ceir esboniad pellach am natur a diben pob cronfa yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

**Offerynnau Ariannol**

Dim ond asedau ac ymrwymiadau ariannol o'r math sy'n gymwys ar gyfer offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu derbyn yn y lle cyntaf ar sail y gwerth ariannol, ac yna eu mesur ar sail eu gwerth setliad.

Caiff benthyciadau rhatach eu derbyn a'u mesur yn y lle cyntaf ar sail eu gwerth ariannol, gyda'r symiau gaiff eu cario drosodd yn cael eu haddasu yn y blynyddoedd canlynol i adlewyrchu taliadau a wnaed ac unrhyw log sy'n deillio ohonynt.

**Dyledwyr**

Cydnabyddir dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill yn ôl y swm y cytunwyd arno ar ôl cynnwys unrhyw ddisgownt masnachol. Caiff blaendaliadau eu prisio ar y swm net o unrhyw ddisgownt sy'n ddyledus a dalwyd ymlaen llaw.

**Credydwyr**

Cydnabyddir credydwyr lle mae gan yr elusen ymrwymiad cyfredol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n debygol o arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti, a bod y swm i gwrdd â'r ymrwymiad yn un y gellir ei fesur neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer, caiff credydwyr eu cydnabod wrth iddynt setlo'r swm ar ôl caniatáu unrhyw ddisgownt masnachol sy'n ddyledus.

**NODIADAU AR DDATGANIADAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2021 – PARHAD**

## 4. RHODDION A CHYMYNRODDION

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Aelodaeth | 22,269 | 21,172 |
| Casgliadau Rhydd a Rhoddion | 2,272 | 1,065 |
| Rhent Tŷ Capel | 3,813 | 4,340 |
| Hurio'r Ganolfan | - | 1,280 |
| Amrywiol | - | - |
| Ad-daliad Treth Incwm | 7,972 | 6,029 |
| | 36,326 | 33,886 |

## 5. INCWM BUDDSODDIADAU

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Llog cyfrif cadw | 7 | 21 |

## 6. INCWM O WEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| | | 2021 | 2020 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| Rhaglen Arloesi | Gweithgarwch Crefyddol | 10,000 | - |
| Cronfa Elusennol | Gweithgarwch Crefyddol | 3,430 | 3,813 |
| Cymorth Cristnogol | Gweithgarwch Crefyddol | 1,165 | 1,455 |
| Apêl Talebau Nadolig | Gweithgarwch Crefyddol | 1,390 | 1,195 |
| Apêl Banc Bwyd | Gweithgarwch Crefyddol | 3,010 | 4,385 |
| Apêl Llifogydd | Gweithgarwch Crefyddol | - | 2,095 |
| Apêl Lesotho | Gweithgarwch Crefyddol | - | 159 |
| | | 18,995 | 13,102 |

## 7. COSTAU GWEITHGAREDDAU CREFYDDOL

| | Costau Uniongyrchol (gweler nodyn 8) | Costau Cymorth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Gweithgareddau Crefyddol | 47,075 | 1,050 | 48,125 |

## 8. COSTAU UNIONGYRCHOL GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Costau Staff (anghyfyngedig) | 2,306 | 2,020 |
| Costau Staff (cyfyngedig, Rhaglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr) | 2,934 | - |
| Yswiriant | 3,681 | 3,493 |
| Gwres, Golau a Dŵr | 8,197 | 9,313 |
| Pregethwyr | 1,620 | 1,060 |
| Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | 800 | 800 |
| Llenyddiaeth | 322 | 849 |
| Gweinyddol | 1,656 | 1,035 |
| Y Ganolfan | - | - |
| Y Fynwent | 967 | 1,235 |
| Amrywiol | 117 | 452 |
| Cronfa Elusennau | 3,430 | 4,199 |
| Cymorth Cristnogol | 1,145 | 1,495 |
| Costau Cynnal a Chadw | 1,546 | 3,229 |
| Rhoddion ychwanegol | 980 | 1,737 |
| Apêl Madagascar | - | 2,719 |
| Apêl Banc Bwyd | 3,965 | 3,405 |
| Apêl Felindre | - | 500 |
| Dibrisiant | 13,409 | 13,409 |
| | 47,075 | 50,950 |

**NODIADAU AR DDATGANIADAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2021 – PARHAD**

**9. INCWM NET/(GWARIANT)**

Nodir incwm net/(gwariant) ar ôl codi tâl /(credydu):

| | 2021<br>£ | 2020<br>£ |
|---|---|---|
| Ffi archwilio | 1,050 | 1,050 |
| Dibrisiant – asedau'r cwmni | 13,409 | 13,409 |

**10. CYDNABYDDIAETH A BUDDIANNAU'R YMDDIRIEDOLWYR**

Ni roddwyd unrhyw gydnabyddiaeth na buddiannau eraill i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2021 na'r flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2020.

**Costau'r Ymddiriedolwyr**
Ad-dalwyd cyfanswm o £dim (2020: £59) i'r Ymddiriedolwr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2021 am gostau a dalwyd gan yr Ymddiriedolwr ar ran y Capel. Ni thalwyd unrhyw dreuliau i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2021 na'r flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2020.

**11. COSTAU STAFF**
Ar gyfartaledd misol, cyflogwyd y nifer canlynol o staff yn ystod y flwyddyn:

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| | 2 | 2 |

Ni dderbyniodd yr un o'r cyflogeion dâl o fwy na £60,000.

**12. CYMARIAETHAU AR GYFER Y DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL**

| | Cronfeydd anghyfyngedig<br>£ | Cronfeydd cyfyngedig<br>£ | Cyfanswm cronfeydd<br>£ |
|---|---|---|---|
| **INCWM A CHYMYNRODDION O:** | | | |
| Rhoddion a Chymynroddion | 33,886 | - | 33,886 |
| **Gwaith Elusennol** | | | |
| Gweithgarwch Crefyddol | - | 13,102 | 13,102 |
| Incwm Buddsoddi | 21 | - | 21 |
| **Cyfanswm** | 33,907 | 13,102 | 47,009 |
| **GWARIANT AR:** | | | |
| **Gweithgarwch Elusennol** | | | |
| Gweithgarwch Crefyddol | 39,682 | 12,318 | 52,000 |
| **Cyfanswm** | 39,682 | 12,318 | 52,000 |
| **INCWM NET/(GWARIANT) GWEITHREDU** | (5,775) | 784 | (4,991) |
| Enillion heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi | 10,000 | - | 10,000 |
| **INCWM/(GWARIANT) NET** | 4,225 | 784 | 5,009 |
| **CYSONI CRONFEYDD** | | | |
| Cyfanswm a gariwyd ymlaen | 761,019 | 4,240 | 765,259 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN** | 765,244 | 5,024 | 770,268 |

*Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol*

**NODIADAU AR DDATGANIADAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2021 – PARHAD**

**13. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL**

| | Eiddo Rhyddfraint | Cyfarpar ac Offer | Cyfansym-iau |
|---|---|---|---|
| **COST** | £ | £ | £ |
| Ar 1 Ionawr 2020 a 31 Rhagfyr 2020 | 636,377 | 24,614 | 660,991 |
| **Ar 1 Ionawr 2020 a 31 Rhagfyr 2020** | **636,377** | **24,614** | **660,991** |
| **DIBRISIANT** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2020 | 79,455 | 24,614 | 104,069 |
| Tâl am y flwyddyn | 13,409 | - | 13,409 |
| **Ar 1 Ionawr 2021** | **92,864** | **24,614** | **117,478** |
| Tâl am y flwyddyn | 13,409 | - | 13,409 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2021** | **106,273** | **24,614** | **130,887** |
| **GWERTH NET YN Y LLYFR** | | | |
| **Ar 31 Rhagfyr 2021** | **530,104** | **-** | **530,104** |
| Ar 31 Rhagfyr 2020 | 543,513 | - | 543,513 |

**14. ASEDAU BUDDSODDI**

| | Tŷ Capel |
|---|---|
| | £ |
| Ar 1 Ionawr 2021 | 135,000 |
| Enillion heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi | 10,000 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2021** | **145,000** |

**15. DYLEDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN UN BLWYDDYN**

| | 2021<br>£ | 2020<br>£ |
|---|---|---|
| Blaendaliadau | 2,609 | 2,494 |
| | ------- | -------- |

**16. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS O FEWN UN BLWYDDYN**

| | 2021<br>£ | 2020<br>£ |
|---|---|---|
| Ffi archwilio | 1,050 | 1,050 |
| | -------- | ------- |
| | 1,050 | 1,050 |
| | -------- | ------- |

**NODIADAU AR DDATGANIADAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2021 – PARHAD**

## 18. SYMUDIADAU O FEWN CRONFEYDD

| | Ar 1/1/21 £ | Symudiadau net mewn cronfeydd £ | Ar 31/12/21 £ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 732,931 | (318) | 732,613 |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Cronfa Lesotho | 214 | - | 214 |
| Rhaglen Arloesi | - | 7,066 | 7,066 |
| Cronfa Elusennol | - | - | - |
| Cymorth Cristnogol | - | 20 | 20 |
| Apêl Llifogydd | 2,095 | - | 2,095 |
| Apêl Banc Bwyd | 980 | (955) | 25 |
| Apêl Talebau Nadolig | 1,195 | 1,390 | 2,585 |
| Apêl Diffibriliwr | 540 | - | 540 |
| | 5,024 | 7,521 | 12,545 |
| Cronfa Ailbrisio | 32,313 | 10,000 | 42,313 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 770,268 | 17,203 | 787,471 |

Mae'r symudiadau net mewn cronfeydd, a gynhwysir uchod fel a ganlyn:

| | Adnoddau a dderbyniwyd £ | Adnoddau a wariwyd £ | Symudiadau mewn cronfeydd £ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 36,333 | (36,651) | (318) |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Rhaglen Arloesi | 10,000 | (2,934) | 7,066 |
| Cronfa Elusennol | 3,430 | (3,430) | - |
| Cymorth Cristnogol | 1,165 | (1,145) | 20 |
| Apêl Talebau Nadolig | 1,390 | - | 1,390 |
| Apêl Banc Bwyd | 3,010 | (3,965) | (955) |
| | 18,995 | (11,474) | 7,521 |
| Cronfa Ailbrisio | 10,000 | - | 10,000 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 65,328 | (48,125) | 17,203 |

| **Symudiadau cymharol mewn cronfeydd** | Ar 1/1/20 £ | Symudiadau net mewn cronfeydd £ | Ar 31/12/20 £ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 738,706 | (5,775) | 732,931 |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Cronfa Lesotho | 55 | 159 | 214 |
| Cronfa Elusennol | 386 | (386) | - |
| Cymorth Cristnogol | 40 | (40) | - |
| Apêl Llifogydd | - | 2,095 | 2,095 |
| Apêl Banc Bwyd | - | 980 | 980 |
| Apêl Talebau Nadolig | - | 1,195 | 1,195 |
| Apêl Diffibriliwr | 540 | - | 540 |
| Canolfan Ganser Felindre | 500 | (500) | - |
| Apêl Madagascar | 2,719 | (2,719) | - |
| | 4,240 | 784 | 5,024 |
| Cronfa Ailbrisio | 22,313 | 10,000 | 32,313 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 765,259 | 5,009 | 770,268 |

**NODIADAU AR DDATGANIADAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2021 – PARHAD**

**18. SYMUDIADAU O FEWN CRONFEYDD – parhad**

Mae'r symudiadau net mewn cronfeydd, a gynhwysir yn yr uchod fel a ganlyn:

| | Adnoddau a dderbyniwyd £ | Adnoddau a wariwyd £ | Symudiadau mewn cronfeydd £ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 33,907 | (39,682) | (5,775) |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Cronfa Lesotho | 159 | - | 159 |
| Cronfa Elusennol | 3,813 | (4,199) | (386) |
| Cymorth Cristnogol | 1,455 | (1,495) | (40) |
| Apêl Talebau Nadolig | 1,195 | - | 1,195 |
| Canolfan Ganser Felindre | - | (500) | (500) |
| Apêl Banc Bwyd | 4,385 | (3,405) | 980 |
| Apêl Llifogydd | 2,095 | - | 2,095 |
| Cronfa Madagascar | - | (2,719) | (2,719) |
| | 13,102 | (12,318) | 784 |
| Cronfa Ailbrisio | 10,000 | - | 10,000 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 57,009 | (52,000) | 5,009 |

**19. DAGELIADAU PARTÏON PERTHYNOL**

Cyfanswm y cyfraniadau a wnaed i'r elusen gan bartïon perthynol yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2021 oedd £3,454 (2020: £5,826).

**20. OFFERYNNAU ARIANNOL**

| | **2021** | **2020** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Asedau ariannol ar sail cost amorteiddiad | 110,808 | 90,311 |
| Treuliau ariannol ar sail cost amorteiddiad | 1,050 | 1,050 |

**DATGANIAD MANWL O'R GWEITHGAREDDAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2021**

| **INCWM A CHYMYNRODDION** | 2021 £ | 2020 £ |
|---|---|---|
| **Cyfraniadau a Chymynroddion** | | |
| Aelodaeth | 22,269 | 21,172 |
| Casgliadau rhydd a rhoddion | 2,272 | 1,065 |
| Rhent Tŷ Capel | 3,813 | 4,340 |
| Llogi'r Ganolfan | - | 1,280 |
| Amrywiol | - | - |
| Ad-daliad Treth Incwm | 7,972 | 6,029 |
| | 36,326 | 33,886 |
| **Incwm Buddsoddiadau** | | |
| Llog y Cyfrif Cadw | 7 | 21 |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | |
| Rhaglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | 10,000 | - |
| Cronfa Elusennau | 3,430 | 3,813 |
| Cymorth Cristnogol | 1,165 | 1,455 |
| Apêl Banc Bwyd | 3,010 | 4,385 |
| Apêl Llifogydd | - | 2,095 |
| Apêl Talebau Nadolig | 1,390 | 1,195 |
| Apêl Lesotho | - | 159 |
| | 18,995 | 13,102 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd** | 55,328 | 47,009 |
| **GWARIANT** | | |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | |
| Cyflogau (anghyfyngedig) | 2,306 | 2,020 |
| Cyflogau (cyfyngedig, Rhaglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg) | 2,934 | - |
| Yswiriant | 3,681 | 3,493 |
| Gwres, golau a dŵr | 8,197 | 9,313 |
| Pregethwyr | 1,620 | 1,060 |
| Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | 800 | 800 |
| Llenyddiaeth | 322 | 849 |
| Gweinyddol | 1,656 | 1,035 |
| Y Ganolfan | - | - |
| Y Fynwent | 967 | 1,235 |
| Amrywiol | 117 | 452 |
| Cronfa Elusennau | 3,430 | 4,199 |
| Cymorth Cristnogol | 1,145 | 1,495 |
| Costau Cynnal a Chadw | 1,546 | 3,229 |
| Rhoddion ychwanegol | 980 | 1,737 |
| Apêl Madagascar | - | 2,719 |
| Apêl Banc Bwyd | 3,965 | 3,405 |
| Canolfan Ganser Felindre | - | 500 |
| Dibrisiant | 13,409 | 13,409 |
| | 47,075 | 50,950 |
| **Costau Cymorth (Costau Llywodraethu)** | | |
| Ffi Archwilwyr | 1,050 | 1,050 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | 48,125 | 52,000 |
| Enillion heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi | 10,000 | 10,000 |
| **Incwm net** | 17,203 | 5,009 |

*Nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r datganiad ariannol statudol*

**CAPEL Y TABERNACL CYF**

England & Wales - Charity number 1122584

# Accounts

CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIAD ARIANNOL

Y flwyddyn hyd at 31ain Rhagfyr 2020



**Capel y Tabernacl, Cyf.**
Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig:
06349041(Cymru)
Elusen Gofrestredig Rhif: 1122584

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol | Tudalen 2–3 |
| Swyddogion y Tabernacl | Tudalen 4–5 |
| Adroddiad yr Ymddiriedolwyr | Tudalen 6–7 |
| Adroddiad y Cadeirydd | Tudalen 8–9 |
| Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol | Tudalen 10 |
| Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol | Tudalen 11 |
| Mantolen | Tudalen 12 |
| Nodiadau sy'n ffurfio rhan o'r Datganiadau Ariannol | Tudalen 13–20 |
| Datganiad Manwl o'r Gweithgareddau Ariannol | Tudalen 21 |


Dymuna Capel y Tabernacl, Cyf. ddiolch i'r canlynol am eu cymorth ariannol gyda'r gwaith o wella'r adeiladau yn ddiweddar:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Ymddiriedolaeth Pantyfedwen.

| | |
|---|---|
| **Enw cofrestredig y cwmni:** | Capel y Tabernacl, Cyf. |
| **Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig:** | 06349041(Cymru) |
| **Elusen Gofrestredig:** | 1122584 |
| **Cyfeiriad Cofrestredig:** | 9 Gerddi'r Sofran, Ffordd<br>Cefn yr Hendy, Meisgyn,<br>Pont-y-clun<br>CF72 8SZ |
| **Ysgrifennydd y Cwmni:** | Gwilym Huws |

## YMDDIRIEDOLWYR YR ELUSEN
## A CHYFARWYDDWYR Y CWMNI

| **Enw** | **Etholwyd** |
|---|---|
| Siân Llewelyn Barnes* | Tachwedd 2017 |
| Geraint Wyn Davies | Tachwedd 2019 |
| Eluned Mary Davies-Scott* | Tachwedd 2017 |
| Edwyn Evans | Tachwedd 2018 *(Cadeirydd)* |
| Hefin Gwyn Gruffydd | Tachwedd 2020 |
| Bethan Haulwen Guilfoyle | Tachwedd 2020 |
| Arwyn Lloyd Jones* | Tachwedd 2017 |
| Sarah Eleri Jones | Tachwedd 2019 |
| Rhiannon Llewelyn* | Tachwedd 2017 |
| Bethan Angharad Herbert Lloyd | Tachwedd 2018 |
| Helen Middleton | Tachwedd 2020 |
| Iwan Llwyd Rowlands | Tachwedd 2020 |
| Gwenfil Edwina Thomas | Tachwedd 2019 |
| David Michael West | Tachwedd 2018 |
| Nia Mair Williams | Tachwedd 2019 |

Mae disgwyl i draean yr ymddiriedolwyr / cyfarwyddwyr ymddeol yn eu tro bob blwyddyn. Ymddeolodd y rhai gyda * ar bwys eu henwau ym mis Tachwedd 2020.

**Gwefan:** **www.tabernacl.org**

**Cyfreithwyr:** Devonalds, York House, Pontypridd CF37 1JW

**Banc:** Lloyds Bank, Sgwâr y Farchnad, Pontypridd CF37 2TF

**Cyfrifwyr:** Huw Aled Accountants Ltd., Cyfrifwyr Siartredig, 6,
Heol Alfreda, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2EH

# SWYDDOGION Y TABERNACL

**Cadeirydd**
Edwyn Evans

**Ysgrifennydd**
Gwilym Huws

**Trysorydd**
Arwyn Lloyd Jones

**Trefnydd Oedfaon, Cyhoeddiadau a Phriodasau**
Geraint Rees

**Panel Priodasau**
Geraint Rees
*Cofrestru Priodasau*
Rhys Llewelyn a Helen Middleton

**Organyddion a Chyfeilyddion**
Sian Elin Jones gyda chymorth
Bethan Roberts, Rhiannon Humphreys ac Eleri Huws

**Golygydd y Wefan a Bas-data cyfeiriadau e-bost**
Emlyn Davies

**Gweithgor Cysylltwyr Ardal**
Geraint Wyn Davies *(Cadeirydd)*
Lowri Roberts *(Ysgrifennydd)*

# SWYDDOGION Y TABERNACL - *parhad*

**Y Gweithgor Gweinidogaethu**
Y Parchedig D. Eirian Rees *(Cadeirydd)*
Geraint Rees

**Merched y Tabernacl**
Judith Thomas
Gaynor Evans

**Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol**
John Ll. Thomas *(Cadeirydd)*
Ann D. Davies *(Ysgrifennydd)*
*Cymorth Cristnogol:* John Ll. Thomas
*Bwydo'r Digartref:* Gill Rees
*Cronfa Lesotho:* Nia Williams

**Yr Ysgol Sul a'r Twmiaid**
Lowri Roberts *(Ysgrifennydd)*
*Ysgol Sul:* Bethan Reynolds a
Manon Humphreys Huws

**Pwyllgor Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus**
Gwion Evans *(Cadeirydd)*
*Gwirwyr DBS:* Wendy Reynolds a Gwerfyl Morse

**Pwyllgor y Meddiannau**
Mike West *(Cadeirydd)*

**Gweithgor Ariannol**
Gwilym Huws *(Cadeirydd)*
Arwyn Lloyd Jones *(Trysorydd)*

# ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr yr elusen at ddiben deddfwriaeth cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2020. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu'r "Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau" a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015 wrth baratoi'r adroddiad blynyddol, ac mae'r datganiadau hyn yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol o 1 Ionawr 2015).

## Strwythur, rheoli a threfn lywodraethol

Mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn gwmni elusennol ac yn gwmni cyfyngedig o dan warant fel y'i diffinnir yn Neddf Cwmnïau 2006. Fe'i sefydlwyd yn unol â'r Memorandwm sy'n datgan manylion a phwerau'r cwmni, a chaiff ei reoli'n unol â'r Erthyglau Cymdeithasiad.

Prif ddiben y cwmni yw hybu'r grefydd Gristnogol yn unol â chredoau'r anghydffurfwyr Protestannaidd a elwir yn Annibynwyr Cymraeg, fel aelodau o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; a hefyd at ddibenion cyffredinol y cyfryw gyrff elusennol neu at ddibenion eraill a fydd yn elusennol yn unig fel y penderfynir o bryd i'w gilydd gan yr Ymddiriedolwyr. Y Bwrdd sydd yn gyfrifol am arolygu holl waith a busnes yr elusen, gyda'r aelodau'n gweithredu fel Ymddiriedolwyr.

## Yr Ymddiriedolwyr

Etholir yr Ymddiriedolwyr gan Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Capel y Tabernacl, Cyf. Ni fyddant yn llai na chwech mewn nifer ond (oni bai y pennir fel arall gan benderfyniad cyffredin), ni fyddant yn amodol ar unrhyw uchafswm. Mae gan y Bwrdd hawl i gyfethol Ymddiriedolwyr ychwanegol. Yn dilyn pob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, bydd yr Ymddiriedolwyr yn penodi un o'u plith i fod yn gadeirydd eu cyfarfodydd. Y nifer angenrheidiol i ffurfio cworwm yw 6 person sydd â'r hawl i bleidleisio ar y mater i'w drafod.

## Rheoli

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn fisol. Mae gwaith yr eglwys yn cael ei drefnu o ddydd i ddydd gan nifer o bwyllgorau a gweithgorau sy'n cwrdd yn rheolaidd.

Bydd pob un o'r pwyllgorau a'r gweithgorau hyn yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn rheolaidd.

Mae'r Erthyglau Cymdeithasiad yn datgan bod pob aelod o'r Elusen yn ymgymryd i gyfrannu at asedau'r elusen swm gofynnol na fydd yn fwy na deg punt os digwydd i'r elusen gael ei dirwyn i ben.

## Cyflogaeth

Mae Capel y Tabernacl Cyf. yn cyflogi un person rhan-amser, fel Rheolwr Safle, ynghyd â glanhawr.

## Adolygiad Risg

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi adolygu'r risgiau sylweddol hynny lle mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn agored i risg, ac mae systemau wedi eu sefydlu i leihau'r risgiau hynny. Paratowyd adroddiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau'r risgiau, sydd yn cynnwys risgiau megis parhad y capel, materion ariannol, iechyd a diogelwch, amddiffyn plant ac oedolion bregus, data personol yr aelodau, staffio a'r amgylchedd.

## Amcanion a Gweithgareddau

Mae'r elusen yn rhoi sylw dyladwy i arweiniad y Comisiwn Elusennol ar lesâd cyhoeddus. Prif amcan yr elusen yw bod yn eglwys sy'n cynnig cyfle i'r aelodau fod yn dystion i Iesu Grist ym mhentref Efail Isaf, ac yn yr ardal o gwmpas. Golyga hynny ymgymryd â'r holl weithgareddau sy'n arferol i eglwys Gristnogol ac fe'u rhestrir yn yr Erthyglau Cymdeithasiad. Mae gan y cwmni hefyd hawl i arddel at ddibenion cyffredinol unrhyw gorff elusennol y dymuna'r Ymddiriedolwyr ei gefnogi, neu at ddibenion eraill y bydd yr Ymddiriedolwyr yn eu hystyried yn rhai cyfan gwbl elusennol.

## Llwyddiannau a Pherfformiad

Gweler adroddiad y Cadeirydd. Hefyd ceir manylion pellach yng nghorff yr Adroddiad Blynyddol.

## Adolygiad Ariannol

Adroddir canlyniadau'r elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2020 yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar dudalennau 11–20.

Derbyniwyd cyfanswm incwm o £47,009 (2019: £42,412) a gwariwyd £52,000 (2019: £52,845), ac felly y gwariant net oedd £4,991 (2019: £10,433). Un ffactor yn y cynnydd yn yr incwm ar y naill law a'r cynnydd yn y gwariant ar y llaw arall o'i gymharu â 2019 yw'r swm sylweddol o arian a godwyd tuag at ymgyrchoedd elusennol a dyngarol cyn trosglwyddo'r arian i'r achosion hynny. Eleni hefyd fe gwblhawyd y taliad olaf o £3,000, sef y benthyciad di-log oddi wrth Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, tuag at gostau atgyweirio'r capel.

Cyfanswm cronfeydd y cwmni ar 31 Rhagfyr 2020 oedd £770,268 o'r hyn roedd £5,024 wedi ei gadw at ddibenion cyfyngedig a £678,513 wedi ei glymu mewn asedau sefydlog. O ganlyniad roedd gan yr elusen £86,731 wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn (2019: £79,097). Ni roddwyd unrhyw dâl i'r Ymddiriedolwyr.

## Polisi Arian Wrth Gefn

Penderfynodd yr Ymddiriedolwyr roi ystyriaeth fanwl i anghenion y cwmni elusennol am arian wrth gefn, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau yn y ddogfen "Elusennau a chronfeydd wrth gefn" (CC19).

Yn ein barn ni, mae angen cronfa wrth gefn i'r dibenion canlynol:

1. I gynnal gwaith yr elusen a gweithgareddau'r eglwys mewn cyfnodau lle y gallem fod yn wynebu gostyngiad mewn incwm.

2. I wireddu prosiectau mewn cyfnod byr yn ôl y galw.

3. I gynnal a chadw'r adeiladau fel ein bod yn medru wynebu unrhyw waith atgyweirio angenrheidiol heb i'r gost lesteirio ein prif waith fel eglwys.

## Polisi Buddsoddi

Rheolwyd polisi buddsoddi'r cwmni gan yr Erthyglau Cymdeithasiad, o fewn y canllawiau a osodwyd. Rydym yn adolygu'r sefyllfa hon yn gyson.

## Polisi Cronfeydd

Mae'r cwmni'n ffodus bod cyfran helaeth o'r incwm yn dod trwy gyfraniadau aelodau, a'r rheiny ar y cyfan yn weddol gyson trwy'r flwyddyn, gyda nifer helaeth yn talu trwy archeb banc. Derbynnir tua £22,000 y flwyddyn mewn cyfraniadau gan aelodau. Y polisi yw ceisio sicrhau bod tua 3 mis o wariant arferol yn aros yn y cyfrif cyfredol yn gyson, a'r gweddill yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa fuddsoddi, fel y nodwyd uchod.

## Datblygiadau

Teimla'r Ymddiriedolwyr yn hyderus fod dyfodol ariannol Capel y Tabernacl, Cyf. ar seiliau cadarn iawn.

## Archwilydd Annibynnol

Archwilydd Annibynnol y cyfrifon hyn oedd Huw Aled Accountants Ltd., 6 Heol Alfeda, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2EH.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar sail canllawiau *Cyfrifo ac Adrodd i Elusennau: Datganiad o Arferion a Argymhellwyd* sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon ac yn unol â gofynion Safonau Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (gweithredol o 1 Ionawr 2015).

Cymeradwywyd gan y Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr ar 13 Gorffennaf 2021 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:

Enw: Geraint Wyn Davies
Ymddiriedolwr

Enw: David Michael West
Ymddiriedolwr

# ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Braint ac anrhydedd i mi yw cael cyflwyno'r adroddiad hwn i'ch sylw. Yng ngeiriau cân Dafydd Iwan, rydym 'Yma o Hyd', er na fu modd i ni gyd-gwrdd ac addoli gyda'n gilydd ers bron i flwyddyn a hanner. Wedi dweud hynny, gallwn edrych yn ôl dros gyfnod pryd y cynhaliwyd llawer iawn o weithgareddau, a hynny bob amser yn enw eglwys y Tabernacl. Mae yna ddywediad Saesneg, *'when the going gets tough, the tough get going',* a dyma'n union sydd wedi digwydd i ni. Yn rhyfeddol iawn, mae rhyw wytnwch cynhenid wedi ysbrydoli rhai, ac annog eraill, i gyflwyno a gweithredu dysgeidiaeth efengyl Iesu Grist mewn modd na fyddai neb wedi ei ragweld ddeunaw mis yn ôl.

Yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol mis Tachwedd y llynedd, ffarweliwyd â phedwar aelod o'r Bwrdd, sef Eluned Davies-Scott, Siân Llewelyn Barnes, Arwyn Lloyd Jones a Rhiannon Llewelyn. Diolch i bob un ohonynt am eu hymroddiad i'r dasg o lywodraethu'r Tabernacl yn ystod eu tymor fel Cyfarwyddwyr. Rwy'n siŵr y caf faddeuant gan y tri arall wrth gyfeirio'n benodol at Eluned Davies-Scott, gan ddiolch iddi am ei harweiniad doeth fel Cadeirydd y Bwrdd dros gyfnod o ddwy flynedd. Gan ddilyn amodau'r cyfansoddiad, enwebwyd pedwar aelod newydd i'r Bwrdd am dymor o dair blynedd, sef Hefin Gruffydd, Bethan Guilfoyle, Iwan Rowlands a Helen Middleton. Rydym eisoes wedi elwa o'u cyfraniadau yn nhrafodaethau a gwaith y Bwrdd dros y cyfnod prysur a heriol rydym wedi ei wynebu dros y misoedd diwethaf.

Gyda thristwch mawr bu'n rhaid gohirio cynnal ein gwasanaethau cynulleidfaol arferol trwy gydol y flwyddyn a aeth heibio yn sgil y pandemig a hynny i raddau helaeth iawn oherwydd ein llwyddiant fel eglwys gyda chymaint yn dymuno troi i mewn i addoli ar foreau Sul. Er bod hawl cyfreithiol gennym i gynnal gwasanaethau yn yr adeilad am ran helaethaf o'r cyfnod clo, roedd gofyn dilyn rheoliadau llym i wneud hynny – canllawiau oedd yn gwbl anymarferol i ni yma yn y Tabernacl allu eu cwrdd. Rydym yn byw mewn gobaith y gallwn gwrdd unwaith yn rhagor ar fore Sul yn y dyfodol agos.

Yn anffodus hefyd oherwydd y gwaharddiadau i ymgynnull fel cynulleidfa yn sgil Covid-19 bu'n rhaid gohirio llawer o'r trefniadau a wnaed i ddathlu 150 mlynedd adeiladu'r Capel presennol. Serch hynny, i gyd-fynd â dyddiad ailagor y Capel ar ei newydd wedd ym mis Gorffennaf 1870, fe baratowyd cyfrol aml-gyfryngol lliwgar a bywiog – *Dathlu'r 150* – yn adrodd hanes yr achos dros y ganrif a hanner ddiwethaf. Dim ond y fersiwn ddigidol oedd wedi ymddangos pan luniwyd adroddiad llynedd ond ym mis Awst fe ddosbarthwyd copi caled i bob aelod. Mae ein dyled yn fawr iawn i Emlyn Davies am ei holl waith yn llunio cofrodd mor deilwng a darllenadwy i gofnodi hanes yr achos yn Efail Isaf.

Er y gwaharddiadau ar ymgynnull wyneb-yn-wyneb, paratowyd myfyrdodau'n wythnosol drwy holl gyfnod y clo, ac rydym yn ddiolchgar dros ben i'r holl aelodau hynny sydd wedi cyfrannu at yr arlwy yma a meistroli'r dechnoleg i alluogi rhannu neges yr efengyl nid yn unig ymhlith ein haelodau, ond hefyd i bawb yn y byd oedd yn medru tiwnio i mewn. *'Trwy ddirgel ffyrdd mae'r Arglwydd Iôr yn dwyn ei waith i ben'.* Rydym ninnau fel aelodau'r Bwrdd wedi cwrdd yn rhithiol, gan sicrhau parhad i reolaeth yr Eglwys. Diolch i Gwilym Huws am sicrhau hyn dros Zoom.

Llawenydd o'r mwyaf yw medru adrodd bod cyfraniadau ariannol yr aelodau a chyfeillion tuag at achosion dyngarol ac elusennol yn ystod y flwyddyn 2020 wedi bod yn sylweddol uwch nag erioed o'r blaen. Ymhlith yr achosion a gefnogwyd yn y modd hwn roedd y Talebau Nadolig i bobl ifanc oedd yn gadael gofal a theganau i blant bach drwy'r Gwasanaeth Cymdeithasol ( £1,195), Wythnos Cymorth Cristnogol (£1,455), y Gronfa Elusennau (£3,813), Banc Bwyd Taf Elái (£4,385) ag Apêl y Llifogydd (£2,095). Hefyd mae'r arian wedi parhau i lifo i mewn yn gyson i'r ymgyrchoedd hynny lle mae'r galw'n parhau (e.e. y banc bwyd).

Rhaid talu teyrnged a gair o ddiolch diffuant i'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol dan arweiniad John Llywelyn Thomas ac Ann Dwynwen Davies. Mae'r Capel wedi edrych yn debycach i warws yn ystod y misoedd diwethaf wrth i gelfi, llestri a dillad gael eu cyfrannu gan yr aelodau a thrigolion y pentref, a'r rheiny yn eu tro yn cael eu dosbarthu ymhlith yr anghenus. Penllanw'r gwaith anhygoel yma oedd gweld yr Eglwys a John Llewelyn Thomas yn derbyn ymweliad gan Jason Edwards, Uchel Siryf Canol Morgannwg, a gyflwynodd dystysgrifau i John a'r Eglwys fel gwerthfawrogiad o'r holl waith dyngarol a gyflawnwyd yma.

Mae'r Pwyllgor Meddiannau, dan arweiniad Mike West, yn parhau â'r gwaith o sicrhau bod adeiladau'r Tabernacl mewn cyflwr graenus ac yn cwrdd â gofynion iechyd a diogelwch. Rydym yn hynod ddiolchgar i Mike am ymgymryd â'r rôl gofalwr tra rydym yn parhau i chwilio am olynydd i Ioan Rees. Braf yw gallu adrodd bod y criw bach bore Iau wedi datblygu'n fawr iawn, ac yn sgil yr oriau o lafur caled, a chymorth JCB bychan, fe gliriwyd y gordyfiant o'r rhandiroedd gan agor pedair llain newydd. Mae dwy ohonynt eisoes wedi eu gosod i arddwyr newydd, a gyda chymorth Emma Shepherd mae'r gweddill yn cael eu datblygu i fod yn ardd gymunedol. Yn sgil hyn, rydym wedi sicrhau nawdd gan Cadw Cymru'n Daclus tuag at wella'r cyfleusterau yn y rhandiroedd.

Yn gynharach eleni sefydlwyd Is-bwyllgor gan y Bwrdd i ystyried gwahoddiad gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i holl eglwysi'r enwad i wneud cais am gefnogaeth ariannol wrth iddynt lansio eu rhaglen Buddsoddi ac Arloesi. Eu nod yw annog eglwysi i *'fuddsoddi yn eu dyfodol drwy fentro mewn ffyrdd newydd ac arloesol o hyrwyddo a chyhoeddi'r Efengyl ac estyn allan i wasanaethu eu cymunedau'.* I ddenu cefnogaeth ariannol roedd angen cyflwyno cais i Banel Dyfarnu'r Undeb. Yn ystod hanner cyntaf 2021 bu'r Is-bwyllgor Arloesi a Buddsoddi'n weithgar iawn wrth bwyso a mesur pa drywydd i'w ddilyn. Y cam cyntaf oedd cymryd stoc o gryfderau a gwendidau presennol yr eglwys, ynghyd a'r cyfleoedd a'r bygythiadau a wynebwn. Trwy ymgynghori ag aelodau'r Bwrdd a threfnu cyfarfodydd rhithiol gyda rhai carfannau o'r gynulleidfa gwelwyd bod consensws wedi ffurfio mai'r maes i ganolbwyntio arno oedd gweithgareddau ymhlith ieuenctid a phobl ifanc yr eglwys. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd lluniwyd cynnig i gyflogi Swyddog Ieuenctid a Chymunedol rhan-amser a derbyniodd y cynnig hwnnw gefnogaeth unfrydol mewn Cwrdd Eglwys. Wedi cyflwyno'r cais bu'n rhaid aros yn amyneddgar am rai wythnosau cyn clywed y dyfarniad. Rhyddhad o'r mwyaf, felly, oedd derbyn neges ddiwedd Mehefin gan yr Undeb i'r cais gael ei dderbyn yn llawn, sef swm o £10,000 y flwyddyn am 5 mlynedd, i'n galluogi i gyflogi'r Swyddog Ieuenctid a Chymunedol. Dyma newyddion gwych i ni fel eglwys a fydd gobeithio yn agor pennod newydd a chyffrous yn ein hanes.

Her arall i'r dyfodol fydd ailafael yn y tresi pan fydd y canllawiau'n caniatáu i ni gwrdd unwaith eto. Does gennyf ddim pryderon na fydd graen ar ein gwasanaethau, a chynulleidfa haeddiannol yn dychwelyd i'r Capel ar y Sul. Y sialens fwyaf fydd ysgogi ein hieuenctid i ailafael yng ngweithgareddau'r Ysgol Sul. Yno mae ein dyfodol, ac mae'n ddyletswydd arnom ni i gyd i gefnogi'r rhai fydd yn gofalu am lwyddiant y gweithgarwch heriol hwn.

I gloi, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd at waith yr Eglwys yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae ein dyled yn fawr iawn. Diolch hefyd i Huw Aled Accountants am y gwaith o baratoi'r adroddiad ariannol manwl yma i'ch sylw.

Edwyn Evans
Cadeirydd
Gorffennaf 2021

# ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CAPEL Y TABERNACL, CYF.

**Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr Capel y Tabernacl, Cyf. ('y Cwmni')**

Yr wyf yn adrodd i ymddiriedolwyr yr elusen am fy archwiliad o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2020.

**Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr y Cwmni (a hefyd y cyfarwyddwyr at ddibenion deddfwriaeth cwmnïau) chi'n sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ('Deddf 2006').

Wedi bodloni fy hun nad oes angen i gyfrifon y Cwmni dderbyn awdit o dan Rhan 16 Deddf 2006, a'i bod yn gymwys ar gyfer archwiliad annibynnol, gallaf adrodd ar sail fy archwiliad o gyfrifon yr elusen o dan Adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ('Deddf 2011'). Wrth gynnal fy archwiliad rwyf wedi dilyn Cyfarwyddiadau y Comisiwn Elusennau o dan Adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011).

**Datganiad yr Archwilydd Annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad, a gallaf gadarnhau nad oes unrhyw fater wedi dod i'm sylw mewn cysylltiad â'm harchwiliad sy'n peri i mi gredu:

1. nad yw'r cofnodion cyllido wedi eu cadw mewn perthynas â'r Cwmni yn unol â gofynion Adran 386 Deddf 2006; *neu*
2. nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hyn; *neu*
3. nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion Adran 396 Deddf 2006 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn cyflwyno darlun cywir a theg nad yw'n rhan o'r materion gaiff eu hystyried fel rhan o archwiliad annibynnol; *neu*
4. nad yw'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â methodoleg ac egwyddorion y Datganiad o Ymarfer a Argymhellwyd (*Statement of Recommended Practice*) a ddefnyddir i gyfrifo ac adrodd gan elusennau sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon yn ôl gofynion Safon Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Nid oes gennyf unrhyw gonsýrn ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion mewn cysylltiad â'r archwiliad y dylid tynnu sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn dod i ddealltwriaeth llawn o'r cyfrifon.

Aled Wyn Thomas
.............................................

Aled Wyn Thomas, ACA
Huw Aled Accountants Ltd
6 Heol Alfreda
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
CF14 2EH

Dyddiad: 13/07/2021

**DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL**
**(YN CYNNWYS CYFRIF O INCWM A GWARIANT)**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2020**

| | Nodiadau | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | 2020 Cyfanswm Cronfeydd £ | *Ailddatganwyd* 2019 Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **INCWM A GWADDOLION O:** | | | | | |
| Rhoddion a Chymynroddion | **4** | 33,886 | - | 33,886 | 38,541 |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | | | | |
| Gweithgareddau crefyddol | **6** | - | 13,102 | 13,102 | 3,842 |
| Incwm o fuddsoddiadau | **5** | 21 | - | 21 | 29 |
| **Cyfanswm** | | 33,907 | 13,102 | 47,009 | 42,412 |
| **GWARIANT AR** | | | | | |
| **Gweithgareddau Elusennol** | **7** | | | | |
| Gweithgareddau Crefyddol | | 39,682 | 12,318 | 52,000 | 52,845 |
| **(GWARIANT)/INCWM GWEITHREDU NET** | | (5,775) | 784 | (4,991) | (10,433) |
| Enillion heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi | **14** | 10,000 | - | 10,000 | 22,313 |
| **INCWM/(GWARIANT) NET** | | 4,225 | 784 | 5,009 | 11,880 |
| **CYSONI’R CRONFEYDD** | **12** | | | | |
| **Cysoni’r cronfeydd a gariwyd ymlaen** | | 761,019 | 4,240 | 765,259 | 753,379 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN** | | 765,244 | 5,024 | 770,268 | 765,259 |

*Mae’r nodiadau yn ffurfio rhan o’r datganiadau ariannol*

**MANTOLEN**
**AR 31 RHAGFYR 2020**

| | Nodiadau | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | 2020 Cyfanswm Cronfeydd £ | *Ailddatganwyd* 2019 Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | | |
| Asedau Diriaethol | **13** | 543,513 | - | 543,513 | 556,922 |
| Asedau Buddsoddi | **14** | 135,000 | - | 135,000 | 125,000 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Dyledwyr | **15** | 2,494 | - | 2,494 | 2,402 |
| Arian yn y banc | | 85,287 | 5,024 | 90,311 | 84,985 |
| | | 87,781 | 5,024 | 92,805 | 87,837 |
| **CREDYDWYR** | | | | | |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | **16** | (1,050) | - | (1,050) | (4,050) |
| **ASEDAU NET CYFREDOL** | | 86,731 | 5,024 | 91,755 | 83,337 |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI DYLEDION CYFREDOL** | | 765,244 | 5,024 | 770,268 | 765,259 |
| **ASEDAU NET** | | 765,244 | 5,024 | 770,268 | 765,259 |
| **CRONFEYDD** | **18** | | | | |
| Cronfeydd Anghyfyngedig | | | | 765,244 | 761,019 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | | | | 5,024 | 4,240 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | | | | 770,268 | 765,259 |

Mae gan y cwmni elusennol hawl i beidio â chynnal awdit, dan Adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006, am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Rhagfyr 2020.

Nid yw'r aelodau wedi gofyn i'r cwmni elusennol gynnal awdit o'u cyfrifon ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2020 yn unol ag Adran 476 Deddf Cwmnïau 2006.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb dros y canlynol:

(a) sicrhau bod y cwmni elusennol yn cadw cyfrifon sy'n cyd-fynd â gofynion Adran 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ac

(b) yn paratoi datganiadau ariannol sy'n adlewyrchu'n gywir a theg sefyllfa'r cwmni elusennol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, gan gynnwys y gwarged neu'r ddyled yn unol â gofynion Adrannau 394 a 395 ac sydd fel arall yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 o safbwynt datganiadau ariannol sy'n berthnasol i gwmnïau elusennol.

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu paratoi i gydymffurfio â gofynion arbennig Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau elusennol bychan.

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 13 Gorffennaf 2021 a'u llofnodi ar eu rhan gan:

Enw: Geraint Wyn Davies
Ymddiriedolwr

Enw: David Michael West
Ymddiriedolwr

*Mae'r nodiadau yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol*

**NODIADAU AR DDATGANIADAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2020**

## 1. GWYBODAETH STATUDOL

Mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn gwmni cyfyngedig dan warant wedi ei ymgorffori yng Nghymru o fewn y Deyrnas Gyfunol. Y Swyddfa Gofrestredig yw 9 Gerddi'r Sofran, Meisgyn, Pontyclun, Cymru, CF72 8SZ.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu cyflwyno mewn Sterling (£), sef arian cyfred y cwmni, yn grwn i'r bunt agosaf.

Prif ddiben a natur yr elusen yw hybu gweithgarwch crefyddol.

Caiff y prif bolisïau cyfrifo a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn eu nodi isod. Cafodd y polisïau eu gweithredu'n gyson dros yr holl flynyddoedd a gyflwynir, oni nodir yn wahanol.

## 2. POLISÏAU CYFRIFO

**Sail paratoi'r datganiadau ariannol**
Mae datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sydd yn endid budd cyhoeddus o dan FRS 102, wedi cael eu paratoi yn unol â SORP (FRS 102) *Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice* sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102 S1A Bwletin Diweddariad 1) (gweithredol o 1 Ionawr 2015), a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar sail confensiwn hanesyddol.

Mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn cwrdd â'r diffiniad o endid budd cyhoeddus dan FRS 102. Caiff yr asedau a'r dyledion eu cydnabod o'r cychwyn cyntaf ar gost neu werth gweithrediad hanesyddol oni nodir yn wahanol yn y nodyn / nodiadau cyfrifo perthnasol.

**Incwm**
Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol unwaith mae gan yr elusen hawl i'r cronfeydd, mae'r incwm yn debygol o gael ei dderbyn, ac mae modd mesur y swm yn hyderus.

**Incwm cyfraniadau a chymynroddion**
Mae incwm cyfraniadau a chymynroddion yn cynnwys cyfraniadau, rhoddion a grantiau sy'n sicrhau cyllid craidd neu sydd o natur gyffredinol a gydnabyddir lle bo hawl, a thebygolrwydd o'i dderbyn, a lle gellir mesur y swm gyda hyder digonol. Caiff incwm ei gadw'n ôl yn unig pan fydd y rhoddwr yn nodi bod rhaid ei ddefnyddio mewn cyfnod cyfrifo gwahanol, neu lle bo'r rhoddwr wedi gosod amodau y mae'n rhaid i'r elusen gwrdd â hwy cyn sicrhau hawl diamod ar y swm.

**Incwm o weithgareddau elusennol**
Mae'r incwm o weithgareddau elusennol yn cynnwys incwm a dderbyniwyd dan gytundeb neu lle bo'r hawl yn amodol ar berfformiad dan amodau penodol. Caiff yr incwm hwn ei gydnabod gan bod y gwasanaethau perthynol yn cael eu darparu, ac y mae yna hawl, a thebygolrwydd o dderbynneb, a gellir mesur y swm gyda dibynadwyedd digonol. Caiff yr incwm ei ohirio lle bo'r arian yn cael ei dderbyn cyn cyflawni'r gwasanaeth neu'r digwyddiad mae'r arian yn berthnasol iddo.

**Incwm buddsoddiadau**
Caiff incwm o fuddsoddiadau ei gydnabod ar sail ei dderbyn.

Nid yw'n bolisi gan yr elusen i ddangos incwm net o wariant.

**Gwariant**
Caiff ymrwymiadau eu cydnabod fel gwariant cyn gynted ag y bo rheidrwydd cyfreithiol neu ymarferol yn ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw. Mae'n debygol y bydd rhaid trosglwyddo buddiannau economaidd fel setliad a gellir mesur yr ymrwymiad mewn modd dibynadwy. Caiff y gwariant ei gyfrifo ar sail croniadau, ac fe'i dosbarthwyd dan benawdau sy'n corlannu'r holl gostau o fewn y categori. Lle nad oes modd clustnodi costau dan bennawd penodol, maent wedi ei glustnodi o dan weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd a wneir o'r adnoddau.

Mae costau sy'n ymwneud â chodi arian yn cynnwys costau ymgyrchu, hysbysebu a marchnata, a defnyddiau postio uniongyrchol.

Mae gwariant ar weithgarwch elusennol yn cynnwys y costau hynny a delir gan yr elusen wrth gyflawni ei gweithgareddau a'i gwasanaethau er lles ei derbynwyr. Mae'n cynnwys nid yn unig y costau y gellir eu clustnodi'n uniongyrchol, ond hefyd y gweithgareddau a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol er mwyn eu cefnogi.

## 2. POLISÏAU CYFRIFO

### Gwariant – parhad

Costau Cynorthwyol yw'r costau hynny nad ydynt, er yn hanfodol i'r elusen gyflawni ei hamcanion, yn creu na chyflawni gweithgarwch elusennol. Mae'r rhain yn cynnwys costau llywodraethiant, sef y costau hynny i gwrdd â gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen, gan gynnwys ffioedd cyfrifo a chostau'n gysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen.

**Asedau Sefydlog diriaethol**
Caiff asedau sefydlog eu cyfalafu ar gost.

Amcangyfrifir y dibrisiad er mwyn lleihau cost yr ased, namyn yr amcangyfrif o werth sy'n weddill, dros oes yr ased fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Eiddo rhyddfraint | - dros 40 mlynedd |
| Offer a chyfarpar | - 25% o'r gost |
| Offer cyfrifiadurol | - 50% o'r gost |

**Asedau Buddsoddi**
Mae asedau buddsoddi yn cael eu cyfalafu ar gost ac yn cael eu hailbrisio i werth teg yr ased ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae unrhyw enillion neu colledion o'r ailbrisio blynyddol yn cael eu cynnwys o dan y pennawd 'Enillion/(colledion) heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi" yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

Nid yw'r asedau buddsoddi yn cael eu dibrisio.

**Trethiant**
Mae'r elusen yn cael ei heithrio o dalu treth gorfforaethol ar ei gweithgarwch elusennol.

**Cyfrifo Cronfeydd**
Gellir defnyddio cronfeydd anghyfyngedig yn unol â'r amcanion elusennol gyda sêl bendith yr ymddiriedolwyr. Dim ond at ddibenion penodol o fewn amcanion yr elusen y gellir defnyddio cronfeydd cyfyngedig. Ceir cyfyngiad pan fo'r rhoddwr yn nodi hynny, neu pan fo'r gronfa wedi ei chreu i godi arian at bwrpasau cyfyngedig penodol.

Ceir esboniad pellach am natur a diben pob cronfa yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

**Offerynnau Ariannol**

Dim ond asedau ac ymrwymiadau ariannol o'r math sy'n gymwys ar gyfer offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu derbyn yn y lle cyntaf ar sail y gwerth ariannol, ac yna eu mesur ar sail eu gwerth setliad.

Caiff benthyciadau rhatach eu derbyn a'u mesur yn y lle cyntaf ar sail eu gwerth ariannol, gyda'r symiau gaiff eu cario drosodd yn cael eu haddasu yn y blynyddoedd canlynol i adlewyrchu taliadau a wnaed ac unrhyw log sy'n deillio ohonynt.

**Dyledwyr**

Cydnabyddir dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill yn ôl y swm y cytunwyd arno ar ôl cynnwys unrhyw ddisgownt masnachol. Caiff blaendaliadau eu prisio ar y swm net o unrhyw ddisgownt sy'n ddyledus a dalwyd ymlaen llaw.

**Credydwyr**

Cydnabyddir credydwyr lle mae gan yr elusen ymrwymiad cyfredol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n debygol o arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti, a bod y swm i gwrdd â'r ymrwymiad yn un y gellir ei fesur neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer, caiff credydwyr eu cydnabod wrth iddynt setlo'r swm ar ôl caniatáu unrhyw ddisgownt masnachol sy'n ddyledus.

## 3. CYWIRO DEWIS O BOLISI CYFRIFO AR GYFER ASEDAU BUDDSODDI

Yn wreiddiol, polisi cyfrifo y Capel oedd i gyfalafu pob ased sefydlog diriaethol, gan gynnwys Tŷ Capel. Gwnaeth yr Ymddiriedolwyr gadarnhau bod y Tŷ Capel yn cael ei gadw i ennill incwm rhent, yn hytrach nag i'w ddefnyddio yng ngweithgareddau arferol y Capel. O ganlyniad, bu rhaid ailddosbarthu Tŷ Capel fel ased buddsoddi yn unol â chanllawiau FRS 102 (SORP Elusennau).

Ailddatganwyd y wybodaeth ar gyfer 2019 i ddangos effeithiau'r trosglwyddiad hyn ar y cyfrifon (gweler nodiadau 13 a 14).

*Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol*

**NODIADAU AR DDATGANIADAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2020 – PARHAD**

**4. RHODDION A CHYMYNRODDION**

| | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Aelodaeth | 21,172 | 21,769 |
| Casgliadau Rhydd a Rhoddion | 1,065 | 1,800 |
| Rhent Tŷ Capel | 4,340 | 4,590 |
| Hurio'r Ganolfan | 1,280 | 3,139 |
| Amrywiol | - | 1,415 |
| Ad-daliad Treth Incwm | 6,029 | 5,828 |
| | 33,886 | 38,541 |

**5. INCWM BUDDSODDIADAU**

| | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Llog cyfrif cadw | 21 | 29 |

**6. INCWM O WEITHGAREDDAU ELUSENNOL**

| | | 2020 | 2019 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| Cronfa Elusennol | Gweithgarwch Crefyddol | 3,813 | 2,098 |
| Cymorth Cristnogol | Gweithgarwch Crefyddol | 1,455 | 100 |
| Apêl Talebau Nadolig | Gweithgarwch Crefyddol | 1,195 | - |
| Apêl Banc Bwyd | Gweithgarwch Crefyddol | 4,385 | - |
| Apêl Llifogydd | Gweithgarwch Crefyddol | 2,095 | 500 |
| Apêl Lesotho | Gweithgarwch Crefyddol | 159 | 1,144 |
| | | 13,102 | 3,842 |

**7. COSTAU GWEITHGAREDDAU CREFYDDOL**

| | Uniongyrchol | Costau Cymorth | Costau Cyfanswm (gweler nodyn 7) |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Gweithgareddau Crefyddol | 50,950 | 1,050 | 52,000 |

**8. COSTAU UNIONGYRCHOL GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL**

| | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Costau Staff | 2,020 | 5,618 |
| Yswiriant | 3,493 | 3,417 |
| Gwres, Golau a Dŵr | 9,313 | 5,804 |
| Pregethwyr | 1,060 | 1,040 |
| Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | 800 | 800 |
| Llenyddiaeth | 849 | 572 |
| Gweinyddol | 1,035 | 2,238 |
| Y Ganolfan | - | 6,370 |
| Y Fynwent | 1,235 | 3,688 |
| Amrywiol | 452 | 697 |
| Cronfa Elusennau | 4,199 | 2,500 |
| Cymorth Cristnogol | 1,495 | 60 |
| Costau Cynnal a Chadw | 3,229 | 1,457 |
| Rhoddion ychwanegol | 1,737 | - |
| Apêl Madagascar | 2,719 | - |
| Apêl Banc Bwyd | 3,405 | - |
| Apêl Lesotho | - | 1,000 |
| Apêl Felindre | 500 | - |
| Dibrisiant | 13,409 | 16,534 |
| | 50,950 | 51,795 |

*Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol*

**9. INCWM NET/(GWARIANT)**

Nodir incwm net/(gwariant) ar ôl codi tâl /(credydu):

| | 2020 £ | 2019 £ |
|---|---|---|
| Ffi archwilio | 1,050 | 1,050 |
| Dibrisiant – asedau'r cwmni | 13,409 | 16,534 |

**10. CYDNABYDDIAETH A BUDDIANNAU'R YMDDIRIEDOLWYR**

Ni roddwyd unrhyw gydnabyddiaeth na buddiannau eraill i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2020 na'r flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2019.

**Costau'r Ymddiriedolwyr**
Ad-dalwyd cyfanswm o £59 i un Ymddiriedolwr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2020 am gostau a dalwyd gan yr Ymddiriedolwr ar ran y Capel. Ni thalwyd unrhyw dreuliau i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2020 na'r flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2019.

**11. COSTAU STAFF**
Ar gyfartaledd misol, cyflogwyd y nifer canlynol o staff yn ystod y flwyddyn:

| | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| | 2 | 2 |

Ni dderbyniodd yr un o'r cyflogeion dâl o fwy na £60,000.

**12. CYMARIAETHAU AR GYFER Y DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL**

| | *Ailddatganwyd* Cronfeydd anghyfyngedig £ | Cronfeydd cyfyngedig £ | *Ailddatganwyd* Cyfanswm cronfeydd £ |
|---|---|---|---|
| **INCWM A CHYMYNRODDION O:** | | | |
| Rhoddion a Chymynroddion | 38,541 | - | 38,541 |
| **Gwaith Elusennol** | | | |
| Gweithgarwch Crefyddol | - | 3,842 | 3,842 |
| Incwm Buddsoddi | 29 | - | 29 |
| **Cyfanswm** | 38,570 | 3,842 | 42,412 |
| **GWARIANT AR:** | | | |
| **Gweithgarwch Elusennol** | | | |
| Gweithgarwch Crefyddol | 49,285 | 3,560 | 52,845 |
| **Cyfanswm** | 49,285 | 3,560 | 52,845 |
| **INCWM NET/(GWARIANT) GWEITHREDU** | (10,715) | 282 | (10,433) |
| Enillion o ailbrisio asedau buddsoddi | 22,313 | - | 22,313 |
| **INCWM/(GWARIANT) NET** | 11,598 | 282 | 11,880 |
| **CYSONI CRONFEYDD** | | | |
| Cyfanswm a gariwyd ymlaen | 749,421 | 3,958 | 753,379 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN** | 761,019 | 4,240 | 765,259 |

*Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol*

## 13. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

| | *Ailddatganwyd* Eiddo Rhyddfraint | Cyfarpar ac Offer | *Ailddatganwyd* Cyfansym-iau |
|---|---|---|---|
| **COST** | £ | £ | £ |
| Ar 1 Ionawr 2019 | 761,377 | 24,614 | 785,991 |
| Llai: trosglwyddiad i asedau buddsoddi | (125,000) | - | (125,000) |
| **Ar 1 Ionawr 2020 a 31 Rhagfyr 2020** | **636,377** | **24,614** | **660,991** |
| **DIBRISIANT** | | | |
| Ar 1 Ionawr 2019 | 85,234 | 24,614 | 109,848 |
| Tâl am y flwyddyn | 16,534 | - | 16,534 |
| Llai: trosglwyddiad i asedau buddsoddi | (22,313) | - | (22,313) |
| **Ar 1 Ionawr 2020** | **79,455** | **24,614** | **104,069** |
| Tâl am y flwyddyn | 13,409 | - | 13,409 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2020** | **92,864** | **24,614** | **117,478** |
| **GWERTH NET YN Y LLYFR** | | | |
| **Ar 31 Rhagfyr 2020** | **543,513** | **-** | **543,513** |
| Ar 31 Rhagfyr 2019 | 556,922 | - | 556,922 |

## 14. ASEDAU BUDDSODDI

| | *Ailddatganwyd* Tŷ Capel |
|---|---|
| | £ |
| Ar 1 Ionawr 2019 | - |
| Trosglwyddiad o asedau sefydlog diriaethol | 102,687 |
| Enillion heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi | 22,313 |
| Ar 1 Ionawr 2020 | 125,000 |
| Enillion heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi | 10,000 |
| **Ar 31 Rhagfyr 2020** | **135,000** |

## 15. DYLEDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN UN BLWYDDYN

| | 2020 £ | 2019 £ |
|---|---|---|
| Blaendaliadau | 2,494 | 2,402 |
| | ------- | -------- |

**16. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS O FEWN UN BLWYDDYN**

| | 2020<br>£ | 2019<br>£ |
|---|---|---|
| Benthyciadau eraill (gweler nodyn 15) | - | 3,000 |
| Ffi archwilio | 1,050 | 1,050 |
| | -------- | ------- |
| | 1,050 | 4,050 |
| | -------- | ------- |

**17. BENTHYCIADAU**

Ceir dadansoddiad o ddyddiad aeddfedu benthyciadau isod:

| | 2020<br>£ | 2019<br>£ |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn: | | |
| Benthyciadau eraill | - | 3,000 |
| | ------- | ------- |

Roedd yr offerynnau ariannol yn mesur y swm a dderbyniwyd gyda'r swm oedd yn cael ei gario ymlaen yn cael ei addasu i adlewyrchu'r ad-daliadau ac unrhyw log cronedig. Darperir y benthyciad ariannol gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg (Corfforedig) ar raddfa llog o 0%.

**NODIADAU AR DDATGANIADAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2020 – PARHAD**

**18. SYMUDIADAU O FEWN CRONFEYDD**

| | Ar 1/1/20 | Symudiadau net mewn cronfeydd | Ar 31/12/20 |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 738,706 | (5,775) | 732,931 |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Cronfa Lesotho | 55 | 159 | 214 |
| Cronfa Elusennol | 386 | (386) | - |
| Cymorth Cristnogol | 40 | (40) | - |
| Apêl Llifogydd | - | 2,095 | 2,095 |
| Apêl Banc Bwyd | - | 980 | 980 |
| Apêl Talebau Nadolig | - | 1,195 | 1,195 |
| Apêl Diffribiliwr | 540 | - | 540 |
| Canolfan Ganser Felindre | 500 | (500) | - |
| Apêl Madagascar | 2,719 | (2,719) | - |
| | 4,240 | 784 | 5,024 |
| Cronfa Ailbrisio | 22,313 | 10,000 | 32,313 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 765,259 | 5,009 | 770,268 |

Mae'r symudiadau net mewn cronfeydd, a gynhwysir uchod fel a ganlyn:

| | Adnoddau a dderbyniwyd | Adnoddau a wariwyd | Symudiadau mewn cronfeydd |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 33,907 | (39,682) | (5,775) |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Cronfa Lesotho | 159 | - | 159 |
| Cronfa Elusennol | 3,813 | (4,199) | (386) |
| Cymorth Cristnogol | 1,455 | (1,495) | (40) |
| Apêl Talebau Nadolig | 1,195 | - | 1,195 |
| Canolfan Ganser Felindre | - | (500) | (500) |
| Apêl Banc Bwyd | 4,385 | (3,405) | 980 |
| Apêl Llifogydd | 2,095 | - | 2,095 |
| Cronfa Madagascar | - | (2,719) | (2,719) |
| | 13,102 | (12,318) | 784 |
| Cronfa Ailbrisio | 10,000 | - | 10,000 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 57,009 | (52,000) | 5,009 |

| **Symudiadau cymharol mewn cronfeydd** | Ar 1/1/19 | *Ailddatganwyd* Symudiadau net mewn cronfeydd | *Ailddatganwyd* Ar 31/12/19 |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 749,421 | (10,715) | 738,706 |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Cronfa Lesotho | 1,055 | (1,000) | 55 |
| Cronfa Elusennol | 788 | (402) | 386 |
| Cymorth Cristnogol | - | 40 | 40 |
| Apêl Diffribiliwr | 540 | - | 540 |
| Canolfan Ganser Felindre | - | 500 | 500 |
| Cronfa Madagascar | 1,575 | 1,144 | 2,719 |
| | 3,958 | 282 | 4,240 |
| Cronfa Ailbrisio | - | 22,313 | 22,313 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 753,379 | 11,880 | 765,259 |

**18. SYMUDIADAU O FEWN CRONFEYDD – parhad**

Mae'r symudiadau net mewn cronfeydd, a gynhwysir yn yr uchod fel a ganlyn:

| | *Ailddatganwyd* Adnoddau a dderbyniwyd £ | Adnoddau a wariwyd £ | *Ailddatganwyd* Symudiadau mewn cronfeydd £ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 38,570 | (49,285) | (10,715) |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | |
| Cronfa Lesotho | - | (1,000) | (1,000) |
| Cronfa Elusennol | 2,098 | (2,500) | (402) |
| Cymorth Cristnogol | 100 | (60) | 40 |
| Apêl Diffribiliwr | - | - | - |
| Canolfan Ganser Felindre | 500 | - | 500 |
| Cronfa Madagascar | 1,144 | - | 1,144 |
| | 3,842 | (3,560) | 282 |
| Cronfa Ailbrisio | 22,313 | - | 22,313 |
| **CYFANSYMIAU CRONFEYDD** | 64,725 | (52,845) | 11,880 |

**19. DAGELIADAU PARTÏON PERTHYNOL**

Cyfanswm y cyfraniadau a wnaed i'r elusen gan bartïon perthynol yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2020 oedd £5,826 (2019: £5,139).

**20. OFFERYNNAU ARIANNOL**

| | **2020** £ | **2019** £ |
|---|---|---|
| Asedau ariannol ar sail cost amorteiddiad | 90,312 | 84,985 |
| Treuliau ariannol ar sail cost amorteiddiad | 1,050 | 4,050 |

# CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

**DATGANIAD MANWL O'R GWEITHGAREDDAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2020**

| **INCWM A CHYMYNRODDION** | 2020<br>£ | *Ailddatganwyd*<br>2019<br>£ |
|---|---|---|
| **Cyfraniadau a Chymynroddion** | | |
| Aelodaeth | 21,172 | 21,769 |
| Casgliadau rhydd | 1,065 | 1,800 |
| Rhent Tŷ Capel | 4,340 | 4,590 |
| Llogi'r Ganolfan | 1,280 | 3,139 |
| Amrywiol | - | 1,415 |
| Ad-daliad Treth Incwm | 6,029 | 5,828 |
| | 33,886 | 38,541 |
| **Incwm Buddsoddiadau** | | |
| Llog y Cyfrif Cadw | 21 | 29 |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | |
| Cronfa Elusennau | 3,813 | 2,098 |
| Cymorth Cristnogol | 1,455 | 100 |
| Apêl Banc Bwyd | 4,385 | - |
| Apêl Llifogydd | 2,095 | - |
| Apêl Talebau Nadolig | 1,195 | - |
| Apêl Lesotho | 159 | - |
| Apêl Madagascar | - | 1,144 |
| Canolfan Ganser Felindre | - | 500 |
| | 13,102 | 3,842 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd** | 47,009 | 42,412 |
| **GWARIANT** | | |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | |
| Cyflogau | 2,020 | 5,618 |
| Yswiriant | 3,493 | 3,417 |
| Gwres, golau a dŵr | 9,313 | 5,804 |
| Pregethwyr | 1,060 | 1,040 |
| Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | 800 | 800 |
| Llenyddiaeth | 849 | 572 |
| Gweinyddol | 1,035 | 2,238 |
| Y Ganolfan | - | 6,370 |
| Y Fynwent | 1,235 | 3,688 |
| Amrywiol | 452 | 697 |
| Cronfa Elusennau | 4,199 | 2,500 |
| Cymorth Cristnogol | 1,495 | 60 |
| Costau Cynnal a Chadw | 3,229 | 1,457 |
| Rhoddion ychwanegol | 1,737 | - |
| Apêl Madagascar | 2,719 | - |
| Apêl Banc Bwyd | 3,405 | - |
| Canolfan Ganser Felindre | 500 | - |
| Apêl Lesotho | - | 1,000 |
| Dibrisiant | 13,409 | 16,534 |
| | 50,950 | 51,795 |
| **Costau Cymorth (Costau Llywodraethu)** | | |
| Ffi Archwilwyr | 1,050 | 1,050 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | 52,000 | 52,845 |
| Enillion heb eu gwireddu o ailbrisio asedau buddsoddi | 10,000 | 22,313 |
| **Incwm net** | 5,009 | 11,880 |

*Nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r datganiad ariannol statudol*